# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **Teitl y cynnig:** | **Papur Gwyn Amaethyddiaeth (Cymru)** |
| **Swyddog(ion) sy'n llenwi'r Asesiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm)**: | **Yr Is-adran Diwygio Rheoli Tir** |
| **Adran:** | **Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol** |
| **Pennaeth yr Isadran/Yr Uwch-swyddog Cyfrifol (enw):** | **James Owen** |
| **Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog Cyfrifol:** | **Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig** |
| **Dyddiad dechrau:** | **Tachwedd 2019** |

## CYNNWYS


Adran 1. Pa gamau gweithredu Y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham? ........3

Adran 2. Beth fydd yr effaith ar lesiant cymdeithasol? ........................................................8

Adran 3. Beth fydd yr effaith ar lesiant diwylliannol a'r Gymraeg? ....................................24

Adran 4. Beth fydd yr effaith ar lesiant economaidd? ......................................................27

Adran 5. Beth fydd yr effaith ar lesiant amgylcheddol? ....................................................34

Adran 6. Cofnod o'r Asesiadau Effaith Llawn sy'n Ofynnol ..............................................51

Adran 7. Casgliad .........................................................................................................53

Adran 8. Datganiad.........................................................................................................57

Asesiadau Effaith Llawn...................................................................................................58

A. Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ..........................................................................58

B. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.........................................................................61

C. Asesiad o'r Effaith o ran Prawfesur Gwledig ..............................................................73

D. Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data ........................................................................80

E. Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg .............................................................................81

F. Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth ..........................................................................92

## ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

**Fframwaith cyfreithiol**

Fel y nodwyd gennym yn *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn sefydlu fframwaith deddfwriaethol pwysig, sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd, ar gyfer datblygu cynigion ar gyfer polisi rheoli tir yng Nghymru yn y dyfodol. Rydym wedi datblygu dull polisi ar gyfer yr holl gymorth amaethyddol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol yn seiliedig ar ofynion y ddwy Ddeddf hyn. Ceir trosolwg o'r gofynion perthnasol allweddol isod.

**Amcanion llesiant**

Mae *Symud Cymru Ymlaen 2016 - 2021* yn nodi amcanion Llywodraeth Cymru mewn ymateb i'w rhwymedigaethau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Dyma'r amcanion yn y ddogfen sy'n uniongyrchol berthnasol i'r maes polisi hwn:

- *Gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau dyfodol llewyrchus i amaethyddiaeth yng Nghymru, gan adeiladu ar ein trafodaethau cynnar yn dilyn refferendwm yr Undeb Ewropeaidd;*
- *Symud ymlaen tuag at ein nod o weld gostyngiad o 80% o leiaf yn ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2050, a pharhau â'n gwaith i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau lleol;*
- *Parhau i fuddsoddi mewn gwaith amddiffyn rhag llifogydd a chymryd camau pellach i reoli dŵr yn well yn ein hamgylchedd.*

**Ffyrdd o weithio**

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gorff cyhoeddus sy'n gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy ystyried cyfres o ffyrdd o weithio. Rydym yn disgrifio pob un ohonynt ac yn egluro sut rydym yn ei rhoi ar waith drwy'r cynigion a geir yn y Papur Gwyn hwn.

**1. Hirdymor** (pwysigrwydd cydbwyso anghenion y tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor, yn enwedig pan allai pethau a wneir i ddiwallu anghenion tymor byr gael effaith niweidiol yn yr hirdymor).

Mae'r polisi arfaethedig yn cefnogi'r gwaith o gyflawni nifer o ganlyniadau sy'n hyrwyddo anghenion cymdeithasol hirdymor megis lliniaru newid yn yr hinsawdd a gwrthdroi’r dirywiad mewn bioamrywiaeth tra'n galluogi ffermwyr i barhau i wneud bywoliaeth o amaethyddiaeth. Bydd ein cynigion rheoleiddiol yn cefnogi hyn a byddant yn hyblyg i addasu i anghenion tymor hwy.

**2. Integreiddio** (yr angen i gymryd ymagwedd integredig, drwy ystyried (i) ym mha ffordd y gallai amcanion llesiant y corff effeithio ar bob un o'r nodau llesiant; a (ii) effaith amcanion

llesiant y corff ar ei gilydd neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill, yn arbennig pan all camau a gymerir gan y corff gyfrannu at gyflawni un amcan ond y gall fod yn niweidiol i gyflawni un arall).

Rydym wedi ystyried Amcanion Llesiant Llywodraeth Cymru sydd i'w gweld yn *Symud Cymru Ymlaen 2016-2021, a*c rydym wedi nodi'r rhai sy'n berthnasol i'r Papur Gwyn. Rydym wedi dod i'r casgliad mai dull sy'n integreiddio'r ffactorau sy'n gyrru ffyniant ar gyfer amaethyddiaeth gyda chamau gweithredu i alluogi i'r amgylchedd gwledig gael ei wella yn yr hirdymor sy'n cynnig y ffordd orau ymlaen ar gyfer cymorth amaethyddol yn y dyfodol.

**3. Cynnwys** (pwysigrwydd cynnwys pobl eraill sydd â diddordeb mewn cyrraedd y nodau llesiant a sicrhau bod y personau hynny'n adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth—Cymru (pan fo'r corff yn arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru gyfan), neu y rhan o Gymru y mae'r corff yn arfer swyddogaethau mewn perthynas â hi).

Hwn fydd y trydydd ymgynghoriad cyhoeddus ar y pwnc pwysig hwn, a chafwyd mwy na 15,000 o ymatebion i gyd i'r ddau gyntaf. Yn ogystal, rydym wedi cynnal cyfarfodydd cyhoeddus ac wedi cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid drwy'r Grŵp Bord Gron ar Brexit a'i is-grwpiau. Rydym yn datblygu ein rhaglen cydlunio ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol hefyd.

**4. Cydweithio** (ym mha ffordd y gallai cydlafurio ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff yn gweithio ar y cyd) gynorthwyo'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion).

Mae datblygu'r cynigion polisi hyn wedi golygu cydweithio sylweddol rhwng gwahanol dimau polisi o fewn Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid eraill. Disgwyliwn i'r dull hwn barhau wrth ddatblygu Bil Amaethyddiaeth (Cymru) ac is-ddeddfwriaeth ategol.

**5. Atal** (ym mha ffordd y gallai defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu gyfrannu at gyflawni amcanion llesiant y corff neu amcanion corff arall).

Mae'r rhan fwyaf o'r problemau amgylcheddol sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth yn deillio o awydd i wneud i dir gynhyrchu allbynnau y tu hwnt i'w allu naturiol, ffocws cul ar ganlyniadau economaidd (yn rhannol o ganlyniad i bolisi amaethyddol yr UE a Llywodraeth y DU dros y pum degawd diwethaf) a dyfodiad problemau ar raddfa fawr fel y newid yn yr hinsawdd. Mae ein cynigion yn ceisio integreiddio camau gweithredu a fydd yn helpu i liniaru neu wrthdroi'r effeithiau amgylcheddol hyn gydag arferion amaethyddol mewn ffordd sy'n galluogi i ffermio fod yn gynaliadwy yng ngwir ystyr y gair. Bwriad ein cynigion ar gyfer gorfodi cydymffurfiaeth â'r rheoliadau yw atal gweithgareddau sy'n niweidiol i'r amgylchedd, gan fod yn gymesur â maint y tramgwydd hefyd.

Yn ogystal â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru hefyd sydd wedi llywio ein gwaith pellach. Mae'r Atodiad i'r Papur Gwyn yn rhoi mwy o fanylion am hyn.

**Crynodeb o'r cynigion**

Mae'r Papur Gwyn yn egluro ein bwriad ar gyfer Bil Amaethyddiaeth (Cymru). Cynigir y bydd yn:

"*Strategol ei gwmpas, gan osod fframwaith o gefnogaeth a all ddarparu ar gyfer datblygu amaethyddiaeth a choedwigaeth yng Nghymru am y pymtheg i ugain mlynedd nesaf*[1]*.*"

Bydd y Bil yn darparu fframwaith o bwerau galluogi lefel uchel i Weinidogion Cymru. Bydd hyn yn rhoi hyblygrwydd i addasu ac ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i amgylchiadau sy'n newid. Lle bo angen, darperir rhagor o fanylion mewn is-ddeddfwriaeth a/neu ganllawiau gan amlaf, a fyddai'n destun ymgynghoriad yn y ffordd arferol. Mae'r asesiad drafft hwn yn ystyried yr effeithiau sy'n debygol o godi o'r pwerau galluogi ac yn nodi lle y dylid asesu ymhellach lle mae manylion y polisi yn cael eu datblygu o hyd.

Mae egwyddor Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn sail i'r holl gynigion yn y Papur Gwyn. Diffinnir hyn fel:

> *"Defnyddio adnoddau tir, gan gynnwys pridd, dŵr, anifeiliaid a phlanhigion, i gynhyrchu nwyddau i ddiwallu anghenion cyfnewidiol pobl gan ddiogelu yr un pryd botensial tymor hir yr adnoddau hyn a chynnal a gwella'u manteision amgylcheddol".*

Y prif gynigion yn y Papur Gwyn yw:

- Sefydlu cynllun cymorth fferm (y *Cynllun Ffermio Cynaliadwy*) i gymryd lle cynlluniau cyfredol yr UE. Bydd y cynllun arfaethedig yn cefnogi cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy tra'n mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, iechyd y cyhoedd a materion amgylcheddol sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth;

- Rhoi cymorth i'r diwydiant a'r gadwyn gyflenwi ehangach lle mae'n cynorthwyo gyda'r gwaith o barhau i Reoli Tir yn Gynaliadwy;

- Lleihau cymhlethdod rheoleiddiol drwy gyfuno deddfwriaeth yn un set o Safonau Gofynnol Cenedlaethol, wedi'u hategu gan adnoddau cyngor a chanllawiau amrywiol i annog cydymffurfiaeth;

- Gwella'r ffordd y caiff rheoleiddio amaethyddol ei orfodi drwy gyflwyno mesurau newydd i sicrhau bod hyn yn gymesur â maint y tramgwydd;

- Gwella monitro a rhannu data drwy ddefnyddio data a thechnoleg o bell yn effeithiol i gynorthwyo gyda'r gwaith o fonitro cydymffurfiaeth â'r cynllun a'r rheoliadau;

[1] Datganiad Llafar yn y Senedd gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 8 Gorffennaf 2020.

- Gwella iechyd a lles anifeiliaid;
- Gwella rheoleiddio a chymorth ar gyfer rheoli coetiroedd a choedwigaeth;
- Cyflwyno newid i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, gan alluogi Gweinidogion Cymru i reoleiddio'r defnydd o faglau;
- Trosglwyddo pwerau a gymerwyd i Weinidogion Cymru drwy Ddeddf Amaethyddiaeth y DU.

**Effaith**

Asesiad effaith drafft o'r cynigion sydd yn y Papur Gwyn yw hwn. Rydym yn croesawu safbwyntiau ar yr effeithiau a nodir, y dystiolaeth a gyflwynir ac unrhyw feysydd nad ydym wedi'u hystyried eto.

Er bod nifer o broblemau wedi'u nodi gyda'r fframwaith polisi cyffredinol a gyflwynwyd yn ein hail ymgynghoriad, *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*, roedd cytundeb cyffredinol bod y fframwaith arfaethedig yn ymateb priodol i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. At ei gilydd, mae'r fframwaith yn cefnogi'r egwyddor o ddarparu cyllid yn y dyfodol i gefnogi a gwobrwyo ffermwyr sy'n gweithredu systemau ffermio cynaliadwy.

Yn dilyn y ddau ymgynghoriad, teimlai rhai ymatebwyr nad oedd y fframwaith yn rhoi sylw na chefnogaeth briodol i sicrhau cyflenwad bwyd digonol drwy roi cymhorthdal ar gyfer cynhyrchu bwyd. Roedd y safbwynt hwn yn sail i'r gwrthwynebiad cryfaf i'r fframwaith. Er nad yw'n bosibl i Gymru fod yn gwbl hunangynhaliol o ran cynhyrchu bwyd, rydym yn bwriadu gweithio gyda'r sector i ddarparu bwyd cynaliadwy o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion defnyddwyr.

Rydym wedi ymgymryd â rhaglen gydlunio gyda thros 1,900 o gyfranogwyr i gasglu barn er mwyn llywio dyluniad y cynllun arfaethedig. Ffermwyr oedd y mwyafrif llethol o'r cyfranogwyr. Wrth i ni ddatblygu ein syniadau ymhellach byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid a'r sector ehangach i lunio system sy'n gallu cynhyrchu bwyd cynaliadwy o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion defnyddwyr. Mae'r Papur Gwyn yn cyflwyno'r fframwaith cyfreithiol i alluogi cymorth ariannol i gael ei ddarparu i'r sector amaethyddol. Byddwn yn ymgynghori ymhellach ar fanylion y cynllun.

O ran rheoleiddio, galwodd ymatebwyr i'r ymgynghoriad *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir* am reoleiddio syml, effeithiol a chymesur. Roedd pryder hefyd y gallai amgylchedd rheoleiddio yng Nghymru a oedd yn wahanol i weddill y DU leihau gallu ffermydd Cymru i gystadlu. Un o egwyddorion allweddol diwygio rheoleiddiol fydd gwneud rheoleiddio'n fwy hygyrch i ffermwyr a rheolwyr tir. Mae hyn yn cynnwys cael Safonau Gofynnol Cenedlaethol clir wedi'u hategu gan gyngor a chanllawiau, monitro doethach a gorfodi cymesur i helpu i wneud rheoleiddio'n llai beichus. Cawsom ein calonogi gan y ffaith bod mwyafrif yr ymatebwyr yn

cytuno â'r egwyddorion allweddol hyn. Mae'r Papur Gwyn yn cyflwyno'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer datblygu'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Byddwn yn ymgynghori ymhellach ar y manylion.

**Costau ac Arbedion**

Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn deillio o'r ddogfen ymgynghori hon gan mai deddfwriaeth sylfaenol yw'r ffocws.

Caiff costau ac arbedion y cynigion eu hasesu fel rhan o Ddadansoddiad Cost a Budd ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol a fydd yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â Bil Amaethyddiaeth (Cymru).

**Dull gweithredu**

Y cynnig yw cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol. Bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael ei gwblhau ochr yn ochr â Bil Amaethyddiaeth (Cymru).

## ADRAN 2. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT CYMDEITHASOL?

### 2.1 Pobl a chymunedau

**Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar bobl a chymunedau?**

Disgwyliwn i'n cynigion gael effaith gadarnhaol ar bobl a chymunedau. Bydd mabwysiadu Rheoli Tir yn Gynaliadwy fel yr egwyddor gyffredinol ar gyfer polisi rheoleiddio a chymorth yn y dyfodol yn diogelu ein hadnoddau naturiol ac yn arwain at ganlyniadau iechyd cadarnhaol i bobl Cymru. Bydd cymorth yn galluogi ffermwyr i gael eu gwobrwyo am gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy ac am eu cyfraniad at iechyd a llesiant ein cenedl. Bydd hyn yn dod â manteision i ffermwyr, teuluoedd ffermio, cymunedau gwledig, defnyddwyr cynnyrch o Gymru a phobl Cymru.

Rydym yn ystyried yn fanylach yr effeithiau disgwyliedig ar unigolion, grwpiau a chymunedau penodol yn yr Asesiadau o Effaith ein cynigion ar Hawliau Plant, Prawfesur Gwledig, Cydraddoldeb ac Iechyd. Yn ogystal, mae asesiad y Gymraeg yn ystyried pwysigrwydd amaethyddiaeth i gymunedau gwledig, sy'n rhai Cymraeg eu hiaith yn aml.

### 2.2 Hawliau Plant

Gweler Atodiad A ar gyfer yr Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant.

### 2.3 Cydraddoldeb

Gweler Atodiad B ar gyfer yr Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb.

### 2.4 Prawfesur Gwledig

Gweler Atodiad C ar gyfer yr Asesiad o’r Effaith o ran Prawfesur Gwledig.

## 2.5 Iechyd

**Crynodeb o'r effeithiau a ragwelir**

Rhagwelir y bydd cynigion y Papur Gwyn yn cael nifer o effeithiau ar iechyd y cyhoedd ac iechyd y gymuned ffermio. Yn benodol:

- Gwelliannau amgylcheddol a fydd yn llesol i iechyd corfforol y cyhoedd yng Nghymru. Dylai cynigion yn y Papur Gwyn gael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd gyda manteision iechyd cysylltiedig i bobl Cymru. Yn benodol, dylai fod manteision hirdymor o ran ansawdd aer, ansawdd dŵr, perygl llifogydd;

- Atal, rheoli a dileu clefydau anifeiliaid, gan gyfrannu at fwyd mwy diogel, gwell iechyd y cyhoedd a lleihau'r risg i bobl o glefydau fel salmonelosis;

- Cyfleoedd ar gyfer mwy o weithgarwch corfforol (drwy gynyddu cyfleoedd i'r cyhoedd gael mynediad i gefn gwlad a chyswllt â natur) ac effeithiau cadarnhaol hyn ar iechyd corfforol a meddyliol y boblogaeth;

- Lleihau effeithiau negyddol y baich rheoleiddio a gweinyddol ar ffermwyr a rheolwyr tir drwy gasglu a rhannu data'n fwy effeithlon a thrwy ddarparu safonau clir y dylai pob ffermwr gydymffurfio â nhw ynghyd â chyngor a chanllawiau amrywiol i gynorthwyo dealltwriaeth;

- Gallai lefel y newid gael effeithiau negyddol ar iechyd meddwl ffermwyr. Bydd cyngor, canllawiau a chymorth clir yn bwysig i liniaru hyn, yn ogystal ag archwilio sut y gellir rheoli'r broses o drosglwyddo i'r cynllun/Safonau Gofynnol Cenedlaethol newydd mewn ffordd sy'n rhoi amser i ffermwyr addasu. Byddwn yn gweithio gyda'r sector i gael gwell dealltwriaeth o'r materion hyn.

Rydym wedi nodi nifer o effeithiau sylweddol posibl ar iechyd yn ein cynigion. Bydd Asesiad o'r Effaith ar Iechyd manylach yn cael ei gynnal i ystyried yn llawn i ba raddau y gallai iechyd a llesiant pobl Cymru, yn ogystal â chymunedau ffermio a chymunedau gwledig ehangach, gael eu heffeithio'n gadarnhaol a/neu'n negyddol a sut y gall y polisi liniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl.

Drwy gydol y broses o ddatblygu'r polisi, mae camau lliniaru a nodwyd yn ein hasesiad effaith cychwynnol wedi'u hymgorffori, ac fe'u disgrifir yn y testun canlynol.

**2.5a Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar benderfynyddion iechyd?**

- ***Ffordd o fyw***

Dylai ein cynigion gynnig manteision cymedrol i benderfynyddion iechyd pobl Cymru sy’n gysylltiedig â ffordd o fyw. Dylai mwy o gyfleoedd i gael mynediad i gefn gwlad a'i fwynhau gyfrannu at ganlyniadau iechyd corfforol a meddyliol gwell i'r boblogaeth gyffredinol, yn yr un modd ag y dylai amddiffyniadau diogelwch bwyd.

*Deiet ac Iechyd y Cyhoedd*

Bydd y cynigion iechyd a lles anifeiliaid yn helpu i atal, rheoli a dileu clefydau anifeiliaid, gan gyfrannu at fwyd mwy diogel a gwell iechyd y cyhoedd. Gall lleihau'r risg i bobl o glefydau megis salmonelosis, er enghraifft, helpu i leihau'r galw ar wasanaethau iechyd, a'r angen am driniaeth wrthfiotig[23].

Ymwrthedd gwrthficrobaidd (AMR) yw un o'r bygythiadau hirdymor mwyaf i iechyd pobl, yng Nghymru ac yn fyd-eang. Mae effeithiau AMR, o beidio â’i reoli, yn eang ac yn gostus iawn, nid yn unig yn ariannol, ond hefyd o ran iechyd byd-eang, diogelwch cyflenwadau bwyd, llesiant amgylcheddol, a datblygiad economaidd-gymdeithasol. Eisoes, amcangyfrifir bod AMR yn achosi o leiaf 700,000 o farwolaethau ledled y byd bob blwyddyn. Rhagwelir y bydd y ffigur hwnnw'n codi i 10 miliwn, ynghyd â chost gronnol o $100 triliwn, erbyn 2050 os nad oes unrhyw beth yn cael ei wneud yn ei gylch[4].

Yn fyd-eang, mae AMR, o beidio â’i reoli, yn bygwth llawer o Nodau Datblygu Cynaliadwy hefyd. Mae Banc y Byd yn amcangyfrif y gallai 28 miliwn yn rhagor o bobl gael eu gorfodi i fyw mewn tlodi eithafol erbyn 2050, drwy ddiffygion mewn allbwn economaidd, oni bai bod ymwrthedd yn cael ei atal.

Bydd AMR yn effeithio ar Gymru hefyd os na chaiff ei reoli, er nad yw gwaith i fesur yr effaith o ran colli bywydau wedi'i wneud eto.

Mae AMR yn cael ei yrru gan y defnydd o wrthfiotigau. Rhan o'r gwaith rheoli yw lleihau'r defnydd o wrthfiotigau, mewn anifeiliaid, boed yn cael eu ffermio neu eu cadw at ddibenion eraill, ac mewn pobl. Ar gyfer anifeiliaid sy'n cael eu ffermio, mae hyn yn golygu eu cadw mor iach â phosibl mewn systemau cynhyrchu iechyd uchel. Mae hyn yn lleihau'r angen i

---

[2] Llywodraeth Cymru (2019). Ymwrthedd gwrthficrobaidd mewn anifeiliaid a'r amgylchedd: cynllun gweithredu.

[3] Llywodraeth Cymru (2019). Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid: Cynllun Gweithredu 2019-20.

[4] Sefydliad Iechyd y Byd (2019). No time to Wait: Securing the future from drug resistant infections.

ddefnyddio gwrthfiotigau ac felly'n lleihau'r risg o ddatblygu AMR. Nod y cynigion iechyd a lles anifeiliaid yn y Papur Gwyn yw cynhyrchu da byw iach.

*Ffyrdd o Fyw a Gweithgarwch Corfforol*

Mae ffermwyr yn rheoli tua 88% o'r tir yng Nghymru[5]. Mae hyn yn cynnwys y gwrychoedd, waliau cerrig sych a nodweddion eraill yn y dirwedd sy'n cael eu gwerthfawrogi gan y cyhoedd wrth iddynt ymweld â'r 16,000 milltir o lwybrau troed, 3,000 milltir o lwybrau ceffylau, 1,200 milltir o rwydwaith beicio a 460,000 hectar o dir mynediad agored[6]. Un ffordd y mae ffermwyr yn cefnogi llesiant corfforol a meddyliol y boblogaeth gyffredinol yw drwy gynnal a chadw cefn gwlad a'r hawliau tramwy hyn. Mae cefn gwlad Cymru yn darparu lle ar gyfer gweithgarwch corfforol sy'n cyfrannu at lesiant meddyliol. Dangoswyd bod treulio amser yng nghefn gwlad yn cael effeithiau cadarnhaol ar iechyd a llesiant meddyliol[7].

Mae ein cynigion yn cefnogi parhau â'r drefn o warchod nodweddion tirwedd sydd wedi'u nodi fel rhai o bwys yng Nghymru mewn rheoliadau, a bydd hyn o fudd i bawb allu mwynhau cefn gwlad.

Mae cynigion ein cynllun yn cynnwys gwell darpariaeth ar gyfer cyfleoedd i'r cyhoedd gael mynediad i gefn gwlad, a dylai hyn alluogi mwy o hamdden (ar ffurf cerdded yng nghefn gwlad Cymru a'i fwynhau) gan bobl Cymru (ac ymwelwyr â Chymru).

Gall cyfleoedd ehangach ar gyfer mynediad cyhoeddus i gefn gwlad greu manteision iechyd cyhoeddus ychwanegol hefyd. Er enghraifft:

- Daeth adolygiad yn 2007[8] o'r cysylltiadau rhwng yr amgylchedd naturiol a llesiant i'r casgliad "*The natural environment provides physical, mental and social well-being benefits. There are synergistic effects between these benefits".* It also noted *"increased levels of physical activity are known to have both a preventative role in cardiovascular and musculo-skeletal diseases and inhibiting stroke and cancer. It also has a positive effect on range of health determinants such as body weight, blood pressure, cholesterol levels and so forth".*

---

[5] Naill ai drwy dir fferm neu dir comin. Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2019). Amaethyddiaeth yng Nghymru.

[6] NFU Cymru (2017). Ffermio – Creu Cymru Unedig.

[7] Pretty, J., Griffin, M., Peacock, J., Hine, R., Sellens, M., a South, N. (2005). A countryside for health and wellbeing: the physical and mental health benefits of green exercise. Countryside Recreation Network, Prifysgol Sheffield Hallam.

[8] Newton, J. (2007). Wellbeing and the natural environment: a brief overview of the evidence, Prifysgol Caerfaddon.

- Daeth astudiaeth yn 2007 [9] a oedd yn edrych ar effeithiau amrywiaeth o weithgareddau gwyrdd yng nghefn gwlad ledled y DU ar iechyd meddwl i'r casgliad *"green exercise generates mental health benefits regardless of the level of intensity, duration or type of green activity undertaken".* Adroddodd yr astudiaeth fod yr holl gyfranogwyr yn dangos *"significant improvement in their self-esteem and total mood disturbance…..factors of anger-hostility, confusion-bewilderment, depression-dejection and tension anxiety all significantly improved post-activity."*

- Gwerthusodd astudiaeth yn 2009[10] newidiadau mewn hunan-barch a hwyliau ar ôl cerdded mewn pedwar safle naturiol a threftadaeth gwahanol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Lloegr a chanfu *"Feelings of anger, depression, tension and confusion all significantly reduced and vigour increased. Thus, the environment plays an important role in facilitating physical activities and helping to address sedentary behaviours. Walking, in particular, can serve many purposes including exercise, recreation, travel, companionship, relaxation and restoration. However, walking in greenspaces may offer a more sustainable option, as the primary reward is enhanced emotional well-being through both exposure to nature and participation in exercise."*

*Diogelwch Ffermydd*

Mae data gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) [11] yn dangos y bu chwe marwolaeth ar ffermydd yng Nghymru yn 2017-18, o'i gymharu â chyfartaledd symudol pum mlynedd (2013/14 i 2017/18) o bedair y flwyddyn. Ar wahân i gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer cynllun, mae'r HSE wedi cynhyrchu llyfryn 'Sut olwg sydd ar fferm dda'[12]. Wrth i'n cynigion ddatblygu, byddwn yn ystyried sut y gallai Datblygiad Proffesiynol Parhaus ymgorffori diogelwch ar ffermydd.

- *Dylanwadau cymdeithasol a chymunedol ar iechyd*

Mae adroddiad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru[13] yn nodi nifer o ffactorau allweddol sy'n peri ansicrwydd a heriau allweddol a allai effeithio ar lesiant ffermwyr, ac un ohonynt yw teimlo'n ynysig ac yn unig. Ceir tystiolaeth y gall cymryd rhan mewn cynlluniau amgylcheddol liniaru

---

[9] Roedd y gweithgareddau'n cynnwys cadwraeth, cerdded, beicio mynydd, gweithgareddau coetir, marchogaeth, cychod a physgota. Pretty, J., Peacock, J., Hine, R., Sellens, M., South, N., a Griffin, M. (2007). Green exercise in the UK countryside: Effects on health and psychological well-being, and implications for policy and planning. *Journal of environmental planning and management*, *50*(2), 211-231.

[10] Barton, J., Hine, R., a Pretty, J. (2009). The health benefits of walking in greenspaces of high natural and heritage value. *Journal of Integrative Environmental Sciences*, *6*(4), 261-278.

[11] Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (2018). Fatal injuries in agriculture, forestry and fishing in Great Britain 2017/18.

[12] Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Sut olwg sydd ar fferm dda. https://www.hse.gov.uk/agriculture/resources/good-farm.htm

[13] Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Sefydliad Iechyd Meddwl (2019). Cefnogi cymunedau ffermio yn ystod cyfnodau o ansicrwydd. Fframwaith gweithredu i gefnogi iechyd meddwl a lles ffermwyr a'u teuluoedd.

rhai o'r problemau llesiant hyn. Er enghraifft, nododd adroddiad EU LIFE[14] ar brosiect Burren LIFE (yn Éire) "*Another initially unforeseen benefit of the subcontracted conservation work was its ability to offset the social isolation that many farmers experience as the work was usually carried out by teams of at least two and provided an opportunity for social interaction".*

Yn yr un modd, nododd arolwg[15] o gyfranogwyr y cynllun Environmental Stewardship (ES) yn Lloegr fod ES yn gallu "*play an important part in developing new social contacts and networks. Of the advisors used by agreement holders, 40% were not known to them previously, which indicates these agreement holders had to reach out beyond the established social networks around their farm or business for this expertise. This was particularly the case for HLS [Higher Level Stewardship] agreement holders and for the lowland dairy and livestock farms. These new linkages and flows of information can potentially lead to profound changes in social and business activity*." Canfu'r arolwg fod cynlluniau ES, yn enwedig HLS, wedi dod â deiliaid cytundebau i gysylltiad â mwy o ffermwyr a'r cyhoedd. Mae'n ymddangos y gall y cyswllt cymdeithasol a ddaw yn sgil aelodaeth o gynllun (cynnal neu fynychu teithiau fferm, cyfarfodydd i drafod opsiynau, ymweliadau cynghorwyr) gael ei werthfawrogi'n fawr.

Mae'r dystiolaeth uchod yn awgrymu bod gan ein cynigion i ariannu camau gweithredu cydweithredol Rheoli Tir yn Gynaliadwy ymysg ffermwyr, ac ymysg ffermwyr ac aelodau o'r gymuned ehangach, y potensial i leihau teimladau o fod yn ynysig yn gymdeithasol ac unigrwydd ymysg cyfranogwyr y cynllun, ac felly gyfrannu at well iechyd meddwl ymhlith ffermwyr.

- *Llesiant meddyliol*

Fel y soniwyd uchod, mae ein cynigion yn cefnogi cyfleoedd i gael mynediad i gefn gwlad a'i fwynhau gan gyfrannu at ganlyniadau iechyd corfforol a meddyliol gwell i'r boblogaeth gyffredinol. Amlinellir yr effeithiau llesiant cadarnhaol y mae nodweddion tirwedd yn eu cael ar y rhai sy'n treulio amser yn yr amgylchedd naturiol yn yr adroddiad "*A Countryside for Health and Wellbeing: The Physical and Mental Health Benefits of Green Exercise*"**[16]**.

Yn ogystal ag iechyd a llesiant cymdeithas yn gyffredinol, mae iechyd meddwl ffermwyr yn ystyriaeth bwysig. Mae data rhyngwladol yn dangos mai ffermio sydd â rhai o'r cyfraddau

[14]Technical Final Report (LIFE04NAT/IE/000125). Burren LIFE Farming for Conservation in the Burren.

[15] Mills, J., et al. (2010). Estimating the Incidental Socioeconomic Benefits of Environmental Stewardship Schemes. Final Report. Countryside and Community Research Institute.

[16] Pretty, J., Griffin, M., Peacock, J., Hine, R., Sellens, M., a South, N. (2005). A Countryside for Health and Wellbeing: The Physical and Mental Health Benefits of Green Exercise- Executive Summary. *Countryside Recreation Network*.

uchaf o hunanladdiad o gymharu â galwedigaethau eraill, a gall teimlo'n ynysig yn gymdeithasol yn y gwaith fod yn ffactor pwysig yn hyn o beth[17].

Mae’r adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru[18] a grybwyllir uchod yn nodi y *"gall delio ag ansicrwydd gynyddu gorbryder a chael effaith niweidiol ar les meddyliol ymhlith ffermwyr, eu teuluoedd a chymunedau gwledig. Mae ffermwyr yn profi lefelau uchel o straen a gorbryder oherwydd ymdeimlad bod ganddynt lai o reolaeth dros brosesau’r sector ffermio (cystadleuaeth, rheoleiddio a phrisiau) a’r amgylchedd ehangach sy’n effeithio ar arferion ffermio (clefydau a’r tywydd). Mae ffermwyr yn wynebu risg uwch o deimlo ar adegau nad yw bywyd yn werth ei fyw, nad oes ganddynt gymorth cymdeithasol, ac maent wedi’u nodi fel grŵp galwedigaethol sydd â risg uwch o hunanladdiad".*

Mae'r adroddiad yn nodi chwe ansicrwydd a her allweddol sydd â'r potensial i effeithio ar iechyd a llesiant meddyliol ffermwyr:

- Ansicrwydd a hyfywedd ffermio yng Nghymru;
- Cynllunio olyniaeth;
- Rheoleiddio, gwaith gweinyddol a digideiddio;
- Ffermwyr yn blaenoriaethu eu hiechyd eu hunain;
- Teimlo'n ynysig ac yn unig *(rhoddir manylion uchod o dan 'Dylanwadau cymdeithasol a chymunedol*);
- Y diwylliant ffermio a'r disgwyliadau ohono.

Rydym yn rhoi sylwadau ar bob mater isod mewn perthynas â'n cynigion.

*Ansicrwydd a hyfywedd ffermio yng Nghymru*

Dywed Iechyd Cyhoeddus Cymru *"mae’r broses Brexit wedi creu ansicrwydd ariannol a rheoleiddiol sylweddol, yn arbennig i ffermwyr. Mae sefyllfaoedd masnachu ac ansicrwydd rheoleiddiol ar ôl Brexit yn cael eu cydnabod fel heriau i’r diwydiant ffermio yng Nghymru”.* Er bod yr egwyddorion a'r cyfeiriad polisi ar gyfer cymorth yn y dyfodol wedi'u cyflwyno yn y Papur Gwyn ac yn *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*, mae ansicrwydd o hyd ynghylch natur y berthynas fasnachu mewn cynnyrch amaethyddol ar ôl Brexit. Rydym wedi comisiynu ymgynghorwyr annibynnol i ddadansoddi effeithiau cynigion ein cynllun ar fusnesau fferm yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys ystyried effaith senarios masnachu ar ôl Brexit.

Mae cynigion ar gyfer y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn seiliedig ar gynnal y gofynion cyfreithiol presennol, tra'n ei gwneud yn haws i ffermwyr ddeall yr hyn y mae'n rhaid iddynt ei wneud er mwyn cydymffurfio. Rhagwelir y bydd hyn yn cyfrannu at leihau'r ansicrwydd ynghylch rheoleiddio yn y dyfodol.

---

[17] Roberts SE, Jaremin B, Lloyd K. High-risk occupations for suicide. *Psychol Med*. 2013;43(6):1231-1240.; Stark, C., Gibbs, D., Hopkins, P., Belbin, A., Hay, A., a Selvaraj, S. (2006). Suicide in farmers in Scotland.

[18] Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Sefydliad Iechyd Meddwl (2019). Cefnogi cymunedau ffermio yn ystod cyfnodau o ansicrwydd. Fframwaith gweithredu i gefnogi iechyd meddwl a llesIANT ffermwyr a’u teuluoedd.

Mae'r cynllun arfaethedig yn newid sylweddol i bolisi a chymorth amaethyddol a gallai beri ansicrwydd i'r sector ffermio. Rydym yn cynnig lliniaru hyn drwy gynllunio a gweithredu cynllun cyfathrebu cynhwysfawr sy'n annog ymgysylltu â rhanddeiliaid, fel y gall y diwydiant gyfrannu at y broses o ddatblygu'r cynigion. Bydd mwy o fanylion am y cynllun arfaethedig yn cael eu rhannu â rhanddeiliaid fel rhan o'r broses gydlunio barhaus. Bydd hyn yn cyfrannu at fwy o wybodaeth a llai o ansicrwydd ynghylch y cynllun arfaethedig yn y gymuned ffermio.

*Cynllunio olyniaeth*

Yn ôl adolygiad mawr[19] o strategaethau olyniaeth ar ffermydd, *"the probability of intra-family succession increases with farm performance, which was measured in annual farm revenues"* a *"family farms that pursue innovative and sustainable business strategies are expected to have a higher probability of succession because they are more attractive for the next generation".* Rydym eisoes wedi amlinellu[20] ein bwriad y dylai'r cynllun fod ar gael i bob fferm ac y dylai ddarparu ffrwd refeniw bwysig i'r ffermydd sy'n cymryd rhan. Dylai hyn helpu i gefnogi ffermydd i wneud gwaith cynllunio hirdymor ar gyfer eu busnesau. Fel y nodwn uchod, rydym wedi comisiynu dadansoddiad annibynnol i archwilio effeithiau ein cynigion ar gyfer y cynllun ar fusnesau fferm. Fel rhan o'r gwaith rydym yn ei wneud i ddiwygio tenantiaethau amaethyddol byddwn yn ystyried materion sy'n ymwneud ag olyniaeth prydlesi a bydd unrhyw effeithiau a nodir yn rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Nid oes gennym unrhyw dystiolaeth y bydd y cynigion ehangach yn cael effaith negyddol ar gynllunio olyniaeth ffermydd.

*Rheoleiddio, gwaith gweinyddol a digideiddio*

Dywed adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru bod deall a chydymffurfio â rheoliadau yn her allweddol i gynnal iechyd a llesiant meddyliol da ymysg ffermwyr a rheolwyr tir. Argymhellodd hefyd y dylai Llywodraeth Cymru edrych eto ar y cynnydd a wnaed yn dilyn adroddiad *Hwyluso'r Drefn 2011*[21]. Bwriad ein cynigion ar gyfer cyflwyno Safonau Gofynnol Cenedlaethol, symleiddio'r broses o gasglu a phrosesu data gan ffermydd a gorfodi cymesur yw mynd i'r afael â nifer o'r argymhellion hyn.

Awgrymodd adroddiad *Hwyluso'r Drefn* fod diwylliant o ofn ymhlith ffermwyr yn deillio o gymhlethdod y rheoliadau a pha mor hawdd y gellir torri rheolau'n ddamweiniol gan arwain at gosb ariannol. Yn ein hymgynghoriadau blaenorol, *Brexit a'n Tir* a *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*, amlinellwyd ein syniadau ar ddyfodol rheoleiddio amaethyddol. Gwnaethom gynnig datblygu set o Safonau Gofynnol Cenedlaethol clir wedi'u hategu gan gyngor a chanllawiau hygyrch i helpu ffermwyr i ddeall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i gydymffurfio. Mae cynigion ein Papur Gwyn yn cyflwyno rhagor o fanylion.

---

[19] Suess-Reie, J., a Fuetsch, E. (2016). The future of family farming: A literature review on innovative, sustainable and succession-oriented strategies. *Journal of rural studies*, *47*, 117-140.
[20] Llywodraeth Cymru (2019). Ymgynghoriad Ffermio Cynaliadwy a'n Tir.
[21] Llywodraeth Cymru (2012). Datganiad Ysgrifenedig - Ymateb Llywodraeth Cymru i 'Hwyluso'r Drefn' – adroddiad o argymhellion i Lywodraeth Cymru ar well rheoleiddio ym maes ffermio.

Mae Adroddiad *Hwyluso'r Drefn* yn nodi baich gweinyddol fel achos straen i berchnogion/rheolwyr tir. Mae ein cynigion yn cynnwys darpariaethau i ganiatáu i reoleiddwyr rannu gwybodaeth a symleiddio'r broses o gasglu data gan ffermwyr er mwyn lleihau'r angen i ffermwyr ddarparu'r un wybodaeth neu wybodaeth debyg i sawl rheoleiddiwr gwahanol. Achos arall o straen a nodwyd gan yr adroddiad yw archwiliadau ar y safle. Er mwyn lleihau'r baich rheoleiddio ar ffermwyr, rydym am sicrhau bod y gwaith o fonitro cydymffurfiaeth â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn fwy craff ac yn fwy syml. Rydym yn cynnig gwella'r mynediad sydd gan reoleiddwyr i ystod o ddata i'w helpu i gael dealltwriaeth fwy cywir o gydymffurfiaeth ffermwr, gan leihau'r ddibyniaeth ar ymweliadau safle a galluogi archwiliadau wedi'u targedu. Drwy hyn, dylai ein cynigion helpu i leihau effeithiau negyddol y baich rheoleiddio ar iechyd a llesiant meddyliol ffermwyr.

Gall bygythiad camau gorfodi, yn enwedig erlyniad troseddol, gael effaith andwyol ar iechyd a llesiant meddyliol ffermwyr. Mae ein cynigion ar gyfer gorfodi yn ceisio osgoi camau troseddol lle bo modd, ond gan gadw’r opsiwn hwn pan fetho popeth arall ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol. Nid ein bwriad yw cosbi ffermwyr yn ddiangen, ond mae'n bwysig bod unrhyw fesurau gorfodi yn gymesur â difrifoldeb y tramgwydd a bod canllawiau clir yn cael eu darparu i ffermwyr ar ganlyniadau peidio â chydymffurfio. Mae'n bwysig hefyd bod rheoleiddio'n cael ei gymhwyso'n gyfartal i bob ffermwr yng Nghymru (p'un a ydynt yn rhan o gynllun talu ai peidio). Credwn mai'r ffordd orau o gyflawni hyn yw cyflwyno sancsiynau sifil (megis hysbysiadau a chosbau ariannol) fel rhan o gasgliad o fecanweithiau i orfodi troseddau llai difrifol. Byddai rhan o'r gyfres hon o sancsiynau'n cynnwys caniatáu i ffermwyr gynnig Ymgymeriad Gorfodi yn lle cosb droseddol neu sifil i wneud gwaith adferol yn y modd y mae'r ffermwr yn ei gynnig.

Gall difa unrhyw anifail cyn amser, a diboblogi daliadau cyfan yn llwyr mewn rhai achosion gan arwain at golli llinachau sefydledig a blynyddoedd o fridio, gael effaith andwyol sylweddol ar lesiant meddyliol ceidwaid da byw, effaith na all iawndal ariannol yn unig fynd i'r afael ag hi. Mae straen ac iselder yn gysylltiedig â digwyddiadau o’r fath[22] (ac yn eu tro gallant effeithio ar lesiant corfforol hefyd). Gall dulliau o geisio lleihau'r risg o achosion o glefydau ar raddfa fawr drwy fecanweithiau gorfodi ychwanegol, fel y nodir yn y Papur Gwyn, osgoi effeithiau negyddol mesurau rheoli clefydau mwy difrifol.

Gan gydnabod effaith achosion o Dwbercwlosis Buchol (TB) ar iechyd meddwl ffermwyr a theuluoedd sy'n ffermio, cyflwynodd Llywodraeth Cymru y rhaglen Cymorth TB i ddarparu cymorth milfeddygol a ariennir gan y Llywodraeth gan filfeddygon preifat lleol sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig. Hefyd, trefnodd Llywodraeth Cymru gontract gyda'r Farming Community Network (FCN) i ddarparu cymorth Iechyd Meddwl a Lles Ffermwyr pwrpasol i'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan TB. Yn fwy diweddar, mae gwaith cydweithredol

[22] Sefydliad Iechyd Gwledig a Phrifysgol Morgannwg (2003). Adroddiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru: Effaith clwy'r traed a'r genau ar iechyd meddwl a lles yng Nghymru

trawsadrannol wedi'i wneud i gefnogi datblygiad grŵp trydydd sector sy'n cynnwys FCN, Tir Dewi, Sefydliad Daniel Picton-Jones a Mind Cymru.

Mae'r cynigion iechyd a lles anifeiliaid a gyflwynir yn y Papur Gwyn yn cynnwys cyflwyno Parthau Rheoli Symudiadau a system o hysbysiadau cosb benodedig (sancsiynau sifil) am beidio â chydymffurfio â rheolaethau clefydau anifeiliaid a gofynion lles anifeiliaid. Ar gyfer y maes hwn, bydd sancsiynau sifil yn sicrhau camau gorfodi sy'n gymesur â risg a difrifoldeb y camau y mae angen eu cywiro. Dyma'r dull gorfodi y dylid ei ddefnyddio yn y lle cyntaf ar gyfer mân droseddau ac annog cydymffurfiaeth, gan leihau'r risg o achosion mawr neu gynyddol o glefydau, sy'n gostus i geidwaid da byw, y diwydiant a'r trethdalwr. Cyfanswm cost argyfwng Clwy'r Traed a'r Genau 2001 i'r Llywodraeth oedd £3 biliwn, ac roedd £102 miliwn o'r gost yn ymwneud â Chymru. Iawndal i geidwaid da byw am anifeiliaid a gafodd eu difa i reoli'r clefyd ac atal ei ledaeniad oedd cyfran sylweddol o'r swm hwn. Cost gyfartalog achos o TB i'r ffermwr (yng Nghymru a Lloegr) yw £6,600[23].

Bydd angen rhoi ystyriaeth fanwl i'n cynigion ar gyfer sancsiynau sifil a'u datblygu mewn cydweithrediad â ffermwyr a rheoleiddwyr. Rydym yn bwriadu i sancsiynau sifil fod yn rhwystr effeithiol ond ni fwriedir eu defnyddio i dargedu dirwyon at unigolion sy'n agored i niwed. Am y rheswm hwn, byddai angen i ni ystyried yn ofalus sut y caiff camau gorfodi eu rhoi ar waith ledled Cymru er mwyn lleihau'r effeithiau iechyd meddwl negyddol ar ffermwyr.

*Ffermwyr yn blaenoriaethu eu hiechyd eu hunain*

O ran effaith cymryd rhan mewn cynllun amaeth-amgylcheddol ar iechyd meddwl ffermwyr, mae tystiolaeth arall[24] yn awgrymu "*the self-reported mental health of farmers adopting agri-environmental schemes in Wales was significantly better than non-adopters. Although correlation was shown, rather than causation, interpretation of the results suggest that poor mental health of farmers may be one cause of non-adoption of agri-environment schemes*." Wrth i'n cynigion polisi ddatblygu, byddwn yn ystyried yn fanylach yr achosion dros beidio â mabwysiadu cynlluniau blaenorol er mwyn lleihau'r rhwystrau i gymryd rhan yn y cynllun newydd.

[23] Adroddiad i Defra (2019). Estimating the consequential cost of bovine TB incidents on cattle farmers in the High Risk & Edge Areas of England & High and Intermediate TB Areas of Wales. Rhif y prosiect SE3139.

[24] Hounsome, B., Edwards, R. T., ac Edwards-Jones, G. (2006). A note on the effect of farmer mental health on adoption: The case of agri-environment schemes. *Agricultural Systems*, *91*(3), 229-241.

*Y diwylliant ffermio a'r disgwyliadau ohono*

Mae dadansoddiad[25] o rôl busnesau bach (nid busnesau fferm yn unig) wrth gyfrannu at incwm aelwydydd mewn ardaloedd gwledig yng nghyd-destun llesiant aelwydydd yn nodi "*households whose members all thrive and enjoy well-being have microbusinesses which are combined with other activities to generate the household livelihood…… In the worst case, the business can provide the household with enough income to get by, but lives become so constrained by this form of making a living that well-being in its widest sense is limited. In the best case, the business becomes embedded in broader household activities, playing a part in opening new opportunities rather than imposing constraints."* Gallai ein cynigion i gefnogi ffermwyr i fanteisio ar gyfleoedd arallgyfeirio (er enghraifft, yn gysylltiedig â thwristiaeth amaeth[26]) ehangu gweithgareddau'r aelwyd, ac felly gallent effeithio'n gadarnhaol ar lesiant yr aelwyd ffermio ehangach yn ogystal â llesiant y ffermwr. Ynghyd â'n cynigion i gefnogi cydweithio a chydweithredu rhwng ffermwyr ac eraill, gallai'r cynllun gael effaith gadarnhaol ar y penderfynydd hwn o lesiant meddyliol ffermwyr ac aelwydydd ffermio.

- *Amodau byw/amgylcheddol sy'n effeithio ar iechyd*

Ategir ein cynigion gan yr egwyddor o Reoli Tir yn Gynaliadwy (SLM). Drwy gyfrannu at well ansawdd aer (yn enwedig drwy leihau amonia), llai o berygl llifogydd, a gwell bioamrywiaeth, dylai'r cynigion gyfrannu at ganlyniadau iechyd corfforol a meddyliol gwell yn y boblogaeth gyffredinol.

Mae penderfynyddion amgylcheddol allweddol iechyd, a fydd yn cael eu heffeithio gan y diwygiadau rheoleiddiol arfaethedig a chynllun y dyfodol, yn cynnwys:

- Allyriadau niweidiol;
- Perygl llifogydd ac ansawdd dŵr;
- Bioamrywiaeth;
- Cyfleoedd i'r cyhoedd gael mynediad.

Rydym yn ystyried pob un o'r penderfynyddion hyn isod mewn perthynas â'n cynigion.

[25] Oughton, E., Wheelock, J. a Baines, S. (2003). Micro-businesses and social inclusion in rural households: a comparative analysis. *Sociologica Ruralis* 43(4):331-348.

[26] Er enghraifft, daeth astudiaeth yn yr Alban i'r casgliad: "t*wo additional niche markets that incorporate direct interaction between visitors and agriculture have been identified,…. these types of agritourism have significant potential to generate public as well as private benefits; including increased public awareness of food and farming, promotion and sale of locally produced farm foods, and through supporting the implementation of agri-environmental and conservation measures."* Flanigan, S., Blackstock, K., a Hunter, C. (2015) Generating public and private benefits through understanding what drives different types of agritourism, Journal of Rural Studies, 41: 129-141.

*Lleihau allyriadau niweidiol*

Bob blwyddyn yng Nghymru, gellir priodoli'r hyn sy'n cyfateb i 1604 (5.4%) o farwolaethau i gysylltiad â $PM_{2.5}$, a 1,108 o farwolaethau i gysylltiad ag $NO_2$**[27]**. Mae amcanion ansawdd aer cenedlaethol wedi'u pennu ar gyfer y DU yn seiliedig ar derfyn y Gyfarwyddeb Ewropeaidd a gwerthoedd targed ar gyfer diogelu iechyd pobl. Nodir manylion y rhain yn y dystiolaeth o'n Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd (ERAMMP)[28].

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru[29] yn nodi mai'r llygryddion aer sy'n peri'r pryder mwyaf i iechyd y cyhoedd yw deunydd gronynnol (PM) a nitrogen deuocsid ($NO_2$). Mae llygredd aer yn cyfuno ag agweddau eraill ar yr amgylchedd cymdeithasol a ffisegol i greu baich clefydau anghyfartal ar rannau mwy difreintiedig o gymdeithas. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn nodi hefyd bod y rhan fwyaf o broblemau llygredd aer lleol yn cael eu hachosi gan allyriadau o gerbydau ffordd. Fodd bynnag, gall ffynonellau eraill ddylanwadu ar ansawdd aer hefyd, er enghraifft ffynonellau diwydiannol, amaethyddol a phreswyl / domestig.

Mae gan lygredd o amaethyddiaeth y potensial i effeithio'n ddifrifol ar iechyd corfforol drwy allyriadau llygryddion fel amonia neu ocsidiau nitraidd. Ers 2005, nid yw allyriadau amonia o'r sector wedi gostwng yn sylweddol[30]. Mae ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y *Cynllun Aer Glân i Gymru*[31] yn nodi'n benodol:

- Mae **Ammonia ($NH_3$)** yn nwy di-liw ag arogl cryf. Gall ffurfio deunydd gronynnol eilaidd hefyd drwy adweithiau yn yr atmosffer, teithio pellteroedd mawr a gollwng ar dir a chynyddu lefelau cefndir. Amaethyddiaeth yw ei brif ffynhonnell e.e. storio a lledaenu tail, slyri a gwrteithiau. Mae amonia'n uniongyrchol niweidiol i iechyd pobl.

- Grŵp mawr o gyfansoddion cemegol organig, ac eithrio methan, yw **cyfansoddion organig anweddol nad ydynt yn fethan (NMVOC)**. Un ffynhonnell o NMVOCs yw amaethyddiaeth e.e. taenu gwrtaith, llosgi gwastraff amaethyddol mewn caeau. Mae NMVOCs yn niweidiol i iechyd pobl, mae gan rai effeithiau gwenwynig uniongyrchol a gall eraill waethygu afiechydon anadlol a chardiofasgwlaidd.

Hefyd, mae amonia yn achosi ffurfio deunydd gronynnol, $PM_{2.5}$, llygrydd niweidiol arall. Bydd lleihau allyriadau'n lliniaru'r risgiau i iechyd. Mae ymgynghoriad *Cynllun Aer Glân* Llywodraeth Cymru yn nodi ein huchelgais ar $PM_{2.5}$: *"Rydym am i grynodiadau ledled Cymru*

[27] Effeithiau llygredd aer ar iechyd: https://airquality.gov.wales/cy/about-air-quality/health-advice

[28] Jones, L. et al. (2019). Atodiad 8: Gwella ansawdd aer a llesiant. Adroddiad y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd i Lywodraeth Cymru (Contract C210/2016/2017) (CEH NEC06297). Gweler tudalennau 12-14.

[29] Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru (2019). Goblygiadau Brexit i Iechyd Cyhoeddus Atodiad Technegol 2.

[30] Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol, 'Ammonia emissions from agriculture'.

[31] Llywodraeth Cymru (2019). Cynllun Aer Glân Cymru. Awyr Iach, Cymru Iach.

*fod yn is na chanllawiau WHO ar gyfer PM2.5 lle bo hynny'n bosibl, ac yn is eto lle mae potensial digonol a lle mae cysylltiad y cyhoedd yn uchel neu risg uchel i grwpiau sensitif. Ein nod yw gwneud yr uchelgais hon yn gyfraith yng Nghymru."*

Mae'r ddogfen ymgynghori'n nodi y gall ansawdd aer gwael gael effaith anghymesur ar iechyd a llesiant plant, pobl hŷn, pobl dlawd a phobl agored i niwed. Bydd lleihau llygredd aer yn cael effaith uniongyrchol a sylweddol ar wella iechyd a lles dynol i bawb.

Mae tystiolaeth gan y Rhaglen Monitro A Modelu Materion Gwledig A'r Amgylchedd yn nodi hefyd *"Mae amonia atmosfferig ($NH_3$) yn brif lygrwr sy'n cael ei allyrru gan weithgareddau amaethyddol ac, i raddau llai wrth brosesu deunyddiau organig (e.e. treuliad anaerobig), trafnidiaeth a diwydiant. Y prif ffynonellau o amonia o amaethyddiaeth yw (mewn trefn ddisgynnol yn fras) gwasgaru gwrtaith, lletya anifeiliaid, storio gwrtaith, pori da byw a rhoi gwrteithiwr (yn enwedig wrea ac wrea-amoniwm nitrad)".*

Byddai ein cynigion ar gyfer cynllun yn y dyfodol yn cynnig cymhelliant i ffermwyr fynd i'r afael ag allyriadau amonia'n benodol. Mae cynigion y Papur Gwyn yn ceisio cynnal safonau amgylcheddol presennol hefyd; gwella safonau ar bridd a rhesymoli safonau sy'n diogelu cynefinoedd. Yn ogystal, bwriedir i nifer o'r cynigion gynyddu lefelau cydymffurfio drwy dargedu archwiliadau'n well; hwyluso defnydd ehangach o dechnoleg monitro o bell er mwyn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio a chyhoeddi cyngor a chanllawiau sy'n ei gwneud yn gliriach i ffermwyr sut i gydymffurfio. Disgwylir y dylai lefelau cydymffurfio uwch fod o fudd i ansawdd pridd, aer a dŵr. Yn ei dro dylai hyn wella iechyd y cyhoedd.

*Rheoli perygl llifogydd ac ansawdd dŵr*

Mae lleihau'r perygl o lifogydd yn agwedd allweddol ar Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Bydd y cynllun arfaethedig yn cyfrannu at leihau'r perygl o lifogydd. Bydd gwella iechyd ac adeiladwaith pridd, ynghyd â chynyddu deunydd organig pridd, yn caniatáu i ddŵr wyneb ymdreiddio'n gyflymach a chael ei gadw yn y pridd am gyfnodau hwy nag y byddai fel arall. Mae gan amaeth-goedwigaeth mewn mannau addas y potensial i gynyddu ymdreiddiad yn ddyfnach i'r pridd a lleihau'r perygl o lifogydd hefyd.

Bydd gwelliannau i ansawdd pridd o gyflawni'r nod o Reoli Tir yn Gynaliadwy yn cyfrannu at wella ansawdd dŵr hefyd. Dylai hyn, ynghyd â chynigion i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol gynnwys mesurau i leihau llygredd dŵr o amaethyddiaeth ac i leihau erydiad pridd, arwain at ganlyniad buddiol i iechyd cyhoeddus pobl Cymru.

Yn gyffredinol, dylai'r cynigion leihau'r risg i'r cyhoedd o lifogydd, a dylai hyn gyfrannu at ganlyniadau iechyd corfforol a meddyliol cadarnhaol yn ogystal â gwella ansawdd dŵr gan ddod â manteision i iechyd y cyhoedd.

- ***<u>Amodau economaidd sy'n effeithio ar iechyd</u>***

Bydd effaith economaidd ein cynigion ar fusnesau fferm yng Nghymru yn allweddol i benderfynu a fydd unrhyw effeithiau ar ddiweithdra, incwm a'r ffactorau economaidd-gymdeithasol ac iechyd cysylltiedig. Bydd dadansoddiad cost a budd llawn o'n cynigion yn ystyried, yn rhannol, yr effaith economaidd hon ac yn cael ei gyhoeddi.

- ***<u>Mynediad i wasanaethau ac ansawdd gwasanaethau</u>***

Nid ydym yn rhagweld y bydd ein cynigion yn effeithio ar fynediad i wasanaethau ac ansawdd gwasanaethau.

- ***<u>Ffactorau macro-economaidd, amgylcheddol a chynaliadwyedd</u>***

*Bioamrywiaeth*

O ran cynnydd mewn bioamrywiaeth, roedd adolygiad yn 2003[32] o effaith bioamrywiaeth ar ansawdd bywyd yn ystyried iechyd corfforol a meddyliol yn benodol. Nododd nad yw llawer o astudiaethau o bwysigrwydd natur i lesiant yn gwahaniaethu'n dda rhwng amgylchoedd naturiol llawn bioamrywiaeth a mannau gwyrdd mwy ffurfiol, nac yn wir ddylanwadau diwylliannol sy'n deillio o ymdeimlad o le. Y casgliad cyffredinol o'r dystiolaeth feddygol a adolygwyd yw bod cysylltiad â natur yn dda i chi.

Yn yr un modd, daeth adolygiad yn 2005[33] i'r casgliad *"nature plays a vital role in human health and well-being, and that parks and nature reserves play a significant role by providing access to nature for individuals. Implications suggest contact with nature may provide an effective population-wide strategy in prevention of mental ill health, with potential application for sub-populations, communities and individuals at higher risk of ill health".*

Y bwriad yw i'r cynigion yn y Papur Gwyn gyd-fynd ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, fel y nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Dylai gwrthdroi'r dirywiad mewn amrywiaeth ar ffermydd, a chefnogi ecosystemau mwy gwydn, alluogi a gwella gallu tir Cymru i barhau i gyflwyno'r manteision iechyd a amlinellir yn y dystiolaeth uchod.

*Hinsawdd*

Mae ein cynigion yn targedu'n benodol yr angen i gynorthwyo ffermydd i allu gwrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a amlinellir yn yr Asesiad o Effaith ar y Newid yn yr Hinsawdd ar gyfer y cynigion. Bydd lleihau ôl troed carbon ffermydd i mor agos i sero â phosibl, a chynyddu gorchudd coetiroedd yng Nghymru, yn cyfrannu at liniaru newid yn yr hinsawdd ac yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd. Mae adroddiad Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd[34] yn tynnu sylw at gyd-fanteision lleihau allyriadau, gan gynnwys gwell iechyd yn sgil ansawdd aer gwell a gwelliannau o ran lliniaru llifogydd.

Wrth i'r hinsawdd newid, bydd yr amgylchedd, anghenion bioamrywiaeth a'r ecosystem fiolegol i gyd yn newid hefyd. Bydd angen i'n cynigion allu ymateb i'r newidiadau hyn er mwyn parhau'n effeithiol. Felly, bydd angen i unrhyw ofynion cyfreithiol gofynnol addasu i

[32] Lees, S., ac Evans, P. (2003). *Biodiversity's Contribution to the Quality of Life: A Research Report for English Nature*. English Nature.
[33] Maller, C., Townsend, M., Pryor, A., Brown, P., a St Leger, L. (2006). Healthy nature healthy people': contact with nature as an upstream health promotion intervention for populations. Health promotion international, 21(1), 45-54.

[34] Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd (2020) *Land Use Policies for a Net Zero UK*

fynd i'r afael ag anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Er enghraifft, caiff dyddiadau torri gwrychoedd cyfyngedig eu pennu mewn amodau Trawsgydymffurfio ar hyn o bryd er mwyn atal tarfu ar adar yn ystod y cyfnod nythu. Wrth i'r hinsawdd newid, mae'n debygol y bydd y cyfnod nythu hwn yn newid. Yn ogystal, amcangyfrifir y bydd systemau ffermio, ac felly eu heffaith ar yr amgylchedd, yn newid i gyd-fynd â'r newid yn yr hinsawdd yng Nghymru. Er mwyn i'r cynigion hyn wella bioamrywiaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, bydd angen i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol fod yn hyblyg er mwyn ymateb i anghenion yr argyfwng hinsawdd.

Dylai gwelliannau i fioamrywiaeth, a'r gallu i ymateb i anghenion bioamrywiaeth yn y dyfodol, sy'n deillio o gynigion y Papur Gwyn gyfrannu at ganlyniadau iechyd cadarnhaol i'r cyhoedd.

**2.5b. A allai fod effaith iechyd wahaniaethol ar grwpiau penodol?**

- ***Grwpiau sy'n gysylltiedig ag oedran***

Oedran canolrifol ffermwr yng Nghymru yn 2016 oedd 61 oed. Mae'r rhan fwyaf o brif ffermwyr Cymru dros 55 oed (68%), tra bod 3% o dan 35 oed[35]. Mae'n bosibl y gallai fod effaith negyddol ar lesiant os yw ffermwyr hŷn yn teimlo eu bod yn cael eu gadael allan o gyfathrebiadau/cyngor a chanllawiau, gan gynnwys ar gyfer y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a chynllun y dyfodol. Felly, bydd gwaith datblygu polisi pellach ar gyngor a chanllawiau yn ystyried gwahanol fforymau i gyfathrebu ag amrywiaeth o gyfryngau.

Mae ymchwil yn dangos bod plant a phobl hŷn yn fwy agored i niwed yn sgil cysylltiad â llygredd aer[36]. Fel y disgrifir uchod, disgwylir i'r cynigion ar gyfer cynllun y dyfodol a diwygio rheoleiddiol ddiogelu a gwella ansawdd aer, gyda phlant a'r genhedlaeth hŷn yn elwa fwyaf o hyn.

- ***Grwpiau sy'n gysylltiedig ag incwm***

Rydym wedi comisiynu dadansoddiad annibynnol o gynllun y dyfodol i asesu effeithiau economaidd posibl y cynigion, a bydd canlyniadau'r dadansoddiad hwn yn llywio'r asesiad effaith hwn maes o law. Bydd dadansoddiad cost a budd llawn o gynigion y Papur Gwyn yn ystyried, yn rhannol, effeithiau economaidd a bydd yn cael ei gyhoeddi.

---

[35] Llywodraeth Cymru (2019). Amaethyddiaeth yng Nghymru.

[36] Fann N., Roman H., Fulcher C. et al. (2011). Maximising health benefits and minimizing inequality: incorporating local-scale data in the design and evaluation of air quality policies. Risk Anal; 31(6):908-22.

- ***<u>Grwpiau sy'n dioddef gwahaniaethu neu anfantais gymdeithasol arall</u>***

Nid ydym yn rhagweld y bydd ein cynigion yn effeithio'n benodol ar iechyd grwpiau sy'n dioddef gwahaniaethu neu anfantais gymdeithasol arall, ar wahân i'r manteision iechyd i'r boblogaeth gyffredinol a ddisgrifiwyd gennym uchod.

Wrth fynd ati ddatblygu cyngor a chanllawiau ar gyfer y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a chynllun y dyfodol, bydd swyddogion yn gweithio i sicrhau eu bod yn hygyrch i bob ffermwr ac felly byddant yn ystyried anghenion iaith a diwylliannol hefyd.

- ***<u>Grwpiau daearyddol</u>***

Nid oes unrhyw effeithiau anghymesur penodol wedi'u nodi ar gyfer effaith ar iechyd grwpiau daearyddol. Fel y disgrifir yn ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ceir y cyfrannau uchaf o bobl 50-64 oed a thros 65 oed mewn ardaloedd gwledig yng nghanolbarth Cymru fel Powys, Ceredigion a Gwynedd. Er bod effeithiau iechyd ar gyfer pobl hŷn sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, maent yn canolbwyntio ar gyflawni materion iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a thrafnidiaeth allweddol. Nid oes gennym unrhyw dystiolaeth y bydd y cynigion yn y Papur Gwyn yn cael effaith negyddol ar lesiant pobl hŷn yn y boblogaeth gyffredinol mewn ardaloedd gwledig.

## 2.6 Preifatrwydd

**A fydd y cynnig yn golygu prosesu gwybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod unigolion?**

Byddai'r cynnig yn galluogi prosesu gwybodaeth bersonol. Gweler Atodiad D.

# ADRAN 3. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT DIWYLLIANNOL A'R GYMRAEG?

## 3.1 Llesiant Diwylliannol

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar gyfer diwylliant yw 'Cymdeithas sy’n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a’r Gymraeg ac sy’n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden'. Mae diwylliant yn cynnwys amgueddfeydd, archifau, llyfrgelloedd a'r celfyddydau; mae treftadaeth yn cynnwys yr amgylchedd hanesyddol adeiledig yn ogystal â threftadaeth anniriaethol megis traddodiadau; mae'r celfyddydau'n cwmpasu'r sectorau perfformio a chreadigol gan gynnwys cerddoriaeth, llenyddiaeth, theatr a chelf, tra bod chwaraeon a hamdden yn cynnwys chwaraeon elît a chymunedol yn ogystal â chyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored ehangach.

**3.1a Sut y gall y cynnig gyfrannu'n weithredol at y nod o hyrwyddo a diogelu diwylliant a threftadaeth ac annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden? (ar gyfer y Gymraeg gweler adran 3.2)**

Mae gan ddiwylliant a threftadaeth Cymru gysylltiad cymhleth â'r dirwedd a'r amgylchedd naturiol. Mae weledigaeth Llywodraeth Cymru *Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru* yn pwysleisio pwysigrwydd tirwedd Cymru fel cefndir ac ysbrydoliaeth i lawer o'r cynnyrch diwylliannol yng Nghymru. Mae amaethyddiaeth yn rhan annatod o'r berthynas hon.

Mae'r Datganiadau Ardal a ddatblygwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru [37] yn dangos y berthynas hon rhwng tirweddau, diwylliant a threftadaeth yng Nghymru. Er enghraifft, mae tir amaethyddol wedi'i adfer ar wastadeddau Gwent (Datganiad Ardal y De-ddwyrain) nid yn unig o bwysigrwydd hanesyddol ac archaeolegol, ond mae'n gynefin pwysig i lawer o rywogaethau hefyd. Yn yr un modd mae Datganiad Ardal y Gogledd-ddwyrain yn dangos sut mae hanes Cymru wedi'i wreiddio yn y dirwedd drwy systemau caeau canoloesol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

Nid yw ein cynigion ar gyfer cynllun y dyfodol yn targedu diwylliant a threftadaeth yn benodol, ond fel y mae’r enghreifftiau uchod yn dangos, mae yna gysylltiad cynhenid rhwng diwylliant a threftadaeth ac amaethyddiaeth a thirweddau amaethyddol yn aml. Felly, gall unrhyw newidiadau i'r dirwedd o ganlyniad i gyflwyno arferion Rheoli Tir yn Gynaliadwy gael effaith ar ddiwylliant Cymru. Er bod newidiadau yn y dirwedd yn anochel dros amser drwy brosesau naturiol, ni ddylai newid a achosir gan arferion Rheoli Tir yn Gynaliadwy danseilio'r gwerth

[37] Cyfoeth Naturiol Cymru. Datganiadau Ardal. https://cyfoethnaturiol.cymru/about-us/area-statements/?lang=cy

diwylliannol sy'n deillio o nodweddion unigol na'r cyd-destun a ddarperir gan y dirwedd o'u hamgylch.

Bydd ein cynigion yn diogelu diwylliant a threftadaeth mewn tair ffordd:

1. Bydd cefnogi busnesau fferm cynaliadwy a chydnerth yn helpu i sicrhau bod ffermydd a thir Cymru yn parhau i fod yn gonglfaen i ddiwylliant Cymru ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

2. Mae treftadaeth yn cynnwys "traddodiadau" a nodweddion tirwedd traddodiadol (e.e. gwrychoedd). Dengys tystiolaeth gan ERAMMP fod llawer o gamau gweithredu sy'n cyflawni canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn gyson â'r hyn a ystyrir yn arferion ffermio "traddodiadol". Yn hynny o beth, mae ein cynigion yn hyrwyddo ac yn diogelu'r dreftadaeth a gynrychiolir gan arferion a nodweddion ffermio traddodiadol.

3. Mae llawer o safleoedd treftadaeth Cymru ar dir amaethyddol, ac mae'r dirwedd ei hun o bwysigrwydd diwylliannol a threftadaeth. Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn cynnwys cyflwyno deddfwriaeth sy'n rhesymoli gwarchod nodweddion tirwedd. Er mwyn cymryd rhan yng nghynllun y dyfodol, bydd yn rhaid i fusnesau fferm gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'r nodweddion hanesyddol ar eu tir.

Ceir mwy o fanylion am y ffordd y mae ein cynigion yn hyrwyddo ac yn diogelu ein hamgylchedd naturiol a'n cefn gwlad, ac felly ein treftadaeth ddiwylliannol, yn yr Asesiad o Effaith ein cynigion ar Fioamrywiaeth.

Nid oes gennym unrhyw dystiolaeth y bydd ein cynigion yn effeithio, yn gadarnhaol neu'n negyddol, ar gyfranogiad pobl yn y celfyddydau neu mewn chwaraeon.

Fodd bynnag, o ran hamdden, fel y nodir yn ein Hasesiad o'r Effaith ar Iechyd, dylai ein cynigion yn y Papur Gwyn gynnig manteision cymedrol i iechyd pobl Cymru drwy greu mwy o gyfleoedd i gael mynediad i gefn gwlad, a'i fwynhau, gan gyfrannu at well canlyniadau iechyd corfforol a meddyliol i'r boblogaeth gyffredinol.

**3.1b A yw'n bosibl y gallai'r cynnig gael effaith negyddol ar hyrwyddo a gwarchod diwylliant a threftadaeth, neu allu pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden? Os felly, pa gamau y gallwch eu cymryd i osgoi neu leihau'r effaith honno (er enghraifft, drwy ddarparu cyfleoedd amgen)?**

Nid oes gennym unrhyw dystiolaeth y gallai cynigion y Papur Gwyn gael effaith negyddol ar hyrwyddo a gwarchod diwylliant a threftadaeth, neu allu pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden.

Fodd bynnag, mae ffermydd o bwysigrwydd diwylliannol i lawer o gymunedau yng Nghymru. Disgwyliwn i'n cynigion gefnogi cydnerthedd y busnesau hyn ac felly gymunedau gwledig, fel yr amlinellir yn ein Hasesiad o'r Effaith o ran Prawfesur Gwledig.

## 3.2 Y Gymraeg

Gweler Atodiad E ar gyfer Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar gyfer y cynigion.

## ADRAN 4. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT ECONOMAIDD?

Mae cefnogi twf yn economi Cymru, a thrwy hynny drechu tlodi, wrth wraidd *Symud Cymru Ymlaen,* Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru.

### 4.1 Busnes, y cyhoedd ac unigolion

**Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar fusnes a'r cyhoedd?**

***<u>Busnesau fferm a rheoli tir</u>***

*Cynigion y Cynllun*

Disgwyliwn i'n cynigion gael effaith gadarnhaol ar fusnesau fferm.

Mae ein cynigion ar gyfer cyllid cynllun y dyfodol yn cynnwys galluogi a chefnogi datblygiad cydnerthedd hirdymor busnesau fferm a'r gadwyn gyflenwi sylfaenol, drwy gyflawni canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Dylai hyn alluogi cenedlaethau busnesau fferm y presennol a'r dyfodol i barhau i gynhyrchu bwyd a chanlyniadau amgylcheddol.

Rydym yn cydnabod y gallai symud o'r system bresennol sy'n seiliedig ar hawliau i un sy'n seiliedig ar reoli tir yn gynaliadwy effeithio ar fusnesau fferm yn wahanol. Bydd y dadansoddiad economaidd annibynnol o'n cynigion ar gyfer y cynllun yn archwilio effaith ein cynigion ar incwm ffermydd, a'r effeithiau ehangach ar fusnesau eraill mewn cymunedau gwledig hefyd.

*Mesurau'r farchnad*

Rydym yn cynnig cynnwys darpariaeth hefyd ar gyfer mesurau ymyrryd yn y farchnad i helpu busnesau ffermio i ymdopi ag ansefydlogrwydd eithafol neu fethiant yn y farchnad pe bai'n codi. Bydd swyddogion yn ystyried hefyd sut y gall brandiau marchnata priodol hyrwyddo safonau cynhyrchu uchel cynnyrch o Gymru. Dylai'r cynigion hyn gael effaith gadarnhaol ar fusnesau fferm.

*Safonau Gofynnol Cenedlaethol*

Ni ddylai datblygu set o Safonau Gofynnol Cenedlaethol ei gwneud yn ofynnol i ffermwyr wario llawer mwy o arian i gydymffurfio er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y cynllun gan fod y safonau hyn yn seiliedig yn bennaf ar yr hyn sydd eisoes yn gyfraith.

Dylai cynigion i symleiddio'r broses o gasglu data gan ffermwyr fod o fudd o safbwynt cost i ffermwyr drwy leihau'r baich gweinyddol ac felly arbed amser. Cyn i unrhyw reoliadau gael eu sefydlu mewn is-ddeddfwriaeth, bydd dadansoddiad cost a budd yn cael ei gynnal i

ystyried rheoleiddio ychwanegol a budd gwasanaeth ecosystem a ddarperir yn ogystal ag effeithiau economaidd.

*Sancsiynau Sifil*

Mae'n anochel y bydd gan ein cynigion ar gyfer gweithredu sancsiynau sifil ar gyfer gorfodi diffyg cydymffurfio â’r rheoliadau oblygiadau ariannol i ffermwyr/ceidwaid da byw sy'n cael cosbau ariannol. Fodd bynnag, bwriedir defnyddio'r cosbau hyn fel dull gorfodi cymesur sy'n briodol ar gyfer difrifoldeb y tramgwydd ac i osgoi camau troseddol lle bo modd. Mae'r dull cymesur yn symud tuag at system lle gall rheoleiddwyr ddefnyddio hysbysiadau cydymffurfio ac adfer ar gyfer achosion priodol er mwyn rhoi cyfle i ffermwyr gydymffurfio.

Byddai defnyddio sancsiynau sifil yn cynnwys caniatáu i ffermwyr gynnig Ymgymeriad Gorfodi hefyd yn lle cosb droseddol neu sifil i wneud gwaith adferol yn y modd y mae'r perchennog/rheolwr y tir yn ei gynnig. Bydd angen ystyried hyn (gan gynnwys dirwyon) yn fanylach mewn is-ddeddfwriaeth a bydd angen sicrhau bod ffermwyr yn glir ynglŷn â'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i gydymffurfio a’u bod yn deall y cosbau. Rydym yn bwriadu i sancsiynau sifil fod yn fesur atal effeithiol ond ni fwriedir eu defnyddio i dargedu dirwyon at unigolion sy'n agored i niwed. Am y rheswm hwn, byddai angen i ni ystyried yn ofalus sut y caiff camau gorfodi eu defnyddio yn gymesur ac yn deg ledled Cymru.

*Iechyd Anifeiliaid*

Mae cost economaidd ymateb i achosion o glefyd yn pwyso'n drwm ar y Llywodraeth a'r trethdalwr, yn ogystal â'r baich ar geidwaid anifeiliaid. Cost clwy'r traed a'r genau 2001 i'r Llywodraeth oedd £102 miliwn[38], ac amcangyfrif bod cost gyfartalog glanhau a diheintio pob daliad yr effeithiwyd arno yng Nghymru yn £38,000. Gyda phob masnach wedi'i atal, roedd yr effaith ariannol ar fusnesau yn sylweddol, gydag allforion yn cyfrif am 40% o'r holl gig oen a defaid a gynhyrchwyd yng Nghymru cyn y clwy. Cyhoeddwyd ymchwil a gomisiynwyd ar y cyd gan Defra a Llywodraeth Cymru i amcangyfrif cost economaidd achosion o TB buchol ar ffermydd gwartheg mewn Ardaloedd Risg Uchel ac Ymylol yng Nghymru a Lloegr ar 28 Awst 2020[39]. Amcangyfrifir mai cost gyfartalog achos o TB buchol yw £34,000. O'r swm hwn, amcangyfrifir mai'r Llywodraeth sy'n ysgwyddo £20,000, yn bennaf fel iawndal am anifeiliaid sy'n cael eu lladd yn orfodol a chostau profi, ac mae £14,000 yn cael ei ysgwyddo gan y ffermwr o ganlyniad i golli anifeiliaid, costau profi ar y fferm, ac effaith cyfyngiadau symud ar y busnes. Nod y cynigion a gyflwynir yn y Papur Gwyn yw atal, rheoli a dileu clefydau anifeiliaid a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar geidwaid da byw a'u busnesau.

*Coedwigaeth a choetiroedd*

[38] Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2002). The 2001 Outbreak of Foot and Mouth Disease.

[39]Adroddiad i Defra (2019). Estimating the consequential cost of bovine TB incidents on cattle farmers in the High Risk & Edge Areas of England & High and Intermediate TB Areas of Wales. Rhif y prosiect SE3139.

Nid ydym yn disgwyl i gynigion i ddiwygio darpariaethau trwyddedau cwympo coed gael effaith sylweddol ar gostau cydymffurfio i reolwyr tir. Gallai pwerau i ychwanegu amodau ychwanegol gynyddu costau cydymffurfio, ond rydym yn disgwyl i'r amodau hyn gael eu defnyddio mewn amgylchiadau cyfyngedig megis lle byddai cwympo coed yn torri deddfwriaeth amgylcheddol fel arall. Mae gan esemptiad o'r angen am drwyddedau cwympo coed yn achos clefyd coed ynn y potensial i leihau'r baich rheoleiddio ar reolwyr tir a'r gost o ymdrin â chlefyd coed ynn. Rydym yn cydnabod y byddai angen i ni ystyried effeithiau llawn diwygio rheoliadau asesiad o'r effaith amgylcheddol neu godi tâl am drwyddedau cwympo coed cyn defnyddio'r pwerau hyn.

***Busnes Arall***

Bydd ein cynigion yn cefnogi cydnerthedd busnesau a'r gadwyn gyflenwi ehangach hefyd gyda'r nod o:

- Wella'r cynnig hyrwyddo ar gyfer cynnyrch ffermwyr drwy ddangos cynaliadwyedd y cynnyrch a gynhyrchant;
- Annog mwy o aliniad â'r farchnad;
- Nodi a goresgyn rhwystrau yn y gadwyn gyflenwi;
- Byrhau cadwyni cyflenwi ar gyfer cynhyrchion o Gymru.

Mynegodd ymatebwyr i'n hymgynghoriad *Brexit a'n Tir* amrywiaeth o safbwyntiau a oedd yn adlewyrchu pwysigrwydd busnesau gwledig a chymunedau gwledig. Mae enghreifftiau'n cynnwys cyfeiriadau at bwysigrwydd lladd-dai, llaethdai, cyfleusterau storio grawn a gweithfeydd prosesu bwyd ar raddfa fach mewn lleoliad lleol. Dylai ein cynigion ar gyfer cefnogi'r diwydiant amaethyddol a'r gadwyn gyflenwi, lle mae'n galluogi Rheoli Tir yn Gynaliadwy, fod o fudd i fusnesau yng Nghymru. Oherwydd ansicrwydd ynghylch lefel derfynol y cyllid ni allwn ddweud eto a fydd unrhyw effeithiau'n fach, yn gymedrol neu'n sylweddol.

***Y Cyhoedd ac Unigolion***

Dylai cynigion y Papur Gwyn gael effaith gadarnhaol ar unigolion a'r cyhoedd. Mae llawer o'r effeithiau cadarnhaol yn gysylltiedig ag iechyd a llesiant ac fe'u hamlinellir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd a'n Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Gall fod effeithiau cadarnhaol ar gyflogaeth hefyd, fel yr amlinellir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Adnoddau Naturiol o dan *cefnogi cyflogaeth ddiogel a sefydlog.*

Yn benodol, disgwylir yr effeithiau canlynol:

**Rheoleiddio a chynllun y dyfodol**

- Bydd cynnal safonau cynhyrchu bwyd Cymru yn darparu bwyd o safon i ddefnyddwyr tra'n diogelu tirwedd ac adnoddau naturiol Cymru;
- Bydd gwell darpariaeth o gyfleoedd i'r cyhoedd gael mynediad i gefn gwlad yn dod â manteision iechyd a llesiant;

- Bydd gwell ansawdd aer a dŵr, drwy reoli tir yn gynaliadwy, yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant hefyd.

**Cynllunio iechyd anifeiliaid, ymyriadau milfeddygol a gwell rheolaethau ar gyfer clefydau**

Mae iechyd a lles anifeiliaid yn gwneud cyfraniad mawr at gynaliadwyedd y sector da byw, at y diwydiant bwyd a ffermio ehangach, ac yn fwy cyffredinol at gefn gwlad, yr amgylchedd, cymunedau a'r economi[40].

Mae clefydau anifeiliaid yn fygythiad cyson i'r sector da byw yng Nghymru a gall achosion gael effaith ddinistriol ar y diwydiant, cymunedau gwledig ac economi Cymru. Hefyd, yn achos milheintiau (y gellir eu trosglwyddo i bobl e.e. salmonela) gallant gael effaith ar iechyd y cyhoedd. Bydd y cynigion a gyflwynir yn y Papur Gwyn yn helpu i atal, rheoli a dileu clefydau anifeiliaid, gan gyfrannu at fwyd mwy diogel, gwell iechyd y cyhoedd, llai o alw ar wasanaethau iechyd a'r angen am driniaeth wrthfiotig. Mae da byw iach sy'n cael eu cadw i safonau lles uchel yn cyfrannu at gymunedau gwledig drwy gynnal busnesau fferm proffidiol, cefnogi cyfleoedd marchnata a masnachu a helpu ffermwyr i gynyddu elw, yn ogystal â diogelu a chreu swyddi.

## 4.2 Y Sector Cyhoeddus gan gynnwys llywodraeth leol a chyrff cyhoeddus eraill

**Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar y sector cyhoeddus?**

Disgwyliwn i'r elfennau canlynol o'n cynigion gael effaith ar y sector cyhoeddus:

*Cynllun y Dyfodol*

Nid yw'r cynigion yn y Papur Gwyn yn ystyried modelau cyflawni ar gyfer cynllun y dyfodol felly nid yw'n bosibl amcangyfrif yr effaith ar y sector cyhoeddus ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn cynorthwyo gydag ochr dechnegol cynlluniau Glastir ar hyn o bryd, yn enwedig gyda barn Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol, rhoi caniatâd ar gyfer cynigion ar safleoedd dynodedig, trwyddedau Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop a cheisiadau am drwyddedau cwympo coed. Byddwn yn parhau i weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru wrth i'n cynigion ddatblygu.

Ar hyn o bryd, mae cynigion ar gyfer cynllun y dyfodol yn annhebygol o gael effaith. Byddwn yn cynnal asesiad effaith llawn o gynllun y dyfodol a bydd hyn yn cynnwys unrhyw effeithiau ar y sector cyhoeddus.

---

[40] Llywodraeth Cymru (2019). Cynllun Gweithredu Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru 2019-20.

*Iechyd a Lles Anifeiliaid*

Bydd y cynigion iechyd a lles anifeiliaid a gyflwynir yn y Papur Gwyn yn lleihau'r risg o achos o glefyd a lledaeniad clefydau. Bydd y gost is o ymdrin ag achosion o glefydau ac ymateb iddynt o fudd i'r Llywodraeth, trethdalwyr a cheidwaid anifeiliaid.

*Safonau Gofynnol Cenedlaethol*

Fel y disgrifir yn y Papur Gwyn, mae nifer o gyrff rheoleiddio yn y sector cyhoeddus sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth reoleiddiol. Mae cynigion ar gyfer datblygu set o Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn adeiladu ar yr hyn sy'n bodoli eisoes a'u bwriad yw symleiddio'r gwaith o weinyddu monitro a gorfodi. Yna bydd cynigion ar gyfer rhannu data yn galluogi rheoleiddwyr i dargedu adnoddau'n fwy effeithiol. Bydd angen i ni ystyried y gofynion monitro ledled Cymru a sut y bydd eu cymhwyso'n gyson i bob ffermwr yn effeithio ar gyrff cyhoeddus.

*Sancsiynau Sifil*

Ymhlith y cynigion mae cyflwyno sancsiynau sifil fel opsiwn amgen i reoleiddwyr yn hytrach nag erlyniad troseddol. Bydd hyn yn newid i'r mecanweithiau gorfodi presennol sydd ar waith ar gyfer rheoleiddwyr yng Nghymru ac, o ganlyniad, bydd Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder a dadansoddiad cost a budd llawn yn ystyried hyn.

*Safonau marchnata*

Bydd y cynnig hwn yn effeithio ar Awdurdodau Lleol yng Nghymru, oherwydd eu rôl yn gorfodi safonau gofynnol y farchnad mewn amaethyddiaeth a chynhyrchion bwyd. Pe na bai Gweinidogion Cymru yn gallu addasu safonau marchnata, byddai hyn yn cael effaith ar Awdurdodau Lleol, gan y byddai eu ffynhonnell ar gyfer awdurdod yn y maes hwn yn newid. Cynigir cynnal gallu Gweinidogion Cymru i addasu safonau marchnata, a fydd yn golygu parhad. Bydd y parhad hwn yn berthnasol i gyrff eraill yn y sector cyhoeddus, fel yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

*Ymyrraeth yn y farchnad*

Gwneir taliadau ymyrraeth mewn argyfwng drwy Taliadau Gwledig Cymru (RPW), corff o fewn Llywodraeth Cymru. O ganlyniad, ni ddylai'r cynigion ar gyfer datgan amodau eithriadol yn y farchnad a sefydlu taliadau argyfwng i ffermwyr effeithio ar unrhyw gorff sector cyhoeddus heblaw Llywodraeth Cymru ei hun.

Yn draddodiadol, mae cynlluniau Ymyrraeth Gyhoeddus a Chymorth Storfeydd Preifat wedi cael eu rhedeg gan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig (RPA) ar ran Llywodraeth Cymru. Mae parhau â phwerau presennol Gweinidogion Cymru i lansio cynlluniau Ymyrraeth Gyhoeddus a Chymorth Storfeydd Preifat yn golygu y bydd gan yr RPA yr un disgwyliadau o Lywodraeth Cymru yn y tymor byr mewn perthynas â sefydlu a rheoli'r cynlluniau hyn.

## 4.3 Y Trydydd Sector

**Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar sefydliadau'r trydydd sector a'r hyn y maent yn ei wneud?**

Rydym wedi ymgysylltu â sefydliadau'r trydydd sector yn ystod ein dau ymgynghoriad ar y cynigion, a byddwn yn parhau i ymgynghori â hwy wrth i'n cynigion ddatblygu ymhellach i helpu i nodi unrhyw effeithiau.

Ar hyn o bryd, nid ydym yn disgwyl i'r cynigion effeithio'n gadarnhaol nac yn negyddol ar y trydydd sector.

## 4.4 Effaith ar Gyfiawnder

Fel y nodir yn y Papur Gwyn, rydym wedi gwneud cynigion i ddiwygio’r drefn rheoleiddio amaethyddiaeth yng Nghymru. Er mwyn sicrhau y gellir gorfodi rheoleiddio'n gymesur, rydym yn cynnig cyflwyno pwerau sylfaenol ar gyfer casgliad o sancsiynau sifil, a ddisgrifir yn Neddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau (RES) 2008. Byddai hyn yn galluogi rheoleiddwyr i fabwysiadu dull mwy cymesur o ymdrin â diffyg cydymffurfio rheoleiddiol a fyddai'n cael ei ddefnyddio yn yr un modd ar gyfer pob busnes fferm, p'un a ydynt yn hawlio o dan y cynllun ai peidio. Dylid defnyddio mesurau gorfodi i annog cydymffurfiaeth ac maent yn cynnwys: rhybuddion swyddogol, hysbysiad stop, hysbysiad cydymffurfio, hysbysiad adfer, cosbau ariannol penodedig, a chosbau ariannol amrywiadwy.

Rydym yn cynnig y dylai pwerau ar gyfer sancsiynau sifil fod ar gael i orfodi'r meysydd rheoleiddio amaethyddol canlynol:

- Safonau Gofynnol Cenedlaethol;
- Rheoleiddio iechyd a lles anifeiliaid;
- Rheoleiddio coedwigaeth a rheoli coetiroedd.

Gan fod y cynigion ar gyfer gorfodi a nodir uchod yn cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol newydd ar gyfer defnyddio sancsiynau sifil, gan greu a diwygio troseddau, gallai gael effaith ganlyniadol ar y system gyfiawnder. Rhagwelir y gallai'r effeithiau hyn gynnwys cynnydd yn nifer yr apeliadau yn erbyn penderfyniadau cyrff cyhoeddus. Felly, bydd angen Asesiad Llawn o'r Effaith ar Gyfiawnder er mwyn ystyried yr effeithiau hyn yn llawn. Rydym yn bwriadu gweithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i nodi costau i'r system gyfiawnder a byddwn yn cyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder gyda digon o amser i'w ystyried cyn cyflwyno'r Bil.

## ADRAN 5. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT AMGYLCHEDDOL?

O dan Adran 9 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi, cyhoeddi a gweithredu polisi adnoddau naturiol a chymryd pob cam rhesymol i'w weithredu ac annog eraill i gymryd camau o'r fath.  Cyhoeddwyd y Polisi Adnoddau Naturiol ym mis Awst 2017.

### 5.1 Adnoddau Naturiol

**5.1a Sut bydd y cynnig yn cyflawni un neu fwy o'r Blaenoriaethau Cenedlaethol yn y Polisi Adnoddau Naturiol (NRP)?**

- Darparu atebion sy'n seiliedig ar natur;
- Cynyddu ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd adnoddau; ac wrth wneud hynny,
- Defnyddio dull sy'n seiliedig ar le.

Mae ein cynigion yn canolbwyntio ar fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy, a byddant yn helpu i gyflawni pob un o'r tair Blaenoriaeth Genedlaethol:

**Darparu atebion sy'n seiliedig ar natur:** Nod ein cynigion yw cyfrannu at bridd iach, aer glân ac amgylchedd cydnerth gyda mwy o fioamrywiaeth. Cyflawnir y nodau hyn drwy atebion sy'n seiliedig ar natur, gan fod modd cyflawni'r canlyniadau rydym am eu gweld drwy newidiadau mewn arferion rheoli. Er enghraifft, dylai cynnwys coed yn y system ffermio helpu i leihau'r perygl o lifogydd, a bydd adfer mawnogydd a chynyddu deunydd organig mewn tir amaethyddol wedi'i wella'n cyfrannu at ddatgarboneiddio.

Bydd y cynigion hyn ar gyfer atebion sy'n seiliedig ar natur yn cael eu hategu gan ein cynigion i greu set o Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Bydd y safonau hyn yn cydgrynhoi'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n diogelu'r amgylchedd a'n hadnoddau naturiol ac yn ceisio cyflwyno amddiffyniadau ar gyfer pridd sydd eisoes wedi'u cynnwys o dan Safonau Dilysadwy Trawsgydymffurfio. Caiff hyn ei ategu gan gynigion ar gyfer gorfodi cymesur drwy sancsiynau sifil.

**Cynyddu effeithlonrwydd adnoddau:** Mae'r cynigion ar gyfer cynllun y dyfodol yn cynnwys cefnogi ffermydd i  ddod yn gynaliadwy gynhyrchiol, gan wneud y defnydd gorau o'u hadnoddau naturiol a gwella effeithlonrwydd y cynhyrchu cynaliadwy hwnnw o fewn ffiniau'r fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Bydd hyn yn cynnwys lleihau colli pridd, a dibyniaeth ar fewnbynnau. Felly, rydym yn disgwyl i'n cynigion gynyddu effeithlonrwydd adnoddau ar fusnesau fferm.

**Dull sy'n seiliedig ar le:** Byddwn yn ystyried amrywiaeth o dystiolaeth, gan gynnwys SoNARR a Datganiadau Ardal CNC, i nodi blaenoriaethau lleol a chefnogi cydweithio ar

raddfa dalgylch neu dirwedd. Rydym yn gweithio'n lleol ledled Cymru hefyd o fewn ein rhaglen cyd-lunio i ddatblygu cynigion ymhellach.

**5.1b A yw'r cynnig yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd cenedlaethol canlynol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?**

- ***Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth – drwy ddatblygu rhwydweithiau ecolegol cydnerth;***

Mae ein cynigion yn mynd i'r afael yn benodol â'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, a'u bwriad yw cyflawni amrywiaeth o ganlyniadau bioamrywiaeth. Amlinellir yr effeithiau disgwyliedig yn ein Hasesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth.

Rydym yn mynd i'r afael â phwysigrwydd gwella iechyd pridd a bioamrywiaeth yn ein cynigion hefyd. Mae tystiolaeth gan y Gymdeithas Frenhinol[41] yn nodi *"Biodiversity and soil structure are closely linked; soil structure influences the nature and activity of soil organisms, while soil organisms affect the physical structure of the soil. Good soil structure benefits a number of species and habitats. In addition, soil biodiversity, and its associated influence on soil structure, contributes to a range of ecosystem functions such as decomposition of dead matter and nutrient cycling. Soil also contributes to ecosystem services such as support of above-ground biodiversity, control of plant, animal and human pests and diseases, and climate regulation"*.

- ***Diogelu a chynyddu storfeydd carbon mewn priddoedd a biomas;***

Mae cynigion ar gyfer y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn diogelu priddoedd drwy gyfyngu ar erydiad pridd a chywasgu pridd, a dylai hynny gynnal a diogelu storfeydd carbon pridd a biomas.

Nod ein cynigion ar gyfer cynllun y dyfodol yw cynyddu iechyd pridd a deunydd organig pridd ymhellach, ac mae tystiolaeth gan SoNARR yn dangos pwysigrwydd hyn:

- Mae priddoedd y tir amaethyddol ansawdd gorau a mwyaf cynhyrchiol yn adnodd prin a meidraidd yng Nghymru; mae'n cyfrif am lai na 7% o arwynebedd y tir[42];
- Mae ansawdd pridd wedi dirywio ar draws yr holl gynefinoedd ar wahân i goetiroedd lle bu rhywfaint o welliant;

[42] Cyfoeth Naturiol Cymru (2016). Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR): Asesu'r Modd y Rheolir Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Adroddiad Technegol.

- Nid yw difrifoldeb a graddau gofodol erydiad pridd wedi'u mesur yn uniongyrchol yng Nghymru. Credir bod cywasgu pridd difrifol yn effeithio ar tua 10-15% o gaeau glaswelltir yng Nghymru a Lloegr ac mae 50-60% mewn cyflwr cymedrol.

Bydd ein cynigion rheoli cynefinoedd yn arwain at reoli ac adfer cynefinoedd naturiol sy'n gweithredu fel storfeydd carbon, gan arwain at gynyddu gallu gwahanol ecosystemau i gadw carbon. Mae'r dystiolaeth[43] yn dangos:

- Ar hyn o bryd mae gan briddoedd Cymru lefelau canolraddol o gynnwys Carbon yn y pridd o'i gymharu â Lloegr a'r Alban sy'n awgrymu bod rhywfaint o botensial i wella;
- Mae cynnydd mewn carbon organig pridd oherwydd newid penodol mewn dulliau rheoli tir neu ddefnydd tir yn gyfyngedig. Bydd stociau carbon organig yn y pridd yn tueddu i dirlenwi wrth i gyflwr o ecwilibriwm newydd gael ei gyrraedd. Yn yr un modd, efallai y bydd enillion posibl o ran carbon organig pridd ar eu mwyaf mewn ardaloedd sydd â stoc isel o garbon organig yn y pridd ar hyn o bryd a lle mae newidiadau i ddefnydd tir yn digwydd, yn hytrach na mân newidiadau rheoli;
- Efallai na fydd cynnydd mewn carbon organig y pridd oherwydd newid penodol mewn dulliau rheoli tir neu ddefnydd tir yn barhaol. Mae dychwelyd i'r dull rheoli gwreiddiol yn debygol o ryddhau'r carbon organig sydd wedi cronni yn y pridd felly mae newidiadau hirdymor mewn arferion yn bwysig;
- Gallai cynyddu deunydd organig yn y pridd gael effeithiau synergaidd hefyd drwy leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr amaethyddol; gallai cynnydd bach mewn deunydd organig wella nodweddion pridd a chynhyrchiant planhigion tra'n lleihau'r ddibyniaeth ar wrtaith Nitrogen.

- ***<u>Cynnal capasiti cynhyrchiol, yn enwedig drwy wella ansawdd pridd a bioddiogelwch;</u>***

Fel y disgrifir uchod, byddai cynigion ar gyfer y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn creu gofyniad mewn deddfwriaeth i ddiogelu ansawdd pridd yng Nghymru drwy gynnal isafswm gorchudd pridd yn ogystal â mesurau i leihau erydiad pridd a chywasgu pridd.

[43] Alison, J., et al. (2019). Atodiad 3: Rheoli Carbon yn y Pridd. Adroddiad y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd i Lywodraeth Cymru (Contract C210/2016/2017) (CEH NEC06297).

Mae cynigion ein cynllun yn cynnwys cynyddu deunydd organig pridd a hyrwyddo gwelliant parhaus o ran iechyd pridd. Bydd mwy o effeithlonrwydd o ran adnoddau a lleihau mewnbynnau yn cyfrannu ymhellach at gynnal a gwella gallu cynhyrchiol pridd Cymru.

O ran pwysigrwydd ansawdd pridd i allu cynhyrchiol, mae'r Gymdeithas Frenhinol[44] yn nodi "*there is a correlation between improvements in soil structure and increasing grain yield of cereals. A well-structured soil can improve crop productivity through providing a habitat for earthworms and other soil organisms. Compacted soil is often associated with a decrease in yield through detrimental effects on the crop's root system. Improved soil structure can help to prevent soil erosion, where the upper layer of soil is displaced. Soil erosion significantly affects the productivity of soil, with Defra estimating that the total cost of erosion in England and Wales is in the region of £150 million a year*[45]*"*.

Mae adroddiad gan y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd[46] yn cynghori *"Mae ystyried y maethynnau a gyflenwir gan ddeunyddiau organig yn allweddol er mwyn lleihau colledion maethynnau i ddŵr a'r aer o systemau amaethyddol. Gellir gwella effeithlonrwydd defnyddio maethynnau tail drwy sicrhau bod tail yn cael ei ddefnyddio yn ôl cyfraddau defnydd nad yw'n cyflenwi mwy o faethynnau na sydd ei angen ar y cnydau. Bydd targedu defnyddio tail ar briddoedd sydd angen ffosffad er mwyn cynnal ffrwythlondeb pridd yn lleihau'r risg o golli ffosffad i ddŵr, yn ogystal ag osgoi defnyddio tail ar briddoedd sydd eisoes â lefelau P digonol".* Byddai defnydd wedi'i dargedu o wrtaith (h.y. drwy chwistrellu) yn arwain at fanteision gan gynnwys cynnydd ym mhwysau cnydau, ac ar yr un pryd yn lleihau colli maethynnau a dŵr ffo, sydd wedi arwain at effeithiau amgylcheddol sy'n niweidiol i fioamrywiaeth gan gynnwys ewtroffigedd.

- ***Lleihau'r perygl o lifogydd;***

Bydd ein cynigion ar gyfer cynllun y dyfodol, drwy reoli tir yn gynaliadwy, yn cynyddu cydnerthedd cynefinoedd a bioamrywiaeth ar lefel ffermydd a thirwedd a ddylai leihau'r perygl o lifogydd. Dylai ein cynigion i hyrwyddo hwsmonaeth pridd fel rhan o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r cynllun gyfrannu at lai o berygl llifogydd hefyd.

Mae'n amlwg bod amrywiaeth eang o ecosystemau gwahanol o fudd o ran rheoli llifogydd pan fyddant mewn cyflwr da. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn sôn am un enghraifft o hyn mewn perthynas ag ardaloedd Ffridd yng Nghanol De Cymru, lle sonnir am liniaru llifogydd

---

44 Y Gymdeithas Frenhinol (2020). Soil structure and its benefits.

45 Beddau, A., Morris, J., Deeks, L., Rickson, R., Kibblewhite, M., Harris, J., Farewell, T. a Truckle, I., (2015). The total costs of soil degradation in England and Wales. Ecological Economics, 119, t.399-413.

46 Williams J.R., et al. (2019). Atodiad 1: Rheoli maethynnau pridd ar gyfer tir wedi'i wella. Adroddiad y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd i Lywodraeth Cymru (Contract C210/2016/2017) (CEH NEC06297).

fel un o nifer o fanteision rheoli'r ecosystem yn dda[47]. Mae tystiolaeth gan y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd[48] yn dangos bod *"adfer tiroedd gwlyb y gorlifdiroedd yn sicrhau manteision o ran rheoli'r risg o lifogydd drwy ostwng pa mor aml y mae'r llifogydd yn digwydd a chynyddu'r cyfnodau amser rhwng y llifogydd, er bod hefyd risg posibl (a rennir gan y mwyafrif o ymyraethau WWNP) o gydamseru eu huchafbwynt gan arwain at lifogydd ymhellach i lawr yr afon. Dylanwadir ar eu heffeithiolrwydd gan ffactorau sy'n ymwneud yn benodol â'r safle, yn enwedig pa mor dda y maent wedi'u cysylltu â'r afon a hefyd eu lleoliad, topograffeg y tirlun, nodweddion y pridd a'r math o reolaeth".* Mae tystiolaeth y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd yn nodi manteision bioamrywiaeth gorlifdiroedd wedi'u hadfer hefyd, sy'n gallu *"darparu amrywiaeth eang o gynefinoedd (gan gynnwys cynefinoedd sy'n derbyn blaenoriaeth megis ffeniau, gwelyau cyrs a chorsydd wedi'u codi ar dir isel) a buddion ar gyfer y rhywogaethau sy'n defnyddio'r rhain fel mannau bwydo, bridio a gorffwys. Ymysg y rhywogaethau a'r tacsonau sy'n elwa mae rhydwyr, adar gwyllt, pysgod, mamaliaid, amffibiaid ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn. Mae tri chwarter y tiroedd gwlybion a adferwyd yn cael eu defnyddio gan adar sy'n mudo".*

Gall rheoli pridd gyfrannu at lai o berygl llifogydd hefyd. Mae'r Gymdeithas Frenhinol[49] yn nodi *"Soil can act as 'natural flood management infrastructure' by increasing water infiltration into the ground and also by providing natural water storage, for example through uptake into root systems. However, both these benefits are negatively affected by compacted soil structure. Compaction of the pores within the soil reduces the ability of rainfall to infiltrate the soil and acts as an obstacle to root penetration. The degree to which soil can contribute to flood prevention is strongly reliant on it being well-structured".*

Yn ogystal, mae gwrychoedd yn cyflawni swyddogaeth rheoli llifogydd naturiol a gallant gyfrannu at liniaru llifogydd[50]. Bydd cynigion ar gyfer y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn rhesymoli'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n diogelu gwrychoedd ac yn darparu amddiffyniadau ychwanegol ar gyfer priddoedd, gan gynnwys lleihau cywasgu.

---

[47] Cyfoeth Naturiol Cymru. Datganiad Ardal Canol De Cymru: Adeiladu ecosystemau cydnerth. https://naturalresources.wales/about-us/area-statements/south-central-wales-area-statement/building-resilient-ecosystems/?lang=cy

[48] Keenleyside, C.B. et al. (2019). Atodiad 9: Lleihau llifogydd. Adroddiad y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd i Lywodraeth Cymru (Contract C210/2016/2017) (CEH NEC06297).

[49] Y Gymdeithas Frenhinol (2020). Soil structure and its benefits.

[50] Jackson, B., Wheater, H., McIntyre, N., Chell, J., Francis, O., Frogbrook, Z., Marshall, M., Reynolds, B. a Solloway, I., (2008). The impact of upland land management on flooding: insights from a multiscale experimental and modelling programme. Journal of Flood Risk Management, 1(2), t.71-80; https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/newyddion-digwyddiadau/erthyglau-technegol/potensial-coed-gwrychoedd-ar-gyfer-lleihau-amlder-ac-effaith-llifogydd-yn-y-du

- ***Cefnogi lliniaru ac ymaddasu i’r newid yn yr hinsawdd drwy ddulliau ecosystem;***

Mae cynigion ar gyfer y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn cynnwys ystyried yr anghysondebau rhwng Trawsgydymffurfio a'r ddeddfwriaeth sy'n sail iddo. Bwriedir i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol arfaethedig fod yn hyblyg er mwyn sicrhau y gellir gwneud newidiadau i ymateb i’r newid yn yr hinsawdd.

Mae egwyddor Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn sail i gynigion cynllun y dyfodol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Dylai hyn alluogi i ecosystemau a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu gael eu hadfer. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynghori, yn natganiad ardal Gogledd-orllewin Cymru, fod effeithiau'r hinsawdd eisoes yn digwydd yng Nghymru gyda sychder difrifol, tanau gwyllt a straen ar ein cynefinoedd brodorol yn dod yn fwy cyffredin[51]. Isod rydym yn amlinellu tystiolaeth ar gamau gweithredu a chanlyniadau sy'n gyson â Rheoli Tir yn Gynaliadwy a fyddai o gymorth i liniaru newid yn yr hinsawdd:

- **Cynnwys carbon uchel yn y pridd.** Yn ôl y Gymdeithas Frenhinol[52], "*Soil is the largest terrestrial store of organic carbon and its potential as a carbon sink means it could have an important role in climate change mitigation……The capacity for soil carbon sequestration depends on soil type and land use. For example, the soil of wetlands and peatlands accumulates carbon at faster rates, due to high soil moisture and decreased rates of microbial decomposition……the restoration of former crop fields to grassland or forests can restore soil carbon;*

- **Adfer mawndiroedd.** Mae tystiolaeth[53] yn dangos bod adfer mawndiroedd 3.4 gwaith yn llai costus o ran nitrogen ac yn gofyn am lawer llai o arwynebedd tir na dal a storio carbon mewn pridd mwynol. Felly mae angen rhoi mwy o ystyriaeth i adsefydlu mawndiroedd fel mesur lliniaru;

- **Amaeth-goedwigaeth[54].** Dengys tystiolaeth[55] y gall systemau amaeth-goedwigaeth gyfrannu at arafu'r cynnydd hwnnw [mewn crynodiadau carbon deuocsid ($CO_2$) atmosfferig ac, felly, yn cyfrannu at liniaru newid yn yr hinsawdd...... Y gronfa carbon organig pridd, yn arbennig, yw'r unig gronfa ddaearol sy'n storio carbon ers milenia y

[51] Cyfoeth Naturiol Cymru. Datganiad Ardal Gogledd-orllewin Cymru. *https://naturalresources.wales/about-us/area-statements/north-west-wales-area-statement/climate-and-environment-emergency-adaptation-and-mitigation/?lang=cy*

[52] Y Gymdeithas Frenhinol (2020) Soil structure and its benefits.

[53] Leifeld, J., a Menichetti, L. (2018). The underappreciated potential of peatlands in global climate change mitigation strategies. *Nature communications*, *9*(1), 1-7.

[54] Cyfeiria amaeth-goedwigaeth at gynhyrchu cnydau, da byw a biomas coed ar yr un ardal o dir.

[55] Lorenz, K., a Lal, R. (2014). Soil organic carbon sequestration in agroforestry systems. A review. *Agronomy for Sustainable Development*, *34*(2), 443-454.

gellir ei gwella'n fwriadol gan arferion amaeth-goedwigaeth. Gall hyd at 2.2 Petagram (Pg) o Garbon (1 Pg = $10^{15}$ g) gael ei ddal a'i storio uwchben ac islaw'r ddaear dros 50 mlynedd mewn systemau amaeth-goedwigaeth;

- **Coetir.** Mae Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd[56] yn nodi pwysigrwydd cynyddu gorchudd coetir (ar lefel y DU) *"Our analysis shows that using land released from agriculture for carbon sequestration and restoring natural habitats can deliver deep emissions reduction to 2050. Alternative uses of land could lead to emissions reductions of as much as 35-80% (20-40 MtCO2e per annum) by 2050. The key measures to deliver this are: afforestation (increasing forest cover from 13% of all UK land today up to 19% by 2050) and better management of existing forests; restoring 55-70% of peatlands could reduce emissions by 4-11 MtCO2e annually by 2050; sustainable energy crops representing up to 5% of land where wider environmental risks are managed; and more diverse uses of land that include trees on farms and hedgerow planting. Afforestation and restoring peatlands would also provide a range of additional benefits, including increased biodiversity, improved water quality and flood alleviation*". Mae Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd yn cynghori y bydd gweithredu ar draws y DU yn rhoi budd gwerth cyfanswm o £61 biliwn o ddal a storio carbon, a hynny cyn ystyried manteision cymdeithasol y camau hyn.[57]

- ***<u>Lleihau llygredd sŵn a lefelau llygredd yn ein haer, a gwella ansawdd aer;</u>***

Mae llawer o'r ecosystemau a'r adnoddau naturiol yng Nghymru yn gweithredu mewn ffyrdd i leihau llygredd. Mae hyn yn cynnwys dal a storio carbon o goetiroedd ynghyd â nifer o fanteision o wahanol dirweddau. Rydym yn cynnig y dylai cynllun y dyfodol wobrwyo ffermwyr am gyflawni canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy, gan gynnwys gwell ansawdd aer.

Amcangyfrifir bod colledion maethynnau blynyddol o amaethyddiaeth Cymru i'r aer oddeutu 20,000 tunnell o amonia ac 8,000 tunnell o ocsid nitraidd. Mae tystiolaeth[58] yn dangos bod llawer o ymyriadau'n gyson â Rheoli Tir yn Gynaliadwy a fyddai'n sicrhau gwell ansawdd aer:

- Rheoli colledion nitrogen (N) ar y fferm a defnyddio N yn fwy effeithlon (NUE) yw'r elfennau allweddol ar gyfer lleihau allyriadau $NH_3$ yn gyffredinol. Er enghraifft, ar

---

[56] Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd (2018) Land use: Reducing emissions and preparing for climate change.

[57] Y Pwyllgor ar y Newid yn yr Hinsawdd (2020), Land use: Policies for a Net Zero UK. tud.58.

[58] Williams J.R., et al. (2019). Atodiad 1: Rheoli maethynnau pridd ar gyfer tir wedi'i wella. Adroddiad y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd i Lywodraeth Cymru (Contract C210/2016/2017) (CEH NEC06297).

ffermydd da byw cymysg, mae rhwng 10% a 40% o'r golled N yn gysylltiedig ag allyriadau $NH_3$[59];

- Mae gan y defnydd o systemau argymhellion gwrtaith (h.y. paru'r cyflenwad maethynnau o dail organig a gwrteithiau wedi'u gweithgynhyrchu gyda gofynion maethol cnydau) y potensial i leihau colledion nitrogen a ffosfforws i ddŵr ac allyriadau amonia ac ocsid nitraidd i'r aer oddeutu 5%;

- Gallai opsiynau lleihau amonia eraill leihau colledion amonia o'r llwybr colled wedi'i dargedu hyd at 80% (e.e. gorchuddion anhyblyg ar storfeydd slyri - bydd gorchuddio storfeydd tail hylif ynghyd â defnyddio technolegau gwasgaru manwl ar gyfer taenu tail hylif yn lleihau allyriadau amonia).

Mae tystiolaeth arall gan y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd[60] yn nodi *"mae sylw yn gallu cael ei roi ar bum maes bras lle mae lleihau amonia wedi cael ei ymchwilio'n dda yn barod a'i brofi fel dull effeithiol. Y rhain yw:*

- *Strategaethau bwydo da byw;*
- *Lleihau allyriadau amonia o siediau anifeiliaid;*
- *Atal allyriadau o gyfleusterau storio slyri;*
- *Technegau allyriadau isel ar gyfer defnyddio slyri;*
- *Gall allyriad $NH_3$ o osod gwrteithiwr mwynol gael ei ostwng wrth ddewis gwrteithwyr allyrru N isel, fel amoniwm nitrad, gan osgoi wrea sy'n gysylltiedig ag allyriadau llawer uwch.*"

O ran llygredd sŵn, canfu adroddiad gan Eftec ar gyfer Defra (2018) fod cyfalaf naturiol yn cynorthwyo i leihau lefelau sŵn o'r ffordd mewn rhwng 8,000 a 22,000 o gartrefi yng Nghymru [61]. Drwy barhau i adfer ecosystemau, gallai'r budd hwn gynyddu.

- ***Gwella ansawdd dŵr a sicrhau maint ein cyflenwad dŵr;***

Mae tystiolaeth [62] yn dangos yr amcangyfrifir bod colledion maethynnau blynyddol o amaethyddiaeth Cymru i ddŵr oddeutu 37,000 tunnell o nitrad-N a 700 tunnell o ffosfforws .

Byddai llawer o gamau gweithredu sy'n gyson â Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn lleihau niwed i ansawdd dyfrffyrdd, yn enwedig drwy fesurau fel dulliau targedig o wasgaru gwrtaith ac annog arferion fel adfywio gwrychoedd a rheoli pridd. Eu nod yw lleihau lefel y maethynnau mewn dŵr ffo sy'n deillio o erydu pridd ynghyd â chreu rhwystrau naturiol i rwystro llygredd

---

[59] Jones L et al. (2019). Atodiad 8: Gwella ansawdd aer a llesiant Adroddiad y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd i Lywodraeth Cymru (Contract C210/2016/2017) (CEH NEC06297).

[60] Jones L et al. (2019). Atodiad 8: Gwella ansawdd aer a llesiant Adroddiad y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd i Lywodraeth Cymru (Contract C210/2016/2017) (CEH NEC06297).

[61] Eftec a CEH (2018) Modelling noise mitigation for UK urban natural capital accounts. Adroddiad. Tud. 38.

[62] Williams J.R., et al. (2019). Atodiad 1: Rheoli maethynnau pridd ar gyfer tir wedi'i wella. Adroddiad y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd i Lywodraeth Cymru (Contract C210/2016/2017) (CEH NEC06297).

rhag cyrraedd dyfrffyrdd. Felly, rydym yn disgwyl i'n cynigion gael effaith gadarnhaol ar ansawdd dŵr.

- ***<u>Cymryd camau i leihau'r pwysau ar adnoddau naturiol, megis drwy effeithlonrwydd adnoddau ac ynni adnewyddadwy;</u>***

Drwy reoli tir yn gynaliadwy ein nod yw cynorthwyo ffermydd i ddod yn gynaliadwy gynhyrchiol, drwy gynhyrchu’n effeithlon o fewn gallu naturiol y tir. Rydym yn cynnig gwella effeithlonrwydd adnoddau o fewn y gadwyn gyflenwi ehangach hefyd, i gefnogi Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

Gall gwell effeithlonrwydd nid yn unig wella cydnerthedd busnesau fferm, drwy leihau costau a gwastraff e.e. drwy ddefnyddio llai o wrtaith, ond gall hefyd sicrhau canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy a helpu i leihau'r pwysau ar adnoddau i genedlaethau'r dyfodol.

Bydd cyflawni canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn ehangach, megis aer glân, dŵr glân a dal a storio mwy o garbon, yn lleihau'r pwysau ar adnoddau naturiol ac yn cynyddu gwydnwch ein hecosystemau hefyd.

Disgwyliwn i'n cynigion gael effaith gadarnhaol ar effeithlonrwydd adnoddau a phwysau ar adnoddau naturiol.

- ***<u>Cefnogi dulliau ataliol o sicrhau canlyniadau iechyd, gan ganolbwyntio'n benodol ar faterion iechyd cyhoeddus allweddol sy'n ymwneud â llygredd aer a sŵn sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth, mynd i'r afael ag anweithgarwch corfforol ac iechyd meddwl;</u>***

Dylai'r fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy, y cynllun arfaethedig a diwygio rheoleiddio leihau llygredd aer, gwella ansawdd aer, a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer cyfleoedd i'r cyhoedd gael mynediad i gefn gwlad. Rydym wedi cyflwyno'r dystiolaeth yn ein Hasesiad o'r Effaith ar Iechyd am y prif feysydd lle bydd ein cynigion yn cyfrannu at iechyd meddwl a chorfforol.

- ***<u>Cefnogi camau gweithredu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac economaidd;</u>***

Bydd y cynigion yn cyfrannu at well ansawdd aer a dŵr, ac i'r graddau y mae ansawdd aer a dŵr gwael yn effeithio'n anghymesur ar y rhai sy'n byw ar aelwydydd incwm isel (mewn ardaloedd difreintiedig), dylai ein cynigion gael effaith gadarnhaol ar anghydraddoldebau iechyd aelwydydd incwm isel. Mae gan rannau o Gymru beth o'r ansawdd aer gwaethaf ym Mhrydain o hyd, ac mae’n cyfrannu at tua 1,000-4,000 o farwolaethau bob blwyddyn. Ochr yn ochr â hyn, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi disgrifio'r sefyllfa fel argyfwng iechyd cyhoeddus, gan amcangyfrif ei fod yn costio £1 biliwn i economi Cymru drwy golli diwrnodau

gwaith a chostau i'n gwasanaeth iechyd[63]. Byddai llawer o gamau gweithredu posibl sy'n gyson â Rheoli Tir yn Gynaliadwy'n arwain at reoli'r tir mewn ffordd a fydd yn helpu i wella'r sefyllfa hon tra'n ehangu mynediad i dirwedd Cymru hefyd, a allai fod o fudd i'r rheini o ardaloedd tlawd neu ddifreintiedig.

Mae ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi y bydd canlyniadau amgylcheddol a gyflawnir gan y cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar bob un o'r tri is-faes amgylchedd ffisegol (ansawdd aer; perygl llifogydd; a mynediad i fannau gwyrdd) ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC)[64]. O'r herwydd, gallai hyn leihau nifer yr ardaloedd[65] yng Nghymru sy’n amgylcheddol ddifreintiedig o dan y maes amgylchedd ffisegol yn MALlC. Byddai hyn yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant y bobl hynny sy'n byw yn yr ardaloedd hynny, ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at leihau anghydraddoldeb amgylcheddol.

- ***<u>Cefnogi cydlyniant cymunedol;</u>***

Mae tystiolaeth yn dangos bod gan y cynigion y potensial i gyfrannu at gyfalaf cymdeithasol a llesiant cymunedol:

- **cyfalaf cymdeithasol:** mae adolygiad [66] o gynlluniau amaeth-amgylcheddol ym Mharc Cenedlaethol y Peak District yn nodi “*upland farming communities are also seen as being important to maintaining social capital (community inter-linkages and institutions), and for many years governments have offered additional supports to upland farmers in an attempt to sustain incomes, rural services and populations in these areas*.”
- **llesiant amgylcheddol cymunedol:** mae adolygiad yn 2007[67] o'r cysylltiadau rhwng llesiant a'r amgylchedd naturiol yn cyfeirio at *"the positive impact of engagement with the natural environment (particularly green spaces) on psychological well-being individually and at the community level*”.

Gallai ein cynigion gael effaith gadarnhaol ar fusnesau cymunedol hefyd, a byddai hyn wedyn yn cefnogi cydlyniant cymunedol, fel yr amlinellir yn ein Hasesiadau o'r Effaith o ran Prawfesur Gwledig a Llesiant Economaidd.

---

[63] Cyfoeth Naturiol Cymru. Datganiad Ardal Canol De Cymru – Gwella ein Hiechyd. https://naturalresources.wales/about-us/area-statements/south-central-wales-area-statement/improving-our-health/?lang=cy

[64] Llywodraeth Cymru (2019). Adroddiad Canlyniadau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC).

[65] Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs)

[66] Acs, S., Hanley, N., Dallimer, M., Gaston, K. J., Robertson, P., Wilson, P., ac Armsworth, P. R. (2010). The effect of decoupling on marginal agricultural systems: implications for farm incomes, land use and upland ecology. *Land use policy*, *27*(2), 550-563.

[67] Newton, J. (2007). Wellbeing and the natural environment: a brief overview of the evidence. *Caerfaddon: Prifysgol Caerfaddon*.

- ***<u>Cefnogi cyflogaeth ddiogel a sefydlog.</u>***

Mae'r amcangyfrifon diweddaraf ar gyfer 2019[68] yn dangos mai cyfanswm y bobl sy'n gweithio ar ddaliadau amaethyddol yng Nghymru yw 52,900. O'r cyfanswm hwn, mae 39,700 yn brif ffermwyr, cyfarwyddwyr, partneriaid busnes a'u partneriaid priod. Mae'r cyfanswm yn cynnwys 13,000 o weithwyr fferm llawn amser rheolaidd, rhan-amser rheolaidd a thymhorol/achlysurol (Nid yw hyn yn cynnwys pobl hunangyflogedig na chontractwyr a all weithio ar y fferm hefyd).

Disgwyliwn y gallai ein cynigion gyfrannu'n gadarnhaol at gyflogaeth. Mae tystiolaeth gan Tir Gofal yng Nghymru[69] a Stiwardiaeth Lefel Mynediad yn Lloegr[70] wedi canfod bod y cynlluniau amaeth-amgylcheddol hyn yn gysylltiedig â chynnydd yn y galw am lafur. Yn ogystal, ar lefel y DU, awgrymir bod cyfraniad Colofn 2 i gyflogaeth yng nghefn gwlad yn uwch (1.2%) o gymharu â chyfraniad Colofn 1 (1.0%)[71].

Drwy Reoli Tir yn Gynaliadwy, bydd sector amaethyddol cadarn yn cyfrannu at gyflogaeth ddiogel a sefydlog hefyd drwy alluogi cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol i barhau i gynhyrchu bwyd a chanlyniadau amgylcheddol. Dylai hyn gefnogi swyddi yn y sector amaethyddol, y gadwyn gyflenwi ehangach a chymunedau gwledig.

Yn ogystal, gall diogelu a chynyddu cynaliadwyedd adnoddau naturiol Cymru arwain at nifer o fanteision trydyddol ychwanegol sy'n gysylltiedig â chreu cyflogaeth ddiogel a sefydlog. Gall hyn fod yn arbennig o berthnasol ym maes amaeth-dwristiaeth lle mae adnoddau naturiol Cymru wedi creu amgylchedd naturiol sy'n fyd-enwog. Gwelir tystiolaeth o hyn yn arolwg Ymwelwyr Cymru sy'n dangos mai’r amgylchedd naturiol yw’r prif reswm i dwristiaid ddewis Cymru fel cyrchfan gwyliau[72].

Er mwyn deall effeithiau ein cynigion, rydym wedi comisiynu dadansoddiad annibynnol o effeithiau economaidd cynllun y dyfodol ar fusnesau fferm a bydd hyn yn llywio asesiad pellach o effeithiau.

---

[68] Arolwg Mehefin o Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (2019).

[69] Agra CEAS (2005). Socio-economic evaluation of Tir Gofal, report for CCW and Welsh Government. Arolygwyd sampl o 251 o gyfranogwyr yn Tir Gofal (ychydig dros 20% o'r 1,166 o gyfranogwyr a oedd wedi derbyn taliadau ar ddechrau'r prosiect).

[70] Mills, J., Courtney, P., a Gaskell, P. (2010). Assessing the Incidental socio-economic impacts of Environmental Stewardship.

[71] Rizov, M., Davidova, S., a Bailey, A. (2018). Employment effects of CAP payments in the UK non-farm economy. *European Review of Agricultural Economics*, *45*(5), 723-748.

[72] McAllister a McDonough (2017). Adroddiad Arolwg Ymwelwyr Cymru 2016: Ymwelwyr sy'n Aros o'r DU. Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 14/2017. Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-05/arolwg-ymwelwyr-cymru-2016-ymwelwyr-syn-aros-or-du.pdf

## 5.2 Bioamrywiaeth

Gweler Atodiad F ar gyfer Asesiad o’r Effaith ar Fioamrywiaeth ar gyfer ein cynigion.

## 5.3 Newid yn yr Hinsawdd

Nodwyd mai’r newid yn yr hinsawdd yw un o'r bygythiadau mwyaf sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol. Mae angen i ni leihau ein hallyriadau drwy gamau datgarboneiddio (5.3a) ac addasu i effeithiau’r newid yn yr hinsawdd drwy gynyddu ein cydnerthedd (5.3b).

### 5.3a Datgarboneiddio

**Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/lleiaf), y bydd y cynnig yn effeithio ar allyriadau yng Nghymru?**

Mae effeithiau’r newid yn yr hinsawdd ar amaethyddiaeth a choedwigaeth yn y DU wedi'u nodi'n helaeth[73]. Yn yr un modd, yng Nghymru mae effaith y newid yn yr hinsawdd ar Adnoddau Naturiol Cymru[74], ac ar safleoedd gwarchodedig Cymru[75], wedi'u nodi.

Daw Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd [76], yn ei adroddiad ar ddefnydd tir, i'r casgliad *"Throughout the UK there is an urgent need for a new approach: the legislative opportunities for real change are available and should progress immediately”.*

Mae adroddiad Llywodraeth Cymru *Defnydd Tir, Newid Defnydd Tir a Choedwigaeth: Sector Llwybr Allyriadau*[77] yn cydnabod bod angen i ni gynyddu ein gwaith creu coetiroedd a sicrhau bod y gwaith o reoli ein priddoedd yn ddigonol i fod yn gydnaws â'n rhwymedigaeth statudol. Rydym yn cydnabod hefyd bod cyfleoedd ehangach ar gyfer storio carbon drwy ddiogelu a chynyddu storfeydd carbon mewn priddoedd a biomas arall.

Mae'r adroddiad yn dangos ymhellach bod angen i ni ddatblygu diwydiant amaethyddol cydnerth a ffyniannus, sy'n lleihau ei allyriadau nwyon tŷ gwydr drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys datblygu gwell effeithlonrwydd wrth gynhyrchu da byw a chnydau, rheoli maethynnau a chynyddu cynaliadwyedd asedau fferm.

[73] Morison, J. a Matthews, R. (gol.) (2016): Agriculture and Forestry Climate Change Impacts Summary Report, Living With Environmental Change.

[74] Cyfoeth Naturiol Cymru (2016). Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR): Asesu’r Modd y Rheolir Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Adroddiad Technegol.

[75] Cyfoeth Naturiol Cymru (2018). Cynllun Gweithredu Thematig Natura 2000 Newid yn yr Hinsawdd a Chwalu Cynefinoedd, Rhaglen Natura 2000 Life yng Nghymru.

[76] Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd (2020). Land use: Policies for a Net Zero UK.

[77] Llywodraeth Cymru (2019). Defnydd Tir, Newid Defnydd Tir a Choedwigaeth: Sector Llwybr Allyriadau.

Nod uniongyrchol y cynigion yn y Papur Gwyn yw cynyddu datgarboneiddio a lleihau allyriadau yn y sector amaethyddol yng Nghymru. Ein nod yw lleihau ôl troed pob fferm mor agos at sero net â phosibl. Isod rydym yn amlinellu lle mae cynigion penodol yn debygol o gael effaith ar y nodau hyn.

*Cynllunio iechyd anifeiliaid, ymyriadau milfeddygol a gwell rheolaethau ar gyfer clefydau*

Mae anifeiliaid iach yn fwy cynhyrchiol. Mae angen llai o anifeiliaid iach i gynhyrchu'r un faint o gynnyrch o'i gymharu â rhai sydd ddim yn iach, gan arwain at lai o allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru astudiaeth unigryw, gan ddefnyddio technegau dadansoddi cylch bywyd, i bennu effaith TB ar allyriadau nwyon tŷ gwydr[78]. Dangosodd yr astudiaeth y byddai dileu TB yng Nghymru yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r sector gwartheg tua 2% drwy lai o wastraff a mwy o effeithlonrwydd - cyfraniad bach ond arwyddocaol at y nod cyffredinol o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o ffermio.

Mae llawer o glefydau endemig y byddai rheolaeth ohonynt yn arwain at leihad – mwy o leihad yn ôl pob tebyg - mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr. Fodd bynnag, mae mesur yr effaith yn gymhleth ac yn ddrud a hyd yma mae adnoddau wedi canolbwyntio'n bennaf ar wneud gwelliannau i iechyd, yn hytrach na mesur effaith y gwelliannau hynny ar allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Rydym yn cynnig defnyddio Bil Amaethyddiaeth (Cymru) fel ffordd o gyflwyno rheolaethau gwell ar gyfer clefydau anifeiliaid, fel rhan o'r cynigion sancsiynau sifil sydd i'w datblygu, a rhoi mwy o hyblygrwydd i Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r holl rywogaethau rydym yn cymhwyso rheolaethau clefydau iddynt. Fel yr amlinellir uchod, dylai atal clefydau arwain at anifeiliaid iachach a mwy cynhyrchiol, gyda llai o anifeiliaid yn allyrru llai o allyriadau. Bydd atal achosion o glefydau anifeiliaid ar raddfa fawr yn lleihau'r posibilrwydd y bydd achosion o'r fath yn cael effaith ar yr amgylchedd a graddfa'r effaith honno, o ran yr achos ei hun, a'r camau y mae angen eu cymryd wrth ymateb iddo. Bu'n rhaid difa tua chwe miliwn o anifeiliaid yn sgil argyfwng Clwy'r Traed a'r Genau 2001, drwy gladdu torfol, llosgi ar goelcerth a rendro, gan effeithio ar ansawdd dŵr, aer a thir. At hynny, roedd y defnydd dwys o dros 1.3 miliwn litr o ddiheintydd a gymeradwywyd gan y Llywodraeth i lanhau safleoedd heintiedig a'i osod wrth fynedfeydd ffermydd ledled Cymru a Lloegr erbyn mis Hydref 2001 yn cyfrif am 18% o'r holl achosion o lygredd a gofnodwyd yn ystod yr argyfwng, gydag effeithiau tymor hwy wrth i hynny darfu ar brosesau trin carthffosiaeth biolegol mewn gweithfeydd bach[79]. Er na ellir rhagweld achosion o glefydau anifeiliaid, dylai mwy o gamau

---

[78] Williams, A. a Sanders, D. (2016). Greenhouse Gas Emissions from bovine tuberculosis (bTB) in Wales. Adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru (ar gael ar gais)

[79] http://environmentdata.org/archive/ealit:4290/OBJ/x69_EA_Footandmouthdisease_2001_0.pdf

ataliol drwy reolaethau clefydau gwell ac estynedig leihau'r tebygolrwydd y bydd achosion yn digwydd a graddfa'r achosion hynny pe baent yn digwydd. Dylai hyn leihau'r effaith amgylcheddol, ac yn ei dro y goblygiadau posibl sy'n deillio o'r camau a gymerir i ymateb i'r clefyd.

*Cynllun y dyfodol*

Nod cynllun y dyfodol, drwy Reoli Tir yn Gynaliadwy, yw cynyddu iechyd pridd, lleihau allyriadau, a dal a storio mwy o garbon drwy reoli tir. Cefnogir ffermydd i gyflawni'r canlyniadau hyn a fydd yn cyfrannu at leihau allyriadau yng Nghymru.

Oherwydd ansicrwydd ynghylch cyllid yn y dyfodol, ni allwn amcangyfrif ar hyn o bryd a fydd y gostyngiadau hyn mewn allyriadau yn sylweddol neu'n gymedrol. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn awgrymu bod gan gynllun y dyfodol y potensial i sicrhau gostyngiadau sylweddol:

O ran rheoli porfa a glaswelltir, mae tystiolaeth[80] yn dangos *"Mae tiroedd pori sydd wedi'u gwella yn cynnwys stociau helaeth o C, yn bennaf oherwydd bod cymaint o diroedd o'r fath yng Nghymru... fod C pridd mewn tir pori yn cyfateb i 47% o stociau carbon pridd Cymru hyd at ddyfnder o 1m. Mae cadw'r rhain a'r holl stociau C pridd yn hollbwysig er mwyn sicrhau nad yw priddoedd yn cyfrannu tuag at ragor o newid yn yr hinsawdd pan ddylent fod yn helpu i liniaru newid hinsawdd drwy storio C yn barhaus".*

Byddai cynllun y dyfodol yn cefnogi'r gwaith o greu a rheoli coetiroedd, ac mae tystiolaeth[81] yn awgrymu hefyd *"Os yw coetir yn cael ei reoli'n gynaliadwy, ac os yw pob cylchdro o goed yn tyfu i ddychwelyd i'r stoc garbon cyn cynhaeaf, yna mae stoc garbon y goedwig yn cael ei hadnewyddu ar sail gylchol. Yn ychwanegol at hyn, os yw'r coed sy'n cael eu cynaeafu'n cael eu defnyddio mewn cynnyrch â rhychwant oes hir gall hyn olygu bod system goetir sy'n cynhyrchu coed yn cyfrannu mwy tuag at liniaru newid hinsawdd na choetir nad yw'n cael ei gynaeafu. Bydd y budd hwn yn fwy os yw'r defnydd o'r cynnyrch coed hyn sydd wedi'u cynaeafu: (a) yn cymryd lle deunyddiau fel concrit, dur neu blastig; a (b) yn cymryd lle coed sy'n cael eu mewnforio o wledydd lle nad yw'r coedwigoedd cynhyrchu'n cael eu rheoli'n gynaliadwy".*

[80] Emmett, B.A. et al. (2019). Adroddiad 10b: Ystyriaethau ar gyfer y cynllun newydd. Adroddiad y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd i Lywodraeth Cymru (Contract C210/2016/2017) (CEH NEC06297).

[81] Emmett, B.A. et al. (2019). Adroddiad 10b: Ystyriaethau ar gyfer y cynllun newydd. Adroddiad y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd i Lywodraeth Cymru (Contract C210/2016/2017) (CEH NEC06297).

Felly, yn dibynnu ar lefel y cyllid a chyfranogiad yng nghynllun y dyfodol, gallai cynllun gael effaith sylweddol ar ddatgarboneiddio. Wrth i'n cynigion ddatblygu, byddwn yn archwilio'r effaith ar ddatgarboneiddio yn fanylach.

*Asesiad gan ddefnyddio methodoleg prisio* Nwyon Tŷ Gwydr Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM[82]

Mae Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM yn cael ei ddefnyddio gan ymgynghorwyr fel rhan o gonsortiwm y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd i ddatblygu cadwyni rhesymeg a fydd yn nodi'r berthynas rhwng gwerth cymdeithasol nwyddau a gwasanaethau ecosystemau a chamau gweithredu Rheoli Tir yn Gynaliadwy a gyflawnir ar ffermydd. Bydd y cadwyni rhesymeg yn cynnwys y canlynol:

- Rheoleiddio'r hinsawdd;
- Mwy o orchudd coed;
- Morfa heli;
- Mawndir;
- Glaswelltir;
- Datgarboneiddio.

Bydd y gwaith hwn yn llywio ein hasesiad effaith o effeithiau datgarboneiddio cynigion y cynllun.

Bydd cynllun y dyfodol yn destun Dadansoddiad Cost a Budd llawn a fydd yn gyson â Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM hefyd.

### 5.3b Ymaddasu

**Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar y gallu i addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd?**

Mae *Cynllun ar gyfer Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd*[83] Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r dull cyffredinol o ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd yng Nghymru. Mae'n nodi *"Mae'r Rhaglen Gallu, Cynaliadwyedd a Hinsawdd yn asesu a mapio newidiadau yng nghynhyrchiant ffermydd a choedwigaeth ar draws Cymru. Byddai hynny'n rhoi cyd-destun gofodol i'r modd y gallai potensial dros 100 o gnydau amaethyddol a choedwigaeth newid o dan senarios UKCP18".*

Yng nghyd-destun ffermio da byw, mae tystiolaeth[84] yn awgrymu "*climate change is a threat to livestock production because of the impact on quality of feed crop and forage, water availability, animal and milk production, livestock diseases, animal reproduction, and*

[82] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/685903/The_Green_Book.pdf

[83] Llywodraeth Cymru (2019). Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd. Cynllun Cymru i ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd.

[84] Rojas-Downing, M., Nejadhashemi, A., Harrigan, T., a Woznicki, S. (2017). Climate change and livestock: Impacts, adaptation, and mitigation. *Climate Risk Management, 16*, 145-163.

*biodiversity…….. the livestock sector will be a key player in the mitigation of GHG emissions and improving global food security. Therefore, in the transition to sustainable livestock production, there is a need for: a) assessments related to the use of adaptation and mitigation measures tailored to the location and livestock production system in use, and b) policies that support and facilitate the implementation of climate change adaptation and mitigation measures".*

Yng nghyd-destun cnydau âr, mae tystiolaeth[85] yn awgrymu "*key effects [of climate change] will be felt through changes in the timing of the crop calendar and hence the farming year in: quality, yield, pest and disease management and crop distribution. Farmers may adapt readily to changes in average climate since effects will be gradual, but adaptations to some extremes will require more forward planning. Possible adaptation options by farmers, e.g. changing crop cultivars, and the wider industry, e.g. developing new varieties, need to be considered".*

Yng nghyd-destun ffermio llaeth, mae tystiolaeth[86] yn awgrymu "*it is essential to establish and adopt mitigation strategies covering available tools from management, nutrition, health and plant and animal breeding to cope with the future consequences of climate change on dairy farming".*

Ceir rhagor o dystiolaeth am yr angen i feithrin cydnerthedd yn y sector amaethyddol oherwydd y newid yn yr hinsawdd yn nadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau (SWOT) Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru [87]. Isod rydym yn amlinellu elfennau o'n polisi y mae disgwyl iddynt gael effaith ar addasu i'r newid yn yr hinsawdd:

*Cynllun y dyfodol*

Mae ein cynigion yn gosod helpu ffermwyr i ymateb i'r argyfwng hinsawdd fel un o amcanion allweddol Llywodraeth Cymru ar gyfer polisi amaethyddol. Rydym yn cynnig cefnogi ffermwyr i gymryd camau a fydd yn gwella eu gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd, ac yn lliniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn ehangach.

Yn ogystal â chamau gweithredu sydd wedi'u targedu'n benodol at addasu i'r newid yn yr hinsawdd, rydym am i ffermydd ddod yn gynaliadwy gynhyrchiol hefyd, gan reoli tir o fewn ei gapasiti cynhyrchiol. Dylai rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy fel hyn wella cyflwr ein hecosystemau, ac mae hynny yn ei dro yn cynyddu gallu'r amgylchedd i ymateb i'r newid yn yr hinsawdd. Er enghraifft, gall mwy o orchudd coed gael effaith oeri a lliniaru'r perygl o

[85] Hughes, G., a Hossel, J. (2008). Adapting UK arable agriculture to climate change. In *HGCA conference* (t. 23-24).

[86] Gauly, M., et al., (2013.) Future consequences and challenges for dairy cow production systems arising from climate change in Central Europe-a review.

[87] United Kingdom – Rural Development Programme (Regional) – Wales. Tudalen 81 ymlaen.https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-07/rural-development-programme-document-2014-to-2020.pdf

lifogydd hefyd tra'n gwella iechyd ac adeiladwaith pridd, a bydd hyn ynghyd â chynyddu deunydd organig pridd yn caniatáu i ddŵr wyneb ymdreiddio'n gyflymach a chael ei gadw yn y pridd am gyfnodau hwy nag y byddai fel arall. Bydd gwelliannau i ansawdd pridd yn cyfrannu at wella ansawdd dŵr hefyd.

Disgwyliwn i gynigion ein cynllun gael effaith gadarnhaol ac, i ffermwyr sy'n cymryd rhan, effeithio'n sylweddol ar eu gallu i addasu i effeithiau’r newid yn yr hinsawdd megis tymheredd uwch, gwyntoedd cryfach a mwy o law.

*Safonau Gofynnol Cenedlaethol*

Fel yr amlinellir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Adnoddau Naturiol, bwriedir i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol arfaethedig fod yn hyblyg er mwyn sicrhau y gellir gwneud newidiadau i ymateb i’r newid yn yr hinsawdd ac unrhyw newidiadau sy’n deillio o hynny mewn anghenion bioamrywiaeth.

*Rheoli clefydau'n well*

Mae hinsoddau sy’n newid a thymereddau uwch yn cynyddu'r risg o rai clefydau anifeiliaid, yn enwedig clefydau a gludir gan fectorau.  Mae Feirws y Tafod Glas, er enghraifft, yn glefyd a drosglwyddir gan wybed, sydd â chyfradd oroesi uwch mewn tymereddau cynhesach. Yn ogystal, mae tymereddau cynhesach yn newid patrwm, llwybrau ac amserau mudo adar gwyllt, gan gyflwyno risg uwch o ffliw adar (AI) i'n haid genedlaethol. Dylai'r mesurau gwell ar gyfer rheoli ac atal clefydau a gynigir drwy'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a sancsiynau sifil weithredu i leihau'r risg o glefydau, gan gynnwys y risg gynyddol o glefydau a grëir gan y newid yn yr hinsawdd. Dylai cosbau penodedig sydd i'w gosod ar y rhai nad ydynt yn cadw adar dan do, er enghraifft, fel gofyniad parth atal ffliw adar, leihau cysylltiad dofednod domestig â'r bygythiad cynyddol.

## 5.4 Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)

Ar hyn o bryd mae ein cynigion yn strategol ac nid ydynt yn cael eu priodoli i ardal benodol yng Nghymru felly nid oes angen AAS. Byddwn yn adolygu hyn wrth i'r cynigion ddatblygu.

## 5.5 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)

Ar hyn o bryd ni allwn briodoli unrhyw effeithiau i safleoedd gwarchodedig penodol felly ni fydd angen HRA. Byddwn yn adolygu hyn wrth i'r cynigion ddatblygu.

## 5.6 Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA)

Gall ein cynigion arwain at newid defnydd tir, gan gynnwys coedwigo, ond ar hyn o bryd nid yw'n bosibl amcangyfrif lefel y newid. Byddwn yn adolygu hyn wrth i'r cynigion ddatblygu.

## ADRAN 6. COFNOD O'R ASESIADAU EFFAITH LLAWN SY'N OFYNNOL

Rydych wedi penderfynu erbyn hyn pa feysydd sydd angen asesiad effaith manylach. Rhestrwch nhw isod.

| Asesiad Effaith | Oes/Nac oes | Os oes, dylech wneud y canlynol |
|---|---|---|
| Hawliau Plant | Oes | Llenwi’r Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant isod |
| Cydraddoldeb | Oes* | Llenwi’r Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb isod |
| Prawfesur Gwledig | Oes | Llenwi’r Asesiad o’r Effaith o ran Prawfesur Gwledig |
| Iechyd | Oes | Cyfeirio at y Canllawiau ar Asesiad Effaith Integredig |
| Preifatrwydd | Bydd Asesiad llawn o’r Effaith ar Ddiogelu Data yn cael ei gwblhau ar gyfer y Bil | Llenwi’r Asesiad o’r Effaith ar Ddiogelu Data isod |
| Y Gymraeg | Oes* | Llenwi’r Asesiad p’r Effaith ar y Gymraeg isod |
| Asesiad Effaith Rheoleiddiol / Economaidd | Bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gael gyda'r Bil | Cyfeirio at y Canllawiau ar Asesiad Effaith Integredig |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfiawnder | Ddim ar hyn o bryd - bydd Asesiad llawn o’r Effaith ar Gyfiawnder i'w gael gyda'r Bil | Llenwi’r ffurflen Nodi’r Effaith ar y System Gyfiawnder |
| Bioamrywiaeth | Oes* | Llenwi’r Asesiad o’r Effaith ar Fioamrywiaeth isod |
| Newid yn yr Hinsawdd | Oes | Cyfeirio at y Canllawiau ar Asesiad Effaith Integredig |
| Asesiad Amgylcheddol Strategol | Ddim ar hyn o bryd | Cyfeirio at y Canllawiau ar Asesiad Effaith Integredig |
| Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd | Ddim ar hyn o bryd | Cyfeirio at y Canllawiau ar Asesiad Effaith Integredig |
| Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol | Ddim ar hyn o bryd | Cyfeirio at y Canllawiau ar Asesiad Effaith Integredig |

* Gorfodol ar gyfer pob cynnig er mwyn bodloni rhwymedigaethau statudol.

## ADRAN 7. CASGLIAD

### 7.1 Sut y mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Ym mis Gorffennaf 2018, cyhoeddwyd yr ymgynghoriad *Brexit a'n Tir*. Cyflwynwyd dros 12,000 o ymatebion. Roedd hyn yn cynnwys dros 1,000 o ymatebion sylweddol gyda gweddill yr ymatebion yn dod o 7 ymgyrch unigryw.

Ym mis Gorffennaf 2019, cyhoeddwyd yr ymgynghoriad *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir.* Cafwyd dros 3,300 o ymatebion yn ystod yr ymgynghoriad. Roedd ychydig dros 500 yn ymatebion unigryw gan unigolion a sefydliadau gyda'r gweddill yn deillio o dair ymgyrch wahanol.

Ar draws yr ymgynghoriadau hyn rydym wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â ffermwyr a rhanddeiliaid gwledig eraill mewn sioeau amaethyddol rhanbarthol ac amrywiaeth o ddigwyddiadau pwrpasol i egluro a thrafod ein cynigion ymhellach.

Roedd y rhai a gyflwynodd ymatebion unigol yn cynrychioli cryn amrywiaeth o leisiau a safbwyntiau. Dywedodd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr eu bod yn ymwneud yn uniongyrchol â ffermio.

Wrth ddatblygu ein cynigion rydym wedi gofyn am farn sefydliadau rhanddeiliaid fel undebau'r ffermwyr, sefydliadau amgylcheddol a'r rhai sy'n cynrychioli rhannau penodol o'r sector megis Cymdeithas y Ffermwyr Tenant a'r Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad. Cawsom ymatebion i'r ymgynghoriad gan Gomisiynydd y Gymraeg a Chymdeithasau Ffermwyr Ifanc hefyd.

Rydym wedi ymgysylltu â thros 1,900 o randdeiliaid (y rhan fwyaf ohonynt yn ffermwyr) drwy broses o gydlunio i gael eu barn ar ein cynigion ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy i ddisodli cynlluniau cymorth presennol yr UE.

Mae'r asesiadau effaith drafft yn y ddogfen hon, a'r cynigion yn y Papur Gwyn, yn gam nesaf pwysig yn y broses ymgynghori, ymgysylltu a pholisi. Rydym yn croesawu safbwyntiau ar yr effeithiau a nodwyd, y dystiolaeth a gyflwynwyd ac unrhyw feysydd nad ydym wedi'u hystyried eto.

Rydym wedi sefydlu grŵp tystiolaeth rhanddeiliaid, fel y gall swyddogion ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth i ni ddatblygu ein rhaglen ddadansoddi.

Wrth i ni ddatblygu ein cynigion ar ddyluniad y cynllun a Safonau Gofynnol Cenedlaethol, byddwn yn ymgynghori ymhellach yn ffurfiol ac yn anffurfiol â'n rhanddeiliaid. Ein bwriad yw adeiladu ar y gwaith rydym wedi'i wneud drwy'r rhaglen gydlunio i sicrhau bod y cynllun a ddarparwn yn addas i'r diben.

### 7.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Yn y gorffennol, mae cymorth i amaethyddiaeth wedi canolbwyntio ar bolisïau sydd wedi cynyddu cynhyrchiant amaethyddol a darparu bwyd rhad. Mae'r polisïau hyn wedi arwain at lefelau cynhyrchiant uwch yr hectar i lawer, ond mae'r cynnydd hwn mewn cynhyrchiant wedi golygu cost gymdeithasol ehangach. Mae cydnabyddiaeth gynyddol bod effeithiau rhai arferion dwysáu ar fioamrywiaeth tir fferm, ansawdd aer a dŵr, iechyd y cyhoedd a'r hinsawdd yn faterion y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw ar frys.

Mae gadael yr UE yn golygu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru lunio polisi i ddisodli'r Polisi Amaethyddol Cyffredin i gefnogi'r sector amaethyddol ond hefyd i gyflawni yn erbyn yr heriau amgylcheddol sy'n ein hwynebu. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn sefydlu fframwaith deddfwriaethol pwysig, sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd, sy'n sail i'n cynigion ar gyfer polisi rheoli tir y dyfodol. Mae'r fframwaith hwn yn sail i'n cynigion deddfwriaethol hefyd.

Y ddwy agwedd fwyaf arwyddocaol ar ein cynigion yw sicrhau bod unrhyw gymorth i'r sector yn y dyfodol yn cyflawni yn erbyn y fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy ac yn creu set o Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Mae disgwyl y bydd pennu amcan o Reoli Tir yn Gynaliadwy ar gyfer cynllun y dyfodol yn cael effaith gadarnhaol ar ffermwyr a chymunedau gwledig drwy gynyddu cynaliadwyedd busnesau fferm. Bydd hyn yn helpu i gynyddu cydnerthedd rhag effeithiau'r argyfwng hinsawdd ac amgylchedd masnachu'r dyfodol hefyd.

Bydd gwobrwyo ffermwyr am gyflawni canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy a chreu set o Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn cynyddu cydnerthedd ecolegol y tir y maent yn ei reoli, a chydnerthedd economaidd eu busnesau. Bydd gwella effeithlonrwydd y model busnes fferm o fewn gallu naturiol y tir yn galluogi cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol i barhau i ffermio, gan gynnig cydnerthedd hirdymor i'r cymunedau y maent yn rhan annatod ohonynt.

Bydd y cynnig i wobrwyo ffermwyr am gyflawni'r canlyniadau hyn yn cynnig ffrwd refeniw amgen hefyd, nad yw newidiadau mewn amodau masnachu yn effeithio arni. Dylai'r ffrwd incwm hon gefnogi cymunedau gwledig cydnerth hefyd.

Mynegwyd pryderon, drwy ymatebion i'n hymgynghoriadau blaenorol, am effaith bosibl cynllun newydd ar ardaloedd gwledig a'r effaith ddilynol ar y Gymraeg. Bydd cefnogi cymunedau gwledig cydnerth, drwy fusnesau fferm cynaliadwy, yn helpu i ddiogelu'r defnydd o'r Gymraeg ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Drwy gefnogi ffermio i gyflawni o fewn fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy a chyflwyno set o Safonau Gofynnol Cenedlaethol dylem weld gwireddu canlyniadau megis gwella ansawdd aer a dŵr (lle mae amaethyddiaeth yn effeithio arnynt ar hyn o bryd). Mae hyn yn hanfodol i iechyd ein cenedl.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd unrhyw effaith economaidd bosibl ar y sector a gwahanol ardaloedd yng Nghymru. Mae'r effeithiau hyn yn cael eu hystyried ar wahân, fel rhan o

asesiad cynhwysfawr (a gomisiynwyd yn allanol) o'r cynigion ar economi amaethyddol Cymru, a fydd yn cynnwys ystyriaeth ar lefel fferm, sector a rhanbarthol. Bydd y gwaith hwn yn llywio ffurf cynllun y dyfodol maes o law ac yn cyfrannu at y dadansoddiad cost a budd o'n cynigion.

**7.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:**

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu**,
- **yn osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae'r Fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy a gynigir yn y Papur Gwyn yn darparu sail a gydnabyddir yn rhyngwladol ar gyfer cyflawni amrywiaeth o ganlyniadau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn unol â'r amcanion llesiant. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar y manteision hyn byddwn yn ymgymryd â gwaith modelu amrywiol gan ddefnyddio ERAMMP a fydd yn ein galluogi i archwilio'r berthynas rhwng camau gweithredu o fewn y cynllun, cyflawni'r canlyniadau rydym am eu gweld a'r gost/effeithiau cysylltiedig. Yn ogystal, bydd y dadansoddiad economaidd annibynnol o gynigion y cynllun yn ystyried effeithiau economaidd posibl ar fusnesau fferm o wahanol fathau a maint. Bydd hyn yn rhan annatod o'r broses o lunio'r cynllun ac asesu risgiau ac effeithiau. Bydd y dadansoddiad yn ein galluogi hefyd i nodi a lliniaru unrhyw effeithiau economaidd anghymesur a allai effeithio ar gymunedau gwledig a'r Gymraeg.

Bydd adborth a dderbynnir fel rhan o'r ymgynghoriad hwn ar y Papur Gwyn yn cael ei ddefnyddio i nodi, archwilio a lleihau ymhellach unrhyw effeithiau negyddol y gallai ein cynigion eu cael. Cynhelir ymgynghoriad manylach cyn datblygu is-ddeddfwriaeth, fel is-ddeddfwriaeth ar gyfer cynllun y dyfodol, a fydd yn llywio ymhellach y gwaith o ddatblygu polisi a'r asesiad o effaith ein cynigion.

Mae ein cynigion yn y Papur Gwyn hwn yn cynnwys darparu cyngor a chanllawiau amrywiol ar gyfer rheoleiddio amaethyddol, y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a chynllun y dyfodol. Credwn y dylai dealltwriaeth glir o gynigion y cynllun, gofynion rheoliadol, disgwyliadau ar gyfer dulliau monitro a gorfodi, gynorthwyo gyda'r broses bontio a helpu i liniaru rhai o effeithiau negyddol posibl ymddangosiadol y cynllun newydd a rheoleiddio ar ffermwyr.

Bydd y ddarpariaeth o gyngor a chanllawiau yn cael ei hategu gan wasanaeth cynghori sy’n cyd-fynd â chynllun y dyfodol a fydd yn helpu ffermwyr i gymryd yn y cynllun a chydymffurfio â'r rheoliadau. Gallai'r gwasanaeth hwn gynnwys cymysgedd o fecanweithiau cyflawni, gan gynnwys cynghorydd yn ymweld â ffermydd a chyfleoedd i ffermwyr rannu gwybodaeth.

Bydd y gwasanaeth cynghori hwn yn cael ei ddarparu'n ddwyieithog, yn unol â Safonau'r Gymraeg ac i gefnogi *Cymraeg 2050.* Dylai'r gwasanaeth gefnogi'r broses o drosglwyddo i'r cynllun newydd ymhellach, gan liniaru effeithiau negyddol posibl.

**7.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?**

Bydd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyflwyno adroddiad i'r Senedd ar effaith cyfanswm y gwariant ar gymorth uniongyrchol i ffermwyr ac adrodd ar wahân ar effaith cymorth datblygu gwledig.

Bydd strategaeth fonitro a gwerthuso'n nodi sut y caiff y cynllun arfaethedig ei farnu o ran gwerth am arian a'r canlyniadau y mae wedi'u cyflawni ar gyfer Cymru.

Bydd y strategaeth yn cydnabod natur hirdymor y canlyniadau a geisir ac yn nodi mesurau interim a all ddangos cynnydd.

# ADRAN 8. DATGANIAD

**Datganiad**

Rwyf yn fodlon bod effaith y cam gweithredu arfaethedig wedi cael ei hasesu a'i chofnodi'n ddigonol.

**Enw'r Uwch-swyddog Cyfrifol / Dirprwy Gyfarwyddwr:** James Owen

**Adran:** Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol

**Dyddiad:** 01/12/2020

## A. ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

**1. Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar blant a phobl ifanc.**

- ***Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar fywydau plant, yn gadarnhaol ac yn negyddol?***

Disgwyliwn i'n cynigion gael effaith gadarnhaol ar fywydau plant. Mae effeithiau cadarnhaol yn ymwneud â'r canlyniadau amgylcheddol rydym yn rhagweld y bydd ein cynigion yn eu creu - gwell ansawdd aer, gwell ansawdd dŵr, ecosystemau mwy cydnerth ac adfer rhywogaethau, mwy o gyfleoedd i gael mynediad i gefn gwlad a gwarchod nodweddion tirwedd. Dylai'r canlyniadau hyn effeithio'n gadarnhaol ar fywydau plant, nawr ac yn y dyfodol.

Rydym wedi nodi yn yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd botensial y canlyniadau amgylcheddol a ddisgwyliwn gan y broses diwygio rheoleiddio a'r cynllun arfaethedig i gael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau iechyd y boblogaeth yn gyffredinol. Mae gwell ansawdd aer, er enghraifft, yn debygol o fod o fudd i blant - mae Iechyd Cyhoeddus Cymru [88] yn nodi *"Mae wedi'i ddogfennu'n dda bod amlygiad i lygredd aer yn effeithio ar bobl wahanol mewn ffyrdd gwahanol; er enghraifft, ystyrir bod plant, pobl hŷn a'r rhai â chyflyrau cronig yr ysgyfaint neu'r galon yn fwy agored i effeithiau amlygiad llygredd aer".*

Mae disgwyl i'n cynigion gael effaith gadarnhaol ar blant drwy wella cydnerthedd busnesau fferm hefyd. Dylai busnesau fferm cydnerth gefnogi cymunedau gwledig cydnerth a fydd yn eu tro o fudd i blant yn yr ardaloedd hyn. Hwyrach y caiff y cynllun effaith economaidd, a allai effeithio ar blant. Rydym wedi comisiynu dadansoddiad annibynnol o gynllun y dyfodol i asesu effeithiau economaidd posibl, a bydd canlyniadau'r dadansoddiad hwn yn llywio'r asesiad effaith hwn maes o law.

---

[88] Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru (2018) Gweithio gyda'n gilydd i leihau llygredd aer awyr agored, risgiau ac anghydraddoldebau. Canllawiau er mwyn helpu i ddatblygu polisi ac arfer ym mhob rhan o'r GIG yng Nghymru.

- ***Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar wahanol grwpiau o blant (e.e. plant sydd wedi dioddef profiadau niweidiol yn ystod plentyndod,, plant sy'n byw mewn tlodi, plant ag anabledd, plant sy'n byw mewn aelwydydd Cymraeg a phlant mewn addysg cyfrwng Cymraeg ac ati)?***

I'r graddau y mae ansawdd aer a dŵr gwael yn effeithio'n anghymesur ar y rhai sy'n byw ar aelwydydd incwm isel (mewn ardaloedd difreintiedig), dylai ein cynigion gael effaith gadarnhaol ar lesiant plant ar aelwydydd incwm isel.

Nodwn yn ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb y bydd ein cynigion yn arwain at ganlyniadau amgylcheddol a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar bob un o'r tri is-faes amgylchedd ffisegol (ansawdd aer; perygl llifogydd; a mynediad i fannau gwyrdd) ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC)[89]. O'r herwydd, gallai hyn leihau nifer yr ardaloedd y dangosir eu bod yn amgylcheddol ddifreintiedig o dan y maes amgylchedd ffisegol ym MALlC, a bod o fudd cadarnhaol i blant yn yr ardaloedd hyn.

Nod ein cynigion yw sicrhau sector amaethyddol cydnerth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a ddylai gael effaith gadarnhaol ar blant. Fel yr amlinellir yn ein Hasesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg a Phrawfesur Gwledig, mae gan newidiadau i'r diwydiant amaethyddol y potensial i effeithio ar gymunedau gwledig a'r Gymraeg a allai yn eu tro effeithio ar blant.

Mae anifeiliaid iachach â safonau lles uchel yn helpu i feithrin cydnerthedd mewn economïau a chymunedau gwledig (archwilir hyn ymhellach yn yr Asesiad o'r Effaith o ran Prawfesur Gwledig), gan ddarparu cyfleoedd ac effeithiau cadarnhaol posibl i blant a phobl ifanc yn y cymunedau hynny.

Bydd y canlyniadau hyn yn cefnogi cydnerthedd cymunedau gwledig a Chymraeg eu hiaith, gan effeithio'n gadarnhaol ar fywydau'r plant yn yr ardaloedd hyn a ledled Cymru.

- ***Sut ydych chi wedi ymgynghori â phlant a phobl ifanc? Os nad ydych chi wedi gwneud hynny, esboniwch pam.***

Ni fydd plant yn cymryd rhan yn y cynllun arfaethedig nac yn cyflawni gweithgareddau amaethyddol a reoleiddir gan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol, er y byddant yn elwa ar gyflawni canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

Mae'r ymatebion i'n hymgynghoriadau blaenorol wedi cynnwys rhai gan sefydliadau sy'n cynrychioli ffermwyr iau/y genhedlaeth nesaf a byddwn yn gofyn am eu barn ar y cynigion presennol.

[89] Llywodraeth Cymru (2019) Adroddiad Canlyniadau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC).

**2. Eglurwch sut mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar hawliau plant.**

Mae'r cynigion yn ymwneud ag Erthyglau 24, 27 a 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn:

- **Erthygl 24 (iechyd a gwasanaethau iechyd):** Mae gan bob plentyn yr hawl i'r iechyd gorau posibl. Rhaid i lywodraethau ddarparu gofal iechyd o ansawdd da, dŵr glân, bwyd maethlon, ac amgylchedd glân ac addysg ar iechyd a llesiant fel y gall plant aros yn iach. Rhaid i wledydd cyfoethocach helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.

- **Erthygl 27 (safon byw ddigonol):** Mae gan bob plentyn yr hawl i safon byw sy'n ddigonol ar gyfer datblygiad corfforol, meddyliol, ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plentyn.

- **Erthygl 31 (hamdden, chwarae a diwylliant):** Mae gan bob plentyn yr hawl i ymlacio, chwarae a chymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau diwylliannol a chelfyddydol.

Nod y cynigion yw cynyddu canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy megis aer glân, gwell ansawdd dŵr, cydnerthedd ecosystemau a gwell mynediad i gefn gwlad. Byddai hyn yn rhoi gwell cyfleoedd i blant gymryd rhan mewn gweithgareddau iach mewn amgylchedd diogel, ac iechyd corfforol a meddyliol da.

Daeth adolygiad[90] o bwysigrwydd natur i ddatblygiad plentyndod i'r casgliad "*contact with nature is supportive of healthy child development in several domains – cognitive, social and emotional. Until proven otherwise, we can continue to assume, just as they need good nutrition and adequate sleep, children many very well need contact with nature".*

Gallai rhesymoli amddiffyniadau ar gyfer nodweddion tirwedd sy'n rhan o amgylchedd naturiol Cymru a ddarperir drwy gynigion ar gyfer y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r cynnydd mewn cyfleoedd i ddarparu mynediad i gefn gwlad a fyddai ar gael o dan y cynllun arfaethedig helpu i sicrhau bod plant yn mwynhau mwy o gyswllt â natur, ac felly byddai'n cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygiad plentyndod, yn seiliedig ar y dystiolaeth uchod.

Nid ydym wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol yn deillio o'n cynigion ar hawliau plant o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

---

[90] Taylor, A. F., Kuo, F. E., Spencer, C., a Blades, M. (2006). Is contact with nature important for healthy child development? State of the evidence. *Children and their environments: Learning, using and designing spaces*, *124*.

## B. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

1. **Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar bobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.**

- ***Sut y bydd y cynnig yn hyrwyddo cydraddoldeb?***

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol ar awdurdodau cyhoeddus Cymru i roi 'sylw dyledus' i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon, yn ogystal â hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu.

Bydd y cynllun arfaethedig ar gael yn gyfartal i bob ffermwr sy'n dymuno cymryd rhan yn y Cynllun, wedi'i ategu gan set o Safonau Gofynnol Cenedlaethol sydd yr un mor berthnasol i bob ffermwr yng Nghymru. Gan mai cynllun cymorth amaethyddol ydyw yn bennaf sydd â'r nod o gynnal busnesau fferm sy'n gynaliadwy'n economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol, tra'n talu am ganlyniadau amgylcheddol nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi gan y farchnad, prin yw'r cyfle i ddefnyddio'r cynllun arfaethedig yn uniongyrchol i feithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu. Fodd bynnag, nodwn isod na ddisgwylir i gynigion yn y Papur Gwyn gael unrhyw effeithiau negyddol ar bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig, a bydd ganddynt fanteision cyffredinol i'r boblogaeth gyfan, gan gynnwys pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig. Mae'r manteision generig hyn yn ymwneud ag:

- Yr effeithiau ar iechyd pobl sy'n deillio o'r canlyniadau amgylcheddol y bydd y cynigion yn eu creu;
- Manteision mwy o gyfleoedd i gael mynediad i gefn gwlad a gwarchod nodweddion tirwedd.

Wrth i gynigion y cynllun ddatblygu, byddwn yn ystyried sut y gellir lliniaru unrhyw rwystrau mynediad i grwpiau gwarchodedig.

<u>Grwpiau gwarchodedig</u>

Nododd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb[91] a gynhaliwyd ar gyfer Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 y materion allweddol canlynol ar gyfer y Gymru wledig:

- **Plant:** Mae gan lawer o'r Gymru wledig gyfrannau is o blant nag ardaloedd trefol.
- **Pobl ifanc**: Mewn ardaloedd gwledig yng nghanolbarth Cymru, megis Ceredigion, Powys a Gwynedd mae rhwng 5 a 15% o'r boblogaeth rhwng 16 a 24 oed. Ceir y cyfrannau uchaf o bobl ifanc mewn llawer o'r ardaloedd mwy trefol.

---

[91] WEFO (2014). Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020: asesu'r effaith.

- **Pobl hŷn o oedran gweithio:** Ceir y cyfrannau uchaf o bobl 50-64 oed yn yr ardaloedd gwledig yng nghanolbarth Cymru, megis Ceredigion, Powys a Gwynedd. Mewn llawer o'r ardaloedd hyn, mae mwy na phumed o'r boblogaeth yn y grŵp oedran hwn.
- **Pobl hŷn dros 64 oed.** Ceir y cyfrannau uchaf o bobl dros 64 oed yn yr ardaloedd gwledig yng nghanolbarth Cymru, megis Ceredigion, Powys a Gwynedd. Mewn llawer o'r ardaloedd hyn, mae mwy na phumed o'r boblogaeth dros 64 oed.
- **Anabledd.** Mewn llawer o'r ardaloedd canolog a gorllewinol mwy gwledig, er gwaethaf niferoedd is o bobl, mae cyfran y bobl ag anableddau neu broblemau iechyd hirdymor yn uwch. Mae hyn yn arbennig o wir yn y Cymoedd lle mae cynifer â 30% o bobl yn dweud bod ganddynt gyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar fywyd.
- **Hil ac ethnigrwydd:** Mae data gan Stats Cymru[92] yn dangos bod tua 4.1% o boblogaeth Cymru yn bobl o gefndir cymysg yn 2009; cefndir Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig; cefndir Du neu Ddu Prydeinig; neu grŵp ethnig arall. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y Rhaglen Datblygu Gwledig yn nodi bod grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn cyfrif am lai na 5% o'r boblogaeth yn y rhan fwyaf o ardaloedd gwledig. Fodd bynnag, *“some consider the number of ethnic minority groups to be under-counted in rural areas”.*
- **Rhyw a rhywedd:** Mae lefelau gweithgarwch economaidd dynion a menywod yn y Gymru wledig wedi symud i gyfeiriadau cwbl wahanol yn ystod y blynyddoedd diwethaf gydag anweithgarwch ymysg dynion wedi cynyddu oddeutu 5,500 rhwng 2005 a 2011, tra bod anweithgarwch economaidd ymysg menywod wedi gostwng 2,400 ers 2005.

- ***Beth yw'r effeithiau negyddol posibl ar bobl mewn grwpiau gwarchodedig a'r rhai sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel a sut y byddwch yn lliniaru’r rhain?***

*Yr effaith ar wahanol grwpiau*

**Plant**

Fel yr amlinellir yn yr Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant ac Iechyd, gallai ein cynigion effeithio ar blant, a'r boblogaeth ehangach, mewn sawl ffordd.

Yn gyntaf, mae cyflawni’r canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a chynllun y dyfodol megis aer glân, dŵr glân a mwy o fynediad i gefn gwlad yn debygol o fod o fudd cadarnhaol i blant a grwpiau eraill.

[92] StatsCymru (2010). https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Equality-and-Diversity/Equality/Population-Estimates-by-Ethnicity-Year

Mae ansawdd aer gwell, er enghraifft, yn debygol o fod o fudd i blant – mae Iechyd Cyhoeddus Cymru[93] yn nodi *"Mae wedi'i ddogfennu'n dda bod amlygiad i lygredd aer yn effeithio ar bobl wahanol mewn ffyrdd gwahanol; er enghraifft, ystyrir bod plant, pobl hŷn a'r rhai â chyflyrau cronig yr ysgyfaint neu'r galon yn fwy agored i effeithiau amlygiad llygredd aer*".

Nodwn hefyd adolygiad[94] o bwysigrwydd natur i ddatblygiad plentyndod a ddaeth i'r casgliad *"contact with nature is supportive of healthy child development in several domains – cognitive, social and emotional. Until proven otherwise, we can continue to assume, just as they need good nutrition and adequate sleep, children many very well need contact with nature".* Gallai'r amddiffyniadau ar gyfer nodweddion tirwedd a gynigir drwy'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r cyfleoedd cynyddol i ddarparu mynediad i gefn gwlad o dan gynllun y dyfodol helpu plant i fwynhau mwy o gyswllt â natur.

Yn ail, bydd cynnydd yng nghydnerthedd busnesau fferm yn cefnogi cymunedau gwledig cydnerth a fydd o fudd i blant yn yr ardaloedd hyn. Hwyrach y caiff y cynllun effaith economaidd, a allai effeithio ar blant. Rydym wedi comisiynu dadansoddiad annibynnol o gynllun y dyfodol i asesu effeithiau economaidd posibl, a bydd canlyniadau'r dadansoddiad hwn yn llywio'r asesiad effaith hwn maes o law.

Felly, disgwylir i effaith y cynigion ar blant fod yn gadarnhaol.

**Pobl Ifanc**

Mae'r cynigion ar gyfer y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn cynnwys datblygu cyngor a chanllawiau a fydd ar gael i bob ffermwr. Mae ein cynigion ar gyfer y cynllun yn cynnwys darparu Datblygiad Proffesiynol Parhaus priodol. Dylai'r ffynonellau cyngor a chanllawiau hyn fod yn arbennig o werthfawr i'r rhai sy'n newydd i'r diwydiant, er enghraifft, pobl ifanc sydd wedi gorffen addysg yn ddiweddar.

Ar hyn o bryd, mae dyfodiaid ifanc a newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant ffermio yn wynebu nifer o heriau gan gynnwys cael tir a chyllid, a chael y wybodaeth/sgiliau sydd eu hangen i redeg busnes llwyddiannus. Mae Cyswllt Ffermio wedi arwain nifer o fentrau i fynd i'r afael â'r heriau hyn. Maent yn cynnwys:

- Y Cynllun Mentro[95] sy'n paru newydd-ddyfodiaid â ffermwyr sydd am gamu'n ôl o'r diwydiant er mwyn dod yn bartneriaid busnes;
- Yr Academi Amaeth[96] sydd â'r nod o ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o arloeswyr ac entrepreneuriaid drwy ddarparu rhaglen datblygu personol ar gyfer arweinwyr

[93] Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru (2018). Gweithio gyda'n gilydd i leihau llygredd aer awyr agored, risgiau ac anghydraddoldebau. Canllawiau er mwyn helpu i ddatblygu polisi ac arfer ym mhob rhan o'r GIG yng Nghymru.

[94] Taylor, A. , Kuo, F., Spencer, C., a Blades, M. (2006). Is contact with nature important for healthy child development? State of the evidence. *Children and their environments: Learning, using and designing spaces*, *124*.

[95] https://www.businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/busnes/mentro

[96] https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/busnes/sgiliau-hyfforddiant/academi-amaeth

amaethyddol y dyfodol. Mae'n cynnwys hyfforddiant, mentora, rhwydweithio, cymorth ac arweiniad dros dair sesiwn breswyl ddwys.

Mae grwpiau sy'n cynrychioli Ffermwyr Ifanc wedi cymryd rhan yn ein dau ymgynghoriad blaenorol, ac wedi crybwyll yr angen i gefnogi newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant.

Mae annog pobl ifanc a newydd-ddyfodiaid i amaethyddiaeth yn rhan bwysig o gydnerthedd y diwydiant yn y dyfodol. Byddwn yn ystyried sut i adeiladu ar y cynnig presennol wrth i ni ddatblygu ein cynigion ar gyfer cynllun y dyfodol a'r cymorth cynghori.

**Pobl Hŷn**

Er bod problemau'n wynebu pobl hŷn sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, maent yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a thrafnidiaeth allweddol[97]. Nid oes gennym dystiolaeth y bydd y cynigion yn y Papur Gwyn yn cael effaith negyddol ar lesiant pobl hŷn. O ran effeithiau cadarnhaol posibl, nodwn yn ein Hasesiad o'r Effaith ar Iechyd botensial y canlyniadau amgylcheddol a ddisgwyliwn o reoleiddio amaethyddol a chynllun y dyfodol i gael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau iechyd y boblogaeth yn gyffredinol. Nodwn uchod y cyfeiriad at effaith dod i gysylltiad ag ansawdd aer gwael ar bobl hŷn, er enghraifft.

Amcangyfrifwyd mai oedran canolrifol ffermwr yng Nghymru yn 2016 oedd 61 oed gyda'r rhan fwyaf o brif ffermwyr Cymru dros 55 oed (68%)[98]. Mae'r cynigion ar gyfer diwygio rheoleiddiol a chynllun y dyfodol yn berthnasol i bob ffermwr yng Nghymru ac felly mae angen cyfleu'r newidiadau hyn yn rhesymol i bob ffermwr. Er bod fforymau ar-lein yn ffordd ddefnyddiol o ddiweddaru cyhoeddiadau, mae adroddiad 2019 *Cefnogi cymunedau ffermio yn ystod cyfnodau o ansicrwydd* Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn nodi bod digideiddio yn her, yn enwedig i ffermwyr hŷn. Mae'r cynigion ar gyfer set o Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn cynnwys cyhoeddi cyngor a chanllawiau i helpu ffermwyr i ddeall sut i gydymffurfio. Er mwyn i hyn fod yn hygyrch i bawb, mae'n amlwg y bydd angen archwilio opsiynau i rannu hyn mewn amrywiaeth o fformatau.

Rydym yn ymwybodol hefyd, o ystyried Covid-19, nad yw llawer o ddulliau ymgysylltu traddodiadol a oedd yn cael eu ffafrio gan randdeiliaid hŷn mewn ymgynghoriadau blaenorol o bosibl, e.e. cymorthfeydd galw heibio a chyfarfodydd wyneb yn wyneb, wedi bod ar gael. Rydym yn cadw hyn mewn cof wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau ar gyfer ymgynghori.

---

[97] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (heb ddyddiad) Taflen Ffeithiau Cydraddoldeb a Gwledig.

[98] Llywodraeth Cymru (2019). Amaethyddiaeth yng Nghymru.

**Anabledd**

Yn ystod y broses o ddatblygu cyngor a chanllawiau ar gyfer rheoleiddio amaethyddol, bydd swyddogion yn gweithio i sicrhau bod hyn yn hygyrch i bob ffermwr ac felly byddant yn ystyried addasiadau rhesymol ar gyfer y rhai sydd â nam ar eu golwg ac anableddau eraill.

Fel y nodir uchod, rydym yn disgwyl i'r canlyniadau amgylcheddol a gyflawnir gan ein cynigion gael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau iechyd y boblogaeth yn gyffredinol, gan gynnwys pobl ag anableddau.

**Hil ac ethnigrwydd**

Ni ddisgwylir i'r cynigion yn y Papur Gwyn gael unrhyw effeithiau andwyol ar hil ac ethnigrwydd. Fel y nodir uchod, dylai canlyniadau amgylcheddol eraill a ddisgwyliwn o'r cynigion yn y Papur Gwyn gael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau iechyd y boblogaeth yn gyffredinol. Mae gwahaniaethau o ran mynediad i gefn gwlad[99,100], ond nid yw'n glir i ba raddau y bydd gwell mynediad i gefn gwlad yn y cynllun arfaethedig yn annog mwy o bobl o gefndiroedd BAME i gael mynediad i gefn gwlad.

**Priodas a phartneriaeth sifil**

Nid ydym yn disgwyl i gynigion y Papur Gwyn effeithio'n negyddol ar bobl am eu bod yn briod neu am eu bod mewn partneriaeth sifil.

**Beichiogrwydd a mamolaeth**

Dylai ein cynigion ar gyfer rheoli clefydau'n well leihau clefydau yn ein da byw. Mae rhai milheintiau (y gellir eu trosglwyddo i bobl) a chyfryngau heintus yn risg ddifrifol i fenywod beichiog a'u babanod heb eu geni yn arbennig.

**Ailbennu rhywedd**

Nid ydym yn disgwyl i gynigion y Papur Gwyn effeithio'n negyddol ar bobl sy'n ailbennu eu rhywedd.

**Crefydd a chred**

Nid ydym yn disgwyl i gynigion y Papur Gwyn effeithio'n negyddol ar bobl oherwydd eu crefydd neu eu ffydd.

---

[99] Jay, M., Peters, K., Buijs, A. E., Gentin, S., Kloek, M. E., ac O'Brien, L. (2012). Towards access for all? Policy and research on access of ethnic minority groups to natural areas in four European countries. *Forest Policy and Economics*, *19*, 4-11.

[100] Cyfoeth Naturiol Cymru (2017). Trwy bob dull rhesymol. Mynediad lleiaf rhwystrol i'r awyr agored.

**Cyfeiriadedd rhywiol**

Nid ydym yn disgwyl i gynigion y Papur Gwyn effeithio'n negyddol ar bobl am eu bod yn arddel hunaniaeth LGBTQ+.

**Rhyw/rhywedd**

Dynion yw rheolwyr ac unig ddeiliaid ffermydd yn bennaf[101]. Fodd bynnag, mae menywod yn chwarae rhan allweddol yn natblygiad a chynaliadwyedd busnesau amaethyddol yng Nghymru, rhywbeth sydd wedi'i anwybyddu’n draddodiadol, ac mae rhwystrau i'w cyfranogiad yn y diwydiant.

Ers 2015, mae Cyswllt Ffermio wedi lansio menter Merched mewn Amaeth i gefnogi menywod yn y diwydiant. Byddwn yn ystyried sut y gallwn adeiladu ar y gwaith hwn wrth i'n cynigion ddatblygu.

**Aelwydydd incwm isel**

Mae incwm busnesau fferm yn anwadal, yn dibynnu ar amodau amaethyddol (gan gynnwys y tywydd) ac amodau'r farchnad. Gall y natur anwadal hon fod yn her wrth lunio cynlluniau busnes hirdymor. Nod ein cynigion ar gyfer cynllun y dyfodol yw darparu ffrwd incwm yn seiliedig ar gyflawni canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy, un na fydd yr ansefydlogrwydd hwn yn effeithio arni. Dylai hyn gael effaith gadarnhaol ar y rhai o aelwydydd incwm isel ar gyfer y ffermydd hynny sy’n cymryd rhan.

Mae effeithiau posibl cynigion ein cynllun ar incwm busnesau fferm yn cael eu hystyried ar wahân fel rhan o asesiad cynhwysfawr (wedi'i gomisiynu'n allanol) o effaith y cynigion ar economi amaethyddol Cymru. Bydd hyn yn cynnwys ystyried ffermydd o wahanol fathau a maint.

Bydd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol arfaethedig ar gyfer amaethyddiaeth yn sefydlu llinell sylfaen reoleiddiol ar gyfer pob ffermwr yng Nghymru, yn seiliedig ar y gofynion cyfreithiol presennol sy'n sail i Drawsgydymffurfio. Bydd cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn un o ofynion mynediad cynllun y dyfodol. Ni ddylai ein cynigion rheoleiddiol ei gwneud yn ofynnol i ffermwyr wario llawer mwy o arian i gydymffurfio er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y cynllun. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y byddai angen i ni ystyried unrhyw gost cydymffurfio bosibl i ffermwyr a fydd yn cael ei hystyried fel rhan o ddadansoddiad cost a budd.

Mae cynigion ar gyfer rheoleiddio amaethyddol yn cynnwys cyflwyno sancsiynau sifil fel ffordd gymesur o orfodi deddfwriaeth amaethyddol, gan gynnwys cyflwyno hysbysiadau a chosbau ariannol am droseddau llai difrifol. Gellid ystyried bod cosbau ariannol yn annheg i rai perchnogion/rheolwyr tir ar incwm isel na allant fforddio talu. Fodd bynnag, bwriad

---

[101] EU Farm Structure Survey (2016).

sancsiynau sifil yw sicrhau bod unrhyw gosbau'n gymesur â difrifoldeb y tramgwydd. Mae'r cynigion hyn hefyd yn bwriadu caniatáu i reoleiddwyr gyflwyno mesurau gorfodi amgen ar wahân i gosbau ariannol, megis hysbysiadau i ganiatáu i ffermwr, lle y bo'n briodol, gyflawni camau adferol a allai, drwy neilltuo amser a gwneud ymdrech i unioni'r tramgwydd, osgoi cosb ariannol.

Bydd cymorth i'r diwydiant coedwigaeth yn cael ei ystyried mewn unrhyw benderfyniad sy'n cael ei wneud a fydd yn ystyried yr effaith ariannol y gallai'r mesurau ei chael ar fusnesau penodol.

Mae ein Hasesiadau o'r Effaith ar Lesiant Economaidd a Phrawfesur Gwledig yn ystyried effeithiau economaidd posibl y cynigion ymhellach.

**Aelwydydd mewn ardaloedd difreintiedig**

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC)[102] yn cynnwys ansawdd amgylchedd ffisegol ardal yn y mesur o amddifadedd. Mae'r elfen amgylchedd ffisegol hon yn cynnwys ansawdd aer, perygl llifogydd a mynediad i fannau gwyrdd.

Disgwyliwn i'n cynigion, drwy leihau allyriadau, defnyddio atebion sy'n seiliedig ar natur sy'n lleihau'r perygl o lifogydd (e.e. amaeth-goedwigaeth, gwella iechyd pridd) a mwy o fynediad i gefn gwlad, ddylanwadu'n gadarnhaol ar yr amgylchedd ffisegol ac felly gellid gwella'r mesur hwn o amddifadedd. Ystyrir effaith ein cynigion ar yr amgylchedd ymhellach yn yr Asesiadau o'r Effaith ar Fioamrywiaeth, Newid yn yr Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol.

- ***Pa rwystrau, os o gwbl, y mae pobl â nodweddion gwarchodedig yn eu hwynebu? A ellir lleihau, dileu neu liniaru'r rhwystrau hyn?***

Wrth i gynigion y cynllun gael eu datblygu ymhellach byddwn yn ystyried sut y gallwn sicrhau nad oes rhwystrau sy'n atal pobl â nodweddion gwarchodedig rhag cymryd rhan. Yn ogystal, byddwn yn cymryd camau i sicrhau y bydd unrhyw gyngor a chanllawiau sy'n gysylltiedig â'r cynllun a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn cael eu cyfleu mewn ffyrdd hygyrch.

**Monitro'r cynigion**

Mae ein cynigion yn cynnwys gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyflwyno adroddiad i'r Senedd ar effaith y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Bydd strategaeth monitro a gwerthuso yn nodi sut y caiff y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ei farnu o ran gwerth am arian a'r canlyniadau y mae wedi'u cyflawni i Gymru. Bydd y strategaeth yn cydnabod natur hirdymor y canlyniadau a geisir ac yn nodi mesurau dros dro a all ddangos cynnydd.

**Cofnod o Effeithiau yn ôl nodwedd warchodedig**:

| **Nodwedd neu grŵp gwarchodedig** | **Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?** | **Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)** | **Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau?** |
|---|---|---|---|
| Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran) | Efallai y bydd pobl hŷn yn elwa'n arbennig o gyflawni canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy a ddisgwylir o'n cynigion. | Mae pobl hŷn yn arbennig o agored i niwed gan lygredd aer, disgwylir i'n cynigion wella ansawdd aer. | Mae hon yn effaith gadarnhaol, nid oes angen unrhyw liniaru. |
| | Gallai fod effaith negyddol ar ffermwyr hŷn os mai dim ond dulliau digidol a ddefnyddir i gyfathrebu am y cynigion a'u gweithredu. | Mae adroddiad 2019 Iechyd Cyhoeddus Cymru, *Cefnogi cymunedau ffermio yn ystod cyfnodau o ansicrwydd,* yn nodi bod digideiddio yn her, yn enwedig i ffermwyr hŷn. | Bydd angen i gyngor a chanllawiau a gyhoeddir fod ar gael mewn amrywiaeth o fformatau a byddwn yn ystyried sut i gyrraedd rhanddeiliaid drwy amrywiaeth o ddulliau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae gan y symudiad o gynllun cymorth seiliedig ar arwynebedd i un sy'n seiliedig ar gyflawni canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy y potensial i effeithio ar newydd-ddyfodiaid, sydd hefyd yn bobl iau o bosibl. | | Byddwn yn ystyried sut i adeiladu ar y cynnig cynghori presennol ar gyfer pobl iau a newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant. |
| Anabledd (meddyliwch am wahanol fathau o anabledd) | Ni nodwyd unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol penodol. | | Ar hyn o bryd, ni fydd angen unrhyw liniaru ond bydd hyn yn cael ei ailystyried wrth i gynigion ddatblygu. |
| Ailbennu Rhywedd (y broses o newid rhyw a phobl Drawsryweddol) | Ni nodwyd unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol penodol. | | Ar hyn o bryd, ni fydd angen unrhyw liniaru ond bydd hyn yn cael ei ailystyried wrth i gynigion ddatblygu. |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Dylai ein cynigion ar gyfer gwell rheolaethau clefydau leihau clefydau yn ein da byw. Mae rhai milheintiau (sy’n gallu trosglwyddo i bobl) a chyfryngau heintus yn risg ddifrifol i fenywod beichiog a'u babanod heb eu geni yn arbennig. | | Mae hon yn effaith gadarnhaol, nid oes angen unrhyw liniaru. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid) | Ni nodwyd unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol penodol. | | Ar hyn o bryd, ni fydd angen unrhyw liniaru ond bydd hyn yn cael ei ailystyried wrth i gynigion ddatblygu. |
| Crefydd, cred a diffyg cred | Ni nodwyd unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol penodol. | | Ar hyn o bryd, ni fydd angen unrhyw liniaru ond bydd hyn yn cael ei ailystyried wrth i gynigion ddatblygu. |
| Rhyw / Rhywedd | Dynion yw rheolwyr ac unig ddeiliaid ffermydd yn bennaf, a gallai hyn gael effaith negyddol ar gydraddoldeb rhywiol o ran mynediad at gymorth ariannol. | | Byddwn yn ystyried sut y gallwn adeiladu ar fentrau fel rhaglen Merched mewn Amaeth Cyswllt Ffermio wrth i'n cynigion polisi ddatblygu. |
| Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol) | Ni nodwyd unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol penodol. | | Ar hyn o bryd, ni fydd angen unrhyw liniaru ond bydd hyn yn cael ei ailystyried wrth i gynigion ddatblygu. |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Ni nodwyd unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol penodol. | | Ar hyn o bryd, ni fydd angen unrhyw liniaru ond bydd hyn yn cael ei ailystyried wrth i gynigion ddatblygu. |
| Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed | Disgwylir i blant a phobl ifanc elwa'n gadarnhaol o gyflawni’r canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy a ddisgwylir o'r cynigion. | Mae plant yn arbennig o agored i niwed gan lygredd aer, rydym yn disgwyl i'n cynigion gael effaith gadarnhaol ar ansawdd aer. | Mae hon yn effaith gadarnhaol, nid oes angen unrhyw liniaru. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | Mae gan y symudiad o gynllun cymorth seiliedig ar arwynebedd i un sy'n seiliedig ar gyflawni canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy y potensial i gael effeithiau economaidd, a gallai hyn effeithio ar blant, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. | | Bydd y dadansoddiad economaidd annibynnol o gynigion ein cynllun yn ystyried effeithiau economaidd y cynllun arfaethedig. Bydd hyn yn llywio ystyriaeth o unrhyw effeithiau wrth i gynigion ddatblygu. |
| Aelwydydd incwm isel | Mae gan symud o gynllun cymorth seiliedig ar arwynebedd i un sy'n seiliedig ar gyflawni canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy y potensial i gael effeithiau economaidd, a gallai hyn effeithio ar aelwydydd fferm incwm isel. | | Bydd y dadansoddiad economaidd annibynnol o gynigion ein cynllun yn ystyried effeithiau economaidd y cynllun arfaethedig ar ffermydd o wahanol fathau a maint. Bydd hyn yn llywio ystyriaeth o unrhyw effeithiau wrth i gynigion ddatblygu. |

**Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig**

A fydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl yn eich barn chi?

| Hawliau Dynol | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau negyddol? |
|---|---|---|---|
| **Erthygl 8: Yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol a gohebiaeth** | Mae'r Papur Gwyn yn cynnig egluro deddfwriaeth ar rannu a phrosesu data, sicrhau y gellir parhau i brosesu data hanesyddol ar ôl i'r pwerau perthnasol ddod i ben yn Neddf Amaethyddiaeth y DU, a'i gwneud yn haws rhannu data rhwng gwahanol gyrff.<br><br>Mae potensial am effaith negyddol ar breifatrwydd pe bai achosion o dor diogelwch data, neu os nad oedd rhannu/casglu data yn gymesur neu'n angenrheidiol. | Bydd unrhyw gynigion sy'n ymwneud â phrosesu gwybodaeth bersonol yn cynnwys risg o amharu ar yr hawl i breifatrwydd. | Rydym yn cynnig egluro mewn deddfwriaeth ddibenion casglu a phrosesu data. Bydd hyn yn helpu i liniaru'r risg o brosesu/rhannu data anghymesur.<br><br>Rydym yn cynnal Asesiad llawn o'r Effaith ar Ddiogelu Data er mwyn sicrhau bod unrhyw gasglu neu brosesu data sy'n digwydd o ganlyniad i'r cynigion yn gymesur, yn angenrheidiol ac yn ddiogel. Rydym yn ymgynghori â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i nodi a lliniaru unrhyw risgiau wrth i bolisi ddatblygu. |

## C. ASESIAD O'R EFFAITH O RAN PRAWFESUR GWLEDIG

**1. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar bobl, busnesau a chymunedau cefn gwlad.**

- *Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar fywydau pobl yng nghefn gwlad, yn gadarnhaol ac yn negyddol? Er enghraifft, defnyddwyr gwasanaethau, gweithwyr a defnyddwyr.*

**Cymunedau gwledig ac amaethyddiaeth**

Mae amcangyfrifon ar gyfer 2019[103] yn dangos mai cyfanswm y bobl sy'n gweithio ar ddaliadau amaethyddol yng Nghymru yw 52,900. O'r cyfanswm hwn, mae 39,700 yn brif ffermwyr, cyfarwyddwyr, partneriaid busnes a'u partneriaid priod. Mae'r cyfanswm yn cynnwys 13,000 o weithwyr fferm llawn amser rheolaidd, rhan-amser rheolaidd a thymhorol/achlysurol (nid yw hyn yn cynnwys pobl hunangyflogedig na chontractwyr a all weithio ar y fferm hefyd).

Nid yw cyfraniad amaethyddiaeth i gymunedau gwledig yn un economaidd yn unig. Fel yr amlinellwyd gan Dwyer (2018)[104] "*whilst hardly visible in basic statistics, agriculture remains a major driver of economic and community viability in the many remote areas of Wales".*

Mae ffermydd yng Nghymru yn gwneud cyfraniad sylweddol at y cyfalaf cymdeithasol sydd wedi'i wreiddio mewn cymunedau gwledig. Fel y pwysleisia NFU Cymru[105], *"Mae llawer o ffermwyr neu unigolion sy'n rhan o'r diwydiant amaeth yn cyflawni swyddogaeth fel arweinwyr neu wirfoddolwyr mewn cymunedau gwledig sy'n cyfrannu at gydlyniad cymunedol. Yn aml iawn gwelir aelodau o'r diwydiant amaeth yn eistedd ar gynghorau cymuned, cymdeithasau rhieni ac athrawon neu ar fyrddau llywodraethwyr ysgol. Hefyd byddant yn aml yn cynorthwyo'r gymuned".*

Mae'r cynigion yn cynrychioli newid sylweddol yn y ffordd y bydd ffermwyr yn cael cymorth ariannol. Mae'r cynigion yn cynrychioli newid yn y ffordd y mae busnesau fferm yn cael eu rheoleiddio hefyd. O ystyried cyfraniad amlweddog amaethyddiaeth mewn llawer o ardaloedd gwledig, gallai'r newidiadau hyn effeithio ar gymunedau gwledig hefyd.

Rydym yn amlinellu effeithiau disgwyliedig cynigion y Papur Gwyn ar gymunedau gwledig isod. Wrth i bolisi ddatblygu byddwn yn ystyried yr effeithiau hyn yn fanylach. Yn enwedig o ran cynllun y dyfodol, nid yw'n bosibl amcangyfrif yr holl effeithiau'n fanwl ar hyn o bryd gan nad oes cyllideb wedi'i chadarnhau hyd yma.

---

[103] Arolwg Mehefin o Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (2019).

[104] Dwyer, J. (2018). The implications of Brexit for agriculture, rural areas and land use in Wales.

[105] NFU Cymru (2017). Ffermio – Creu Cymru Unedig.

*Y Cynllun Arfaethedig*

Disgwylir i bennu amcan Rheoli Tir yn Gynaliadwy ar gyfer cynllun y dyfodol gael effaith gadarnhaol ar gymunedau gwledig drwy gynyddu cydnerthedd.

Bydd gwobrwyo ffermwyr am gyflawni canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn cynyddu gwydnwch ecolegol y tir y maent yn ei reoli, a gwydnwch economaidd eu busnesau. Bydd gwella effeithlonrwydd model busnes ffermydd o fewn gallu naturiol y tir yn galluogi cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol i barhau i ffermio, gan gynnig cydnerthedd hirdymor i'r cymunedau y maent yn rhan annatod ohonynt.

Bydd y cynnig i wobrwyo ffermwyr am gyflawni'r canlyniadau hyn yn cynnig ffrwd refeniw amgen hefyd, nad yw'n cael ei heffeithio gan anwadalrwydd mewn amodau masnachu. Dylai'r ffrwd incwm hon gefnogi cymunedau gwledig cydnerth hefyd.

Mae'r effeithiau economaidd posibl yn cael eu hystyried ar wahân, fel rhan o asesiad cynhwysfawr (wedi'i gomisiynu'n allanol) o'r cynigion ar economi amaethyddol Cymru, a fydd yn cynnwys ystyriaeth ar lefel fferm, sector a rhanbarthol. Bydd y gwaith hwn yn llywio'r fersiwn nesaf o'r Asesiad Effaith hwn maes o law.

Disgwylir y bydd manteision llesiant cadarnhaol i gymunedau gwledig hefyd drwy gynnal a chadw a gwella cynefinoedd a thirweddau, ochr yn ochr â gwelliannau mewn ansawdd aer a dŵr. Mae ein Hasesiad o'r Effaith ar Iechyd yn rhoi manylion effeithiau cadarnhaol y cynllun arfaethedig ar lesiant corfforol a meddyliol, ac mae ein Hasesiadau o'r Effaith ar Adnoddau Naturiol a Bioamrywiaeth yn amlinellu'r manteision amgylcheddol disgwyliedig.

*Rheoleiddio*

Fel y disgrifir yn ein Hasesiad o'r Effaith ar Iechyd, bydd ein cynigion ar gyfer rheoleiddio amaethyddol yn effeithio ar fywydau pobl yng nghefn gwlad, yn enwedig busnesau fferm yn y ffyrdd canlynol:

- Nod ein cynigion yw lleihau cymhlethdod rheoleiddiol drwy gyfuno'r rheoliadau amaethyddol niferus sydd gennym ar hyn o bryd yn un set o Safonau Gofynnol Cenedlaethol sy'n berthnasol i bob ffermwr yng Nghymru;
- Rydym yn bwriadu lleihau'r baich gweinyddol a rheoleiddiol ar ffermwyr hefyd drwy wella'r broses o fonitro cydymffurfiaeth reoleiddiol drwy hwyluso dull mwy seiliedig ar risg o archwilio er mwyn targedu ymweliadau fferm yn well;
- Gwella rheoleiddio ar gyfer coedwigaeth a rheoli coetiroedd;
- Cyflwyno pwerau sylfaenol ar gyfer amrywiaeth o sancsiynau sifil i orfodi rheoliadau amaethyddol, megis drwy hysbysiadau a chosbau ariannol. Byddai hyn yn osgoi camau troseddol lle bo modd ac yn galluogi rheoleiddwyr i ddefnydd cymesur i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio rheoleiddiol a bod y dull hwnnw'n cael ei ddefnyddio ar gyfer pob busnes fferm, p'un a yw'n hawlio o dan y cynllun ai peidio.

Er mwyn helpu i leihau effaith y newidiadau hyn ar y gymuned ffermio, bydd angen ymgynghori pellach a manylach ar y cynigion hyn cyn datblygu'r is-ddeddfwriaeth. Bydd

cynigion ein Papur Gwyn yn cael eu cefnogi gan gyngor a chanllawiau amrywiol i helpu dealltwriaeth. Credwn y dylai dealltwriaeth glir o'r gofynion rheoliadol, disgwyliadau o ran dulliau monitro a gorfodi, helpu i liniaru rhai o effeithiau negyddol ymddangosiadol rheoleiddio ar ffermwyr.

*Coedwigaeth a Choetir*

Ni ddisgwylir i'r cynigion gael effeithiau negyddol ar gymunedau gwledig yng Nghymru, ac maent yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar yr economi a bioamrywiaeth ac felly iechyd corfforol a meddyliol y bobl sy'n byw yno.

Mae cael gwared ar goed ynn heintiedig o bob amgylchedd yng Nghymru yn anghenraid i iechyd a diogelwch pawb, ond bydd hyn yn rhoi cyfleoedd hefyd i fusnesau lleol a fydd yn ymgymryd â'r gwaith peryglus hwn. Er bod effeithiau negyddol o gwympo coed ynn, mae'r gwaith hwn yn angenrheidiol oherwydd effaith clefyd coed ynn, bydd yn gwneud ardaloedd yn ddiogel ar gyfer mynediad a hamdden, a bydd yn agor cyfleoedd i goed a phlanhigion brodorol eraill gytrefu a chael eu plannu a fydd yn cynyddu amrywiaeth yr ardaloedd hynny dan sylw. Bydd hyn yn arwain at welliant cyffredinol i'r amgylchedd, bioamrywiaeth ac yn y pen draw bydd yn cefnogi datblygiad cyffredinol yr economi wledig, yn gwella mynediad i weithgareddau hamdden diogel sydd â'r potensial i wella llesiant a darparu cyfleoedd economaidd.

Mae'r manteision i'r diwydiant coedwigaeth o ddangos cydymffurfiaeth â safonau sylfaenol yn darparu cyfleoedd am fwy o ddefnydd o gynhyrchion pren yn fewnol ac ar gyfer allforio, ac yn lleihau'r risg o gael ein cymharu'n anffafriol â safonau hwsmonaeth mewn gwledydd eraill.

Bydd BBaChau a microfusnesau yn gallu cael gafael ar waith, yn enwedig wrth ymdrin â chlefyd coed ynn, ar gyfer tirfeddianwyr sydd â choed ynn heintiedig ar eu tir. Maent yn gallu manteisio ar gynlluniau cyllid cyfalaf amrywiol hefyd i brynu offer arbenigol at y diben hwn, megis y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren a ariennir gan y Rhaglen Datblygu Gwledig, ac yn fwy diweddar drwy Gynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

- ***A fydd mynediad yn broblem i bobl cefn gwlad? Os bydd, beth fydd yn cael ei wneud i oresgyn y rhwystrau rhag cael mynediad?***

Nid ydym o'r farn y bydd mynediad yn broblem o dan ein cynigion. O ran cynllun y dyfodol, mae ffermydd mewn ardaloedd gwledig yn bennaf a nhw fydd y prif darged.

- ***Sut y mae'r cynnig wedi ystyried anghenion pobl cefn gwlad e.e. y boblogaeth hŷn, diffyg tai fforddiadwy, gofynion ieithyddol?***

Bydd ein cynigion ar gyfer rheoleiddio amaethyddiaeth yn berthnasol i bob ffermwr yng Nghymru waeth beth fo'i oedran ac a yw'n cymryd rhan mewn unrhyw gynllun talu. Mae ein cynigion ar gyfer gorfodi rheoleiddio yn ceisio sicrhau hefyd bod camau gorfodi yn gymesur ac yn cael eu cymhwyso'n deg i holl ffermwyr Cymru.

Wrth ddatblygu ein cynigion ymhellach o fewn is-ddeddfwriaeth, byddwn yn ceisio cynnwys ac ymgynghori â'r gymuned ffermio. Bydd datblygu polisïau pellach ar gyngor a chanllawiau, ar gyfer cynllun y dyfodol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, yn ystyried hefyd y ffordd orau o ddarparu hyn i'r gymuned ffermio, gan ystyried anghenion amrywiol a sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael mewn amrywiaeth o fformatau.

Nodir yr effeithiau disgwyliedig ar y Gymraeg yn ein Hasesiad o'r Effaith ar y Gymraeg.

- ***A fydd y cynnig yn arwain at agor gwasanaethau newydd neu gau gwasanaethau sy'n bodoli eisoes? Sut y byddwch yn cynyddu i'r eithaf yr effeithiau cadarnhaol ac yn lliniaru'r effeithiau negyddol?***

Mae ein cynigion ar gyfer cynllun y dyfodol yn cynnwys y cynnig y dylid rhoi cyngor, hyfforddiant a chymorth i ffermydd i gyflawni canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Ar hyn o bryd, mae'r gwaith datblygu polisi yn parhau ac ni allwn asesu beth fydd yr effaith ar wasanaethau. Bydd hyn yn destun asesiad effaith pellach wrth i gynigion gael eu datblygu.

- ***A yw'n ofynnol prynu neu ddefnyddio tir o dan y polisi? A ydych wedi ystyried ffactorau gwledig fel gwerth tir, faint ohono sydd ar gael neu ddynodiadau cyfyngol?***

Ni fydd Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i brynu na defnyddio tir i weithredu'r polisi.

- ***A fydd y cynnig yn gweithio mewn tirwedd anodd e.e. ffyrdd cul a mynyddoedd serth? Os na fydd, sut y byddwch yn goresgyn unrhyw rwystrau?***

Nid ydym yn rhagweld unrhyw rwystrau oherwydd tirwedd anodd. Bydd profiad blaenorol Llywodraeth Cymru o ddarparu cynlluniau cymorth a gwasanaethau cynghori i ffermwyr, sy'n aml wedi'u lleoli ar dirwedd anodd, yn cael ei ddefnyddio i lywio'r gwaith cyflawni.

- ***A yw'r cynnig yn berthnasol i fusnesau bach a chanolig neu ficrofentrau? Os ydyw, sut ydych chi wedi ystyried eu sefyllfa hwy? A yw'r cynnig yn disgwyl i fusnesau allu cael mynediad at gymorth? (Gall hyn fod ar ffurf cyngor, hyfforddiant, cyllid ac ati.) Os ydyw, pa rwystrau bydd busnesau gwledig yn eu hwynebu a sut y byddant yn cael eu goresgyn?***

Mae llawer o ffermydd yng Nghymru yn fusnesau bach ac yn cyfrannu at gydnerthedd cymunedau gwledig. Bydd y cynigion ar gyfer cynllun y dyfodol yn cefnogi ffermydd ledled Cymru i gyflawni canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy a byddant yn rhoi cyngor a chymorth er mwyn iddynt wneud hynny. Bydd effeithiau ar fusnesau bach yn cael eu hystyried unwaith y byddwn yn gwybod mwy am y gyllideb a bod rhagor o waith datblygu polisi wedi'i wneud. Bydd y dadansoddiad economaidd annibynnol o gynigion y cynllun yn ystyried effeithiau posibl ar fusnesau fferm o wahanol fathau a maint, a bydd dadansoddiad cost a budd yn ystyried effaith economaidd cynigion y Papur Gwyn. Fodd bynnag, isod ceir rhywfaint o dystiolaeth rydym wedi'i hystyried.

Daeth tystiolaeth[106] ar bwysigrwydd busnesau bach i gydnerthedd cymunedau yn yr Alban i'r casgliad bod busnesau gwledig yn cyfrannu at feithrin cydnerthedd cefn gwlad yr Alban mewn ffyrdd uniongyrchol ac anuniongyrchol. Canfu'r dystiolaeth fod "*clear link between the activities of rural businesses and the resilience of rural communities",* sy'n gysylltiedig â chreu swyddi a darparu gwasanaethau/cynnyrch. Canfu hefyd y gall tyfu ac amrywio'r sector busnes preifat:

- Helpu i gynnal y boblogaeth o oedran gweithio mewn ardal leol, gan gyfrannu at y 'cydbwysedd demograffig' ac felly gefnogi darpariaeth gwasanaethau lleol (y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector);
- Defnyddio a datblygu adnoddau presennol gan gynyddu ansawdd bywyd a llesiant trigolion gwledig, gwneud lle yn fwy deniadol i dwristiaid a gwella cydlyniant cymunedol.

Mae adolygiad[107] o Orllewin Canolbarth Lloegr yn nodi pwysigrwydd cyfraniad busnesau bach at wydnwch economaidd cymunedau lleol "*local economies with higher levels of small businesses and local ownership perform better in terms of economic success, job creation (especially in disadvantaged and peripheral areas), local multiplier effect, social inclusion, income redistribution, health, well-being and civic engagement, than economies more dependent on centralised economic actors. Such economies also support local distinctiveness and diversity, which can be seen as being advantageous because these factors contribute to economic resilience".*

Gall ein cynigion ar gyfer cymorth i'r diwydiant a'r gadwyn gyflenwi ehangach gael effaith gadarnhaol ar fusnesau bach heblaw ffermydd hefyd, a bydd hyn yn ei dro o fudd i gymunedau gwledig. Rydym yn disgwyl gallu rhoi cymorth i'r diwydiant bwyd a choedwigaeth ehangach. Nid yw'n glir ar hyn o bryd pa lefel o gyllid fydd ar gael ar gyfer hyn felly ni allwn gynnal asesiad manwl o'r effaith ar fusnesau bach.

Gall ein cynigion ar gyfer cael gwared ar goed ynn heintiedig roi gwaith i fusnesau bach wrth gael gwared ar goed. Mae gan fusnesau fynediad at gynlluniau cyllid cyfalaf amrywiol hefyd i brynu offer arbenigol at y diben hwn, megis y Cynllun Buddsoddi Mewn Busnesau Pren a ariennir gan y Rhaglen Datblygu Gwledig, ac yn fwy diweddar drwy Gynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

[106] Steiner, A. ac Atterton, J. (2014). The contribution of rural businesses to community resilience. Local Economy, 29:3. t. 228-244.

[107] Leach, K. (2013). Community economic development: Localisation, the key to a resilient and inclusive local economy? *Local Economy*, *28*(7-8), 927-931.

- ***A yw'r cynnig yn dibynnu ar seilwaith fel cysylltiadau ffordd/rheilffordd da neu fand eang cyflym neu gysylltedd da ar gyfer ffonau symudol? Os ydyw, pa ddarpariaeth fydd yn cael ei gwneud i gymunedau/busnesau mewn ardaloedd gwledig mwy ynysig?***

Gan mai cynllun cymorth amaethyddol yw'r cynllun arfaethedig, nid yw'n cynnwys darpariaeth ar gyfer gwella band eang yng nghefn gwlad.

Fodd bynnag, mae gan Taliadau Gwledig Cymru brofiad o gyrraedd cwsmeriaid mewn ardaloedd gwledig mwy ynysig, a byddwn yn ymgorffori'r profiad hwn wrth lunio a darparu cynllun y dyfodol er mwyn helpu i oresgyn unrhyw rwystrau sy'n deillio o gysylltedd gwael.

- ***Er bod yr un rhesymau wrth wraidd tlodi mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol, gallai'r profiad o amddifadedd fod yn wahanol mewn ardaloedd gwledig. Tlodi tanwydd (gan gynnwys tanwydd gwresogi a thanwydd trafnidiaeth), tlodi mewn gwaith, mynediad at wasanaethau ac allgau digidol yw rhai o'r prif faterion sy'n cyfrannu at dlodi mewn ardaloedd gwledig. Sut mae eich cynnig yn helpu i drechu tlodi mewn ardaloedd gwledig?***

Rydym yn rhagweld y bydd y cynllun arfaethedig yn darparu ffrwd incwm ystyrlon i ffermwyr sy'n cymryd rhan ynddo.

Gall ein cynigion ar gyfer cymorth i'r diwydiant a'r gadwyn gyflenwi ehangach gael effaith gadarnhaol ar dlodi mewn ardaloedd gwledig drwy ddarparu cymorth i gynyddu cydnerthedd yn y diwydiant bwyd a choedwigaeth ehangach. Byddwn yn cynnal asesiad pellach o effaith unrhyw raglen unwaith y byddwn yn gwybod y sefyllfa o ran cyllid a bod gwaith datblygu polisi pellach wedi'i gwblhau.

- ***Pa gyswllt fu rhyngoch a rhanddeiliaid gwledig? Disgrifiwch yn fras unrhyw ddigwyddiadau sydd wedi'u targedu at randdeiliaid gwledig neu unrhyw ymgysylltu a fu rhyngoch chi a rhanddeiliaid gwledig er mwyn ymgynghori â hwy. A godwyd unrhyw faterion eraill yn sgil ymgysylltu â rhanddeiliaid neu unrhyw ymgynghoriad ynghylch y cynnig hwn? Os do, beth oedd y materion hynny a sut ydych chi wedi diwygio eich cynnig i'w cadw mewn cof?***

Rydym wedi cyhoeddi dau ymgynghoriad ar ein cynigion ar gyfer cynllun a rheoliadau'r dyfodol. Cyhoeddwyd y cyntaf o'r ddau ymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2018 dan y teitl *Brexit a'n Tir*[108]. Cyhoeddwyd crynodeb annibynnol, llawn gennym o'r ymatebion i'r

[108] Llywodraeth Cymru (2018). Ymgynghoriad Brexit a'n Tir.

ymgynghoriad[109]. Cyhoeddwyd ein hymateb i'r ymatebion i'r ymgynghoriad hefyd[110]. Yng ngoleuni'r ymarfer ymgynghori, gwnaethom nifer o newidiadau i'n cynigion polisi a gyhoeddwyd yn ein hail ymgynghoriad, *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*[111] ac fe'i cyhoeddwyd yn haf 2019. Cyhoeddwyd crynodeb annibynnol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw hefyd[112].

Ar draws yr ymgynghoriadau hyn rydym wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â ffermwyr a rhanddeiliaid gwledig eraill mewn sioeau amaethyddol rhanbarthol ac amrywiaeth o ddigwyddiadau pwrpasol i egluro a thrafod ein cynigion ymhellach.

Rydym wedi cynnal rhaglen o gydlunio. Cynhaliwyd y digwyddiadau ymgysylltu rhwng mis Mawrth a mis Hydref 2020. Bydd y safbwyntiau a gasglwyd yn cael eu coladu mewn adroddiad, a bydd fersiwn derfynol ohono ar gael i swyddogion Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2020. Caiff ei ddefnyddio i lywio'r gwaith o ddatblygu polisi ar gyfer cynllun y dyfodol.

Bu 1,900 a mwy o randdeiliaid ynghlwm wrth y rhaglen gydlunio i gyd, a ffermwyr oedd y mwyafrif llethol. Byddwn yn ymgysylltu ymhellach â'r diwydiant i helpu i lunio'r cynigion sy'n datblygu.

- ***Pa dystiolaeth y gwnaethoch ei defnyddio i lywio eich asesiad, gan gynnwys tystiolaeth gan bobl cefn gwlad neu eu cynrychiolwyr?***

Mae ein cynigion, a'n hasesiad ohonynt, wedi'u llywio gan yr ymatebion i'r ddau ymgynghoriad, a nodir uchod, yn ogystal â ffynonellau tystiolaeth eraill y cyfeirir atynt mewn troednodiadau.

- ***Pa dystiolaeth arall fyddai'n llywio'r asesiad?***

Mae'r gwaith datblygu polisi'n parhau, a byddwn yn ailystyried yr asesiad effaith hwn wrth i fanylion pellach gael eu datblygu. Isod ceir nifer o brosiectau a allai ddarparu cryn dipyn o wybodaeth ar gyfer y gwaith hwn:

- Y rhaglen gydlunio;
- Dadansoddiad economaidd annibynnol o'n cynigion;
- Dadansoddiad Cost a Budd;
- Ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn.

---

[109] Llywodraeth Cymru (2018). Brexit a'n Tir: Crynodeb o Ymatebion. https://llyw.cymru/cymorth-i-ffermwyr-cymru-ar-ol-brexit

[110] Llywodraeth Cymru (2018). Brexit a'n Tir: Ein Hymateb https://llyw.cymru/brexit-tir-ein-hymatebion

[111] Llywodraeth Cymru (2019). Ymgynghoriad Ffermio Cynaliadwy a'n Tir.

[112] Llywodraeth Cymru (2019). Ffermio Cynaliadwy a'n Tir: Crynodeb o Ymatebion. https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2020-11/crynodeb-o-ymatebion-ffermio-cynaliadwy.pdf

## D. ASESIAD O'R EFFAITH AR DDIOGELU DATA

Fel yr amlinellir yn y Papur Gwyn, rydym wedi gwneud cynigion i symleiddio'r broses o gasglu a phrosesu data ar amaethyddiaeth a'r gadwyn gyflenwi gysylltiedig. Rydym yn cynnig egluro'r prif resymau dros gasglu, rhannu a chysylltu data mewn deddfwriaeth.

Rydym yn cynnig hefyd y dylid dileu rhwystrau i rannu data rhwng rheoleiddwyr, gwerthuswyr a rheolwyr cynllun y dyfodol. Dylai hyn leihau'r baich adrodd a monitro ar ffermwyr a rheolwyr tir.

Rydym am sicrhau dilyniant hefyd drwy gadw'r gallu i brosesu data hanesyddol (sydd eisoes gan Lywodraeth Cymru) pan ddaw'r pwerau a ddefnyddiwn o Ddeddf Amaethyddiaeth y DU i ben.

Mae'r cynigion hyn yn debygol o arwain at brosesu gwybodaeth bersonol, ac felly mae angen Asesiad Llawn o'r Effaith ar Ddiogelu Data er mwyn:

- Disgrifio natur, cwmpas, cyd-destun a dibenion y prosesu;
- Asesu angenrheidrwydd, cymesuredd a mesurau cydymffurfio;
- Nodi ac asesu risgiau i unigolion; a
- Nodi unrhyw fesurau ychwanegol i liniaru'r risgiau hynny.

Rydym wedi dechrau'r broses o ymgynghori â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) ac rydym yn bwriadu gweithio gyda nhw i ystyried effeithiau ein cynigion yn llawn wrth iddynt ddatblygu.

Bydd yr ymarfer ymgynghori ar gyfer y Papur Gwyn yn llywio'r asesiad hwn, ac yn lliniaru unrhyw risgiau.

Bydd Asesiad Llawn o'r Effaith ar Ddiogelu Data yn cael ei gwblhau i'w ystyried cyn cyflwyno'r Bil.


## E. ASESIAD O’R EFFAITH AR Y GYMRAEG

*Cymraeg 2050* yw ein strategaeth genedlaethol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru yn llwyr ymroddedig i'r strategaeth newydd, gyda tharged o filiwn o siaradwyr wedi'i gynnwys yn ei Rhaglen Lywodraethu *Symud Cymru Ymlaen* ac yn *Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol*. Mae Cymraeg sy’n ffynnu yn un o'r 7 nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd.

Mae rhwymedigaeth statudol arnom i ystyried yn llawn effeithiau ein gwaith ar y Gymraeg hefyd. Mae hyn yn golygu y dylai unrhyw bolisi Llywodraeth Cymru ystyried sut mae ein polisïau'n effeithio ar yr iaith a'r rhai sy'n ei siarad.

Mae gan strategaeth *Cymraeg 2050* dair thema:




Mae'r penawdau o dan bob thema yn amlinellu’r gwahanol fathau o weithgareddau a allai effeithio ar yr iaith.

Yn gyffredinol, os gallai’ch polisi effeithio ar bobl, bydd yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg mewn rhyw ffordd ac felly ar y Gymraeg.

1. **Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (a gwblhawyd gan Dîm Safonau'r Gymraeg, e-bost: Safonau.Standards@llyw.cymru):**

**04/11/2020**

2. **A yw'r cynnig yn cysylltu'n glir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2017-2021?**

Mae 19% o bobl 3 oed a throsodd yn gallu siarad Cymraeg (Cyfrifiad, 2011). Mae siaradwyr Cymraeg ym mhob rhan o Gymru, ond mae'r niferoedd a'r gyfran o'r boblogaeth yn amrywio. Yr awdurdodau lleol sydd â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yw Gwynedd (65.4%), Ynys Môn (57.2%), Ceredigion (47.3%) a Sir Gaerfyrddin (43.9%). Mae'r awdurdodau lleol hyn i gyd yn wledig eu natur i raddau helaeth. Yr awdurdod lleol sydd â'r nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg yw Sir Gaerfyrddin (78,000), ac yna Gwynedd (77,000).

Mae *Cymraeg 2050* yn nodi bod ardaloedd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg yn ganolog i weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg oherwydd eu bod yn debygol o greu amodau ffafriol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg. Mwya'n byd yw nifer a chyfran y siaradwyr Cymraeg mewn ardal, mwya'n byd o gyfleoedd sydd i allu defnyddio'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd.

Mae canran y bobl 3 oed a throsodd sy'n gallu siarad Cymraeg wedi bod yn lleihau dros y ganrif ddiwethaf, gan ostwng o 43.5% o'r boblogaeth yn 1911 i 19.0% yn 2011. Ar draws grwpiau oedran, mae'r ganran sy'n gallu siarad Cymraeg ar ei huchaf ymhlith plant 5 i 15 oed.


Dengys Ffigur 1 fod cyfran y bobl tair oed a throsodd sy'n gallu siarad Cymraeg wedi gostwng ym mhob awdurdod lleol bron rhwng 2001 a 2011. Roedd y gostyngiadau mwyaf mewn ardaloedd â chyfrannau uwch o siaradwyr Cymraeg, ardaloedd gwledig yn aml.

Sir Gaerfyrddin welodd y gostyngiad mwyaf mewn pwyntiau canran – o 50.3% yn 2001 i 43.9% yn 2011, sy'n golygu y gallai llai na hanner y boblogaeth siarad Cymraeg erbyn 2011. Yn ogystal â Sir Gaerfyrddin, gwelodd awdurdodau lleol eraill yn y gorllewin (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Powys, Ceredigion, Sir Benfro, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot) ostyngiad o ddau bwynt canran neu fwy yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg. Roedd y gostyngiadau yng nghyfran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yn llai mewn awdurdodau yn nwyrain Cymru.

Mae'n bwysig nodi y gall newidiadau yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg gael eu hachosi gan gynnydd/gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg a chynnydd/gostyngiad yn nifer y di-Gymraeg.

Mewn llawer o'r awdurdodau lleol a welodd ostyngiad yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg, bu gostyngiad yn y cyfanswm hefyd.

**Ffigur 1. Canran y newid yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhwng 2001 a 2011**




Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 a Chyfrifiad 2011

(a) Cyflwynir ar gyfer AGEHI na newidiodd rhwng 2001 a 2011 yn unig

193.12-13

Technoleg a Daearyddiaeth

© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2013. Cedwir pob hawl.
Llywodraeth Cymru. Rhif Trwydded 100021874.


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Amaethyddiaeth a'r Gymraeg**


Er gwaethaf maint bach y sector (Ffigur 2a), 2% o'r holl weithwyr yng Nghymru, mae'n cyfrif am gyfran gymharol fwy o'r holl siaradwyr Cymraeg (5% o'r holl siaradwyr).

Y sector amaethyddol (gan gynnwys pysgota a choedwigaeth) sydd â'r gyfran uchaf o weithwyr sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru, sef 43%, a ddangosir yn Ffigur 2b hefyd. Mae hyn o'i gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer gweithwyr ar draws pob sector, sef 16.6%.

**Ffigur 2a.**




**Ffigur 2b.**





Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth, 2011

Gan edrych ar draws yr holl awdurdodau lleol, mae 86% o weithwyr amaethyddol yng Ngwynedd yn siarad Cymraeg o gymharu ag 1% yn Nhorfaen (Ffigur 3). Mae niferoedd yn amrywio hefyd ymhlith awdurdodau lleol mwy gwledig lle mae amaethyddiaeth yn ddiwydiant amlwg. Er enghraifft, mae 21% o weithwyr amaethyddol ym Mhowys yn siarad Cymraeg o gymharu â 72% yng Ngheredigion. Mewn llawer o achosion, yr awdurdodau lleol mwy gwledig hyn yw'r un ardaloedd a welodd mwy o ostyngiad yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg rhwng cyfrifiadau 2001 a 2011 (Ffigur 1).

Yn aml ceir cyfran uwch o siaradwyr Cymraeg yn y diwydiant amaethyddol mewn awdurdodau lleol gwledig sydd â chyfrannau uwch o siaradwyr Cymraeg ar draws y gweithlu cyfan hefyd (Ffigur 3). Fodd bynnag, mae tuedd i gyfran y siaradwyr Cymraeg mewn amaethyddiaeth fod yn uwch na'r gyfran ar gyfer yr holl weithwyr yn yr awdurdodau lleol hyn. Er enghraifft, mae cyfran uchel o gyfanswm y gweithlu yn Ynys Môn yn siarad Cymraeg (58%) ond mae cyfran y gweithwyr amaethyddol yn yr awdurdod lleol yn uwch (77%).

**Ffigur 3.**




Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth, 2011

Ceir amrywiad pellach o fewn awdurdodau lleol. Yng Ngwynedd mae gan bob Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is[113] sydd ag o leiaf 10 gweithiwr yn y sector amaethyddol fwyafrif sy'n gallu siarad Cymraeg. Yn Sir Fynwy mae gan bob Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is sydd ag o leiaf 10 gweithiwr yn y sector amaethyddol gyfraddau siarad Cymraeg sy'n is na chyfartaledd pob sector. Ym Mhowys, mae'r Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is yn dangos cyfraddau siarad Cymraeg ar draws yr amrediad o isel iawn i uchel iawn.

Mae 30 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru lle mae gweithwyr y sector amaethyddol sy’n siarad Cymraeg yn cyfrif am o leiaf 20% o'r holl weithwyr sy'n siarad Cymraeg. Mae'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is hyn ym Mhowys, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Conwy, Gwynedd a Sir Benfro.

**Amodau ffafriol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg**

Nid yw gallu siarad Cymraeg yn golygu bod pobl yn defnyddio'r iaith yn y gweithle o reidrwydd, am amryw o resymau. Archwiliodd Adroddiad Llywodraeth Cymru 'Anghenion o ran sgiliau Cymraeg mewn wyth sector'[114] y berthynas rhwng gallu Cymraeg, defnydd o’r Gymraeg ac anghenion cyflogwyr ar draws 8 sector yng Nghymru. Dyma’r canfyddiadau:

- Roedd gan 68% o fusnesau bwyd-amaeth (gan gynnwys amaethyddiaeth) staff â sgiliau Cymraeg o gymharu â 66% o bob busnes, a'r uchaf oedd gofal plant, â 94%;
- Dywedodd 34% o staff bwyd-amaeth yn y busnesau a holwyd fod ganddynt sgiliau Cymraeg, o gymharu â 24% o staff ar draws pob busnes, a'r uchaf oedd gofal plant â 66%;
- Roedd staff mewn busnesau bwyd-amaeth a chreadigol yn fwy tebygol o ddweud bod ganddynt lefel uchel o allu ieithyddol, ac roedd gan staff bwyd-amaeth lefel uchel o allu ar draws pob maes (darllen, ysgrifennu, siarad, deall);
- Mewn busnesau bwyd-amaeth, roedd staff yn defnyddio'r Gymraeg; dywedodd 19% o fusnesau fod gan staff allu yn y Gymraeg ond nad oeddent yn ei ddefnyddio, ar draws pob busnes roedd y ffigur hwn yn 31%;
- Lle'r oedd busnesau bwyd-amaeth yn defnyddio'r Gymraeg, roeddent yn ei defnyddio at ddibenion anffurfiol a ffurfiol, yn ysgrifenedig ac ar lafar. Roedd y busnesau hyn yn defnyddio'r Gymraeg i wneud busnes gyda phartneriaid allanol hefyd (cleientiaid, cwsmeriaid ac ati). Nid oedd hyn mor gyffredin mewn sectorau eraill ac mae'n

---

113 Mae Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) yn uned adrodd ystadegol lle mae gan bob un gyfanswm poblogaeth o tua 1,600 o bobl. Mae 1,909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru. Gellir ychwanegu'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is at gategorïau daearyddol eraill fel awdurdodau lleol, wardiau, etholaethau ac ati.

114 Llywodraeth Cymru (2014). Anghenion o ran sgiliau Cymraeg mewn wyth sector. Rhif y Prosiect: 47/2014.

awgrymu bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio fel mater o drefn mewn llawer o fusnesau bwyd-amaeth sydd â staff sy'n siarad Cymraeg.

Mae'r canlyniadau hyn yn darparu tystiolaeth bod busnesau bwyd-amaeth, gan gynnwys amaethyddiaeth, yng Nghymru yn darparu amodau ffafriol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg a bod hyn yn ymestyn y tu hwnt i ryngweithio sy'n digwydd o fewn y busnes. Ar gyfer ffermydd, bydd rhyngweithio sy'n digwydd y tu allan i'r busnes yn cynnwys masnachu anifeiliaid, porthiant, peiriannau ac ati. Ar gyfer y 43% o ffermydd [115] yng Nghymru sydd wedi arallgyfeirio i feysydd eraill (e.e. twristiaeth), gall y rhyngweithio busnes hwn fod yn digwydd mewn amrywiaeth ehangach o fusnesau hefyd.

**Cymraeg, amaethyddiaeth a'r gymuned leol**

Mae canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19 [116] yn awgrymu bod siaradwyr Cymraeg yn teimlo'n aml eu bod yn rhan o gymunedau cryf; roedd pobl a oedd yn cytuno bod ganddynt ymdeimlad o berthyn i'w cymuned yn fwy tebygol o siarad Cymraeg yn eu bywyd bob dydd o gymharu â'r rhai a oedd yn anghytuno. Mae ymdeimlad o berthyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â rhyngweithio ag aelodau eraill o'r gymuned hefyd, a gall y rhyngweithio hwn ddigwydd yn Gymraeg.

Mae gweithwyr amaethyddol Cymraeg eu hiaith a'u teuluoedd yn rhan o'u rhwydweithiau cymunedol lleol. Bydd rhai o'r rhwydweithiau hyn yn gysylltiedig ag amaethyddiaeth (e.e. grwpiau technegol, CFfI, sioeau amaethyddol), eraill ddim (e.e. cyngor lleol, plwyf, clybiau chwaraeon, grwpiau cymorth cymunedol), a bydd rhwydweithiau eraill yn llai ffurfiol (cyfeillgarwch, sgwrsio â chymdogion). Drwy gymryd rhan yn y rhwydweithiau hyn, mae gweithwyr amaethyddol Cymraeg eu hiaith a'u teuluoedd yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau anffurfiol.

**Y Gymraeg a'n cynigion**

Oherwydd y cysylltiadau a amlinellir uchod, mae gan newidiadau i strwythur y diwydiant amaethyddol sy'n arwain at bobl yn symud, boed i mewn neu allan o ardaloedd gwledig, y potensial i newid y cyfraniad y mae'r sector yn ei wneud at gydnerthedd y Gymraeg.

Mae Thema 3 strategaeth *Cymraeg 2050* yn rhoi pwyslais ar greu amodau ffafriol i'r Gymraeg oroesi a ffynnu, yn benodol gyda'r nod o 'Gefnogi seilwaith economaidd-gymdeithasol cymunedau Cymraeg eu hiaith’. Mae llawer o ardaloedd sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg yn rhai sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth, y sector cyhoeddus a

[115] Llywodraeth Cymru (2019). Incwm ffermydd yng Nghymru, Ebrill 2018 i Fawrth 2019.

[116] Llywodraeth Cymru (2020). Pa ffactorau sy’n gysylltiedig â phobl yn siarad Cymraeg? Rhif Ymchwil Gymdeithasol 27/2020.

thwristiaeth. Mae *Cymraeg 2050* yn nodi ei bod yn bwysig cynnal a meithrin cymunedau sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg.

Bydd cynigion y Papur Gwyn yn cefnogi *Cymraeg 2050* mewn **tair** ffordd allweddol yn bennaf.

Yn gyntaf, bydd y cynllun arfaethedig yn gwobrwyo ffermwyr am y canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy y maent yn eu cyflawni ar eu tir. Bydd gwneud hynny yn creu ffrwd incwm sefydlog ar gyfer ffermydd mewn cymunedau gwledig sy’n cymryd rhan yn y cynlllun. Ni fydd newidiadau mewn marchnadoedd nwyddau ehangach a'r amgylchedd masnachu yn effeithio ar y ffrwd incwm hon ac felly bydd yn helpu i greu cydnerthedd i fusnesau fferm a'r gymuned ehangach.

Bydd busnesau fferm cydnerth yn cyfrannu at greu gwaith i siaradwyr Cymraeg iau, nawr ac yn y dyfodol, ar ffermydd ac mewn busnesau lleol, a bydd hyn yn cefnogi'r diwydiant amaethyddol. Bydd hyn yn helpu i gadw pobl mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith.

Yn ail, bydd y cynllun arfaethedig, drwy fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy, yn cefnogi ffermwyr i reoli eu ffermydd mewn ffordd sy'n cynnal ac yn gwella gallu tir amaethyddol i gefnogi anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Bydd hyn yn helpu i gefnogi cydnerthedd hirdymor cymunedau gwledig Cymraeg eu hiaith drwy sicrhau bod modd parhau i ffermio'r tir yn y dyfodol.

Yn drydydd, bydd gwasanaeth cynghori yn cyd-fynd â'r cynllun arfaethedig i gynorthwyo ffermwyr i gydymffurfio â'r rheoliadau a chymryd rhan yn y cynllun. Gallai'r gwasanaeth hwn gael ei ddarparu mewn sawl ffordd, gan gynnwys ymweliadau fferm gan gynghorydd a chyfleoedd i ffermwyr rannu gwybodaeth. Bydd y gwasanaeth cynghori hwn yn cael ei ddarparu'n ddwyieithog, yn unol â Safonau'r Gymraeg ac i gefnogi *Cymraeg 2050.* Bydd hyn yn rhoi cyfle i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, ac yn fwy anffurfiol gyda chyfoedion, gan helpu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o’u bywyd bob dydd.

3. **Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac eglurwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y Gymraeg. Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg o bob oed (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)? Dylech nodi eich ymatebion i'r canlynol wrth ateb y cwestiwn hwn, ynghyd ag unrhyw wybodaeth berthnasol arall:**

- **Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg**[117] **(effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?**

Fel yr amlinellir yn Adran 2, mae amaethyddiaeth yn nodwedd allweddol o lawer o gymunedau gwledig Cymraeg. Bydd cynorthwyo ffermwyr i ddod yn fwy cynaliadwy yn gwella eu gallu i wrthsefyll heriau’r newid yn yr hinsawdd a newidiadau yn yr amgylchedd masnachu. Yn ogystal, drwy reoli eu tir mewn ffordd gynaliadwy, bydd ffermwyr yn helpu i ddiogelu hyfywedd ffermio yng Nghymru yn y dyfodol, gan gefnogi cydnerthedd cymunedau Cymraeg eu hiaith.

- **Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar addysg Gymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oed, gan gynnwys oedolion (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?**

Nid oes unrhyw effeithiau uniongyrchol ar addysg ond mae cynnal diwydiant amaethyddol ffyniannus yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr Cymraeg o bob oed ddefnyddio'r iaith a datblygu eu sgiliau Cymraeg o fewn diwydiant lle mae’r Gymraeg yn cael ei defnyddio fel y brif iaith gyfathrebu mewn sawl ardal.

- **Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar y gwasanaethau**[118] **sydd ar gael yn Gymraeg (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)? (e.e. iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, trafnidiaeth, tai, digidol, ieuenctid, seilwaith, amgylchedd, llywodraeth leol ac ati.)**

Mae'r cynnig yn cynnwys cynlluniau ar gyfer darparu gwasanaeth cynghori, wedi'i deilwra i gynorthwyo gyda’r gwaith o gyflawni canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Bydd y gwasanaeth hwn yn cael ei ddarparu'n ddwyieithog, yn unol â Safonau'r Gymraeg.

Mae cynigion ar gyfer y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn seiliedig ar yr egwyddor o'i gwneud yn glir i ffermwyr pa gamau sydd angen eu cymryd i gydymffurfio â rheoliadau. Mae'r cynigion hyn yn cynnwys datblygu cyngor a chanllawiau ar sut i gydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Caiff adnoddau fel hyn eu cyhoeddi yn Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg a bydd unrhyw wasanaethau'n cael eu darparu'n ddwyieithog.

---

[117] Gall y rhain fod yn gymunedau gwledig clos, rhwydweithiau cymdeithasol gwasgaredig mewn lleoliadau trefol, ac mewn cymunedau rhithwir sy'n ymestyn ar draws mannau daearyddol.

[118] Nod Strategaeth y Gymraeg yw cynyddu'r detholiad o wasanaethau a gynigir i siaradwyr Cymraeg, a gweld cynnydd yn y defnydd o wasanaethau Cymraeg.

Gwasanaeth cynghori presennol Llywodraeth Cymru i'r sector yw Cyswllt Ffermio. Trwy ei gylchlythyrau, digwyddiadau trosglwyddo gwybodaeth a chymorth wyneb yn wyneb, mae mewn cysylltiad rheolaidd â chyfran fawr o ffermwyr Cymru. Mae'r gwasanaeth a ddarperir drwy Cyswllt Ffermio yn mynd y tu hwnt i'r hyn a fyddai'n cael ei ystyried yn ddwyieithog fel arfer, gyda llawer o ddigwyddiadau a gweithgareddau'n cael eu darparu yn Gymraeg fel y brif iaith. Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar y gwasanaeth Cymraeg a ddarperir.

- **Sut y byddwch chi'n sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg ac yn gallu cael mynediad atynt a'u defnyddio mor rhwydd â gwasanaethau Saesneg? Pa dystiolaeth / data y gwnaethoch eu defnyddio i lywio eich asesiad, gan gynnwys tystiolaeth gan siaradwyr Cymraeg neu grwpiau â diddordeb yn y Gymraeg?**

Bydd yr holl fanylion sy'n ymwneud â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol arfaethedig a'r cynllun ar gael yn ddwyieithog. Wrth ymdrin â ffermwyr drwy Taliadau Gwledig Cymru ar-lein mae 7.51% o'r cysylltiadau wedi gofyn am gael cyfathrebu yn Gymraeg, ond nid yw hyn yn adlewyrchu lefel yr ymgysylltu yn Gymraeg; gyda llawer sydd wedi gofyn am ohebiaeth yn Saesneg yn troi'n ôl i'r Gymraeg wrth gael sgyrsiau wyneb yn wyneb neu dros y ffôn.

- **Pa dystiolaeth arall fyddai'n eich helpu i gynnal asesiad gwell?**

Hyd yma, mae dau ymgynghoriad *(Brexit a'n Tir* a *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*) wedi'u cwblhau ar ddyfodol cymorth amaethyddol yng Nghymru. Yn y naill a'r llall, gofynnwyd i ymatebwyr ystyried effaith ein cynigion ar y Gymraeg.

Cafodd *Brexit a'n Tir* (2018) 12,203 o ymatebion, 1,043 ohonynt yn sylweddol. O'r ymatebion hyn, barn gyffredin oedd y byddai cymunedau gwledig, heb sector amaethyddol ffyniannus, yn ei chael hi'n anodd cynnal eu hunain ac y byddai'r Gymraeg yn dioddef yn sylweddol. Pwysleisiodd ymatebwyr hefyd na fydd modd gwireddu gweledigaeth *Cymraeg 2050* heb economi wledig ffyniannus.

Cafodd *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir* (2019) 3,322 o ymatebion, ac roedd 508 ohonynt yn sylweddol. Fel gyda *Brexit a'n Tir*, roedd ymatebwyr yn bendant bod economi wledig gref yn hanfodol i'r Gymraeg, a bod amaethyddiaeth yn rhan hollbwysig o gymunedau gwledig. Nodwyd pryder felly y gallai unrhyw beth sy'n newid strwythur y sector amaethyddol effeithio ar y Gymraeg.

Gofynnodd adroddiad Cyswllt Ffermio '*Iaith y Pridd*[119]' i aelodau'r gymuned ffermio 'Sut all amaethyddiaeth gyfrannu at y nod o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050?'. Codwyd chwe thema, ac mae dwy ohonynt yn uniongyrchol berthnasol i'n cynigion:

---

[119] Cyswllt Ffermio (2020). Adroddiad Iaith y Pridd. https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/newyddion-digwyddiadau/adroddiadau/adroddiad-iaith-y-pridd-22092020

- Y system gymorthdaliadau – pwysleisiodd ymatebwyr fod taliadau sy'n cefnogi ffermydd teuluol yn galluogi teuluoedd i aros mewn ardaloedd gwledig a bod hynny wedyn yn cefnogi'r Gymraeg;
- Cefnogi gweithgarwch ar y tir – mynegwyd y farn y byddai symud i ffwrdd o reoli'r tir yn amaethyddol weithredol yn lleihau gweithgarwch yn yr economi wledig ehangach a byddai hyn wedyn yn arwain at ddirywiad y Gymraeg.

Rydym wedi cynnig y dylai'r cynllun fod ar gael i bob math o fferm a gwobrwyo dulliau gweithredol o reoli'r tir. Drwy wneud hynny, byddwn yn cefnogi busnesau fferm, yr economi ehangach ac yn helpu i gynnal cymunedau gwledig cydnerth sy'n siarad Cymraeg.

Rydym wedi cymryd rhan mewn rhaglen o gydlunio gyda ffermwyr a rheolwyr tir eraill a fydd yn helpu i ddatblygu elfennau ymarferol y cynllun. Bydd rhan o hyn yn cynnwys ystyried yr effaith bosibl ar y Gymraeg. Bydd canlyniadau'r gwaith hwn yn ychwanegu tystiolaeth bellach at ein hasesiad.

Mae gwaith dadansoddi pellach yn cael ei wneud i ganfod effaith economaidd ein cynigion ar lefel busnes fferm, sector a rhanbarthol. Bydd canlyniadau'r gwaith hwn yn bwysig ar gyfer asesu effaith bosibl y cynllun ar gymunedau gwledig, ac felly'r Gymraeg.

Bydd Cyfrifiad 2021 yn darparu rhagor o wybodaeth werthfawr am nifer y siaradwyr Cymraeg, gan gynnwys niferoedd mewn amaethyddiaeth.

Caiff yr asesiad effaith hwn ei adolygu'n barhaus wrth i'n cynigion polisi, a'r dystiolaeth sy’n sail iddynt, gael eu datblygu.

- **Sut y byddwch yn gwybod a yw eich polisi yn llwyddiant?**

Bydd strategaeth monitro a gwerthuso'n cyd-fynd â'r cynllun a'r rheoliadau amaethyddol arfaethedig i asesu i ba raddau y mae canlyniadau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol wedi eu gwireddu.

## F. ASESIAD O'R EFFAITH AR FIOAMRYWIAETH

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn cyflwyno nod 'Cymru Gydnerth': *'Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid hinsawdd).'*

Mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur Llywodraeth Cymru yn nodi ein huchelgais i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, oherwydd ei werth cynhenid, ac i sicrhau manteision parhaol i gymdeithas. Mae'n egluro sut y byddwn yn cyflawni ymrwymiadau Strategaeth Fioamrywiaeth yr UE a Chynllun Strategol ar gyfer Bioamrywiaeth Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol (CBD) a'r Targedau Bioamrywiaeth Aichi[120]cysylltiedig, i atal y dirywiad yn ein bioamrywiaeth erbyn 2020 ac yna gwrthdroi'r dirywiad hwnnw.

Yn *Symud Cymru Ymlaen 2016 - 2021* gosodwyd targed i *"barhau â'n gwaith i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau lleol*"[121]. Yn gysylltiedig â hyn, nodwyd gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yn *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*[122] fel un o'r tair her fwyaf arwyddocaol sy'n wynebu Cymru heddiw, ac fe'i nodwyd fel un o amcanion allweddol y cynigion yn y Papur Gwyn.

Y tu hwnt i'r gwerth cynhenid, mae mwy o fioamrywiaeth yn cyflwyno nifer o fanteision allweddol. Maent yn cynnwys:

- Cyfraniad bioamrywiaeth at gydnerthedd ecosystemau - mae bioamrywiaeth yn darparu nifer o wasanaethau ecosystemau ychwanegol megis gwasanaethau rheoleiddio a gwasanaethau darparu, sy'n allweddol i sicrhau bod sector ffermio Cymru yn parhau i fod yn gynaliadwy;
- Harddwch ac ymdeimlad o le tirwedd Cymru y mae'r sector twristiaeth yn dibynnu arno (rydym yn rhoi rhywfaint o fanylion am bwysigrwydd economaidd yr amgylchedd naturiol i dwristiaeth Cymru yn *Amaethyddiaeth yng Nghymru*[123]);
- Llesiant personol drwy gysylltiad â natur[124].

---

[120] Mae'r Confensiwn Amrywiaeth Fiolegol (CBD) a'r Targedau Bioamrywiaeth Aichi cysylltiedig, ar gyfer y cyfnod 2011-2020, yn darparu fframwaith trosfwaol ar fioamrywiaeth ar gyfer gwledydd sy'n rhan o'r Cenhedloedd Unedig.

[121] Llywodraeth Cymru (2016). Symud Cymru Ymlaen 2016-2021. Tud. 6

[122] Llywodraeth Cymru (2019). Ymgynghoriad Ffermio Cynaliadwy a'n Tir. Tud. 5

[123] Llywodraeth Cymru (2019). Amaethyddiaeth yng Nghymru.

[124]Sefydliad Iechyd Meddwl a WWF-UK (2020). Thriving with Nature. A Guide for Everyone.https://www.mentalhealth.org.uk/sites/default/files/Thriving-With-Nature-compressed.pdf

Lluniwyd y polisi hwn i gyd-fynd ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, fel y nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

**Ymwreiddio bioamrywiaeth**

1. **Sut y bydd eich cynnig yn integreiddio bioamrywiaeth i'r broses o wneud penderfyniadau?**

Mae ein cynigion yn mynd i'r afael yn benodol â'r angen i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a chynyddu lefelau cydnerthedd ecosystemau.

Mae'r Papur Gwyn yn amlinellu ein dull o gefnogi a rheoleiddio amaethyddiaeth yn y dyfodol gan ddefnyddio'r fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy fel sail ar gyfer ariannu ac mae'n cynnig y gall Gweinidogion ariannu lefelau cynyddol o fioamrywiaeth ar ffermydd i gynorthwyo gyda gweithredu egwyddorion Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Bydd unrhyw gynllun yn y dyfodol yn gwobrwyo ffermwyr am gyflawni canlyniadau sy'n gyson â Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

Mae disgwyl y bydd canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau, yn hytrach na thalu am fewnbynnau, yn helpu i gynnwys bioamrywiaeth wrth wneud penderfyniadau ar ffermydd. Yn ogystal, bydd ein cynnig ar gyfer un system o gymorth i ffermydd yn helpu i sicrhau bod cynaliadwyedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn cael ei ystyried yn ei gyfanrwydd.

Mae'r adolygiad a gomisiynwyd gennym (*Adeiladu Gwytnwch Ecosystem ar Dir Ffermio Wedi'i Wella*[125]) wedi darparu tystiolaeth ar effeithiolrwydd gwahanol ymyriadau rheoli wrth gynyddu bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau.

Wrth i gynigion y cynllun ddatblygu, byddwn yn ystyried sut y gellir defnyddio ein gallu modelu (Y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd (ERAMMP)[126]) a thystiolaeth arall i nodi cyfleoedd i gynyddu bioamrywiaeth ar ffermydd. Bydd hyn yn cynnwys ystyried risgiau / manteision cymharol i fioamrywiaeth yn sgil unrhyw newid yn y defnydd o dir.

Mae'r cynigion coedwigaeth yn ceisio gwella'r rheoliadau a'r prosesau presennol sy'n effeithio ar y ffordd y caiff coetiroedd eu creu a'u rheoli yng Nghymru, gan gyfrannu felly at gynllun Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd drwy greu llawer mwy o goetiroedd, a rheoli mwy o goetiroedd presennol mewn ffordd gynaliadwy.

---

[125] Keenleyside, C.B. et al. (2020). Adroddiad y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd-25: Atodiad 4B Tir wedi'i Wella. Adroddiad i Lywodraeth Cymru (Contract C210/2016/2017)(UKCEH 06297)

[126] Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig. https://erammp.wales/cy

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sy'n gyfrifol am reoli cwympo coed ac ailblannu coetiroedd, Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer creu coetiroedd newydd, datgoedwigo, traciau coedwig/chwareli, a gwirio cynlluniau Creu Coetir Glastir drwy rôl reoleiddio'r corff.

Bydd y cynigion hyn yn cynyddu gallu CNC i roi ei amcanion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy ar waith mewn perthynas â chreu coetiroedd a rheoli coetiroedd yn gynaliadwy.

2. **A yw eich cynnig wedi sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei hystyried fel rhan o benderfyniadau busnes?**

Mae ein cynigion yn cynnwys cynlluniau ar gyfer un cynllun cymorth ar gyfer ffermwyr a rheolwyr tir eraill. Bydd un cynllun cymorth yn golygu bod bioamrywiaeth yn cael ei hystyried yn gyfannol ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd yn gynaliadwy er mwyn cynyddu cynaliadwyedd y busnes fferm cyfan.

Bydd llawer o gamau gweithredu a allai gyflawni canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn sicrhau arbedion cost (e.e. cynlluniau rheoli maethynnau yn arwain at lai o fewnbynnau) yn ogystal â manteision bioamrywiaeth. Bydd hyn yn helpu ffermwyr i gynnwys y penderfyniadau hyn wrth gynllunio'u busnes.

Wrth i ni ddatblygu ein cynigion ar gyfer cynllun y dyfodol byddwn yn ystyried sut y gall ymyriadau posibl gyflawni nifer o ganlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Rydym wedi comisiynu ymgynghorwyr economaidd amgylcheddol, fel rhan o gonsortiwm y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd, i lunio cyfres o gadwyni rhesymeg ar gyfer canlyniadau allweddol Rheoli Tir yn Gynaliadwy, gan gynnwys bioamrywiaeth, a fydd yn archwilio'r berthynas hon yn rhannol.

3. **Sut y mae eich cynnig yn gwella dealltwriaeth ac yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth, gan annog eraill i weithredu?**

Mae cynigion ar gyfer y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn nodi llinell sylfaen reoleiddiol sy'n cynnal y safonau amgylcheddol presennol ac sy'n cynnwys amddiffyniadau ychwanegol ar gyfer pridd. Fel y nodir yn ein Hasesiadau o'r Effaith ar Adnoddau Naturiol a'r Newid yn yr Hinsawdd, disgwylir i'r cynigion hyn wella bioamrywiaeth. Yn ei dro, dylai cynnydd mewn bioamrywiaeth ddarparu gwasanaethau ecosystem sydd o fudd i ffermwyr. Dylai cyngor a chanllawiau amlinellu'r budd hwn o ran costau i berchnogion busnes.

Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol hyn fydd y porth i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae'r cynigion ar gyfer cynllun y dyfodol yn cynnwys cynyddu bioamrywiaeth ar lefel fferm a chydnerthedd cynefinoedd ehangach. Bydd busnesau fferm yn cael eu gwobrwyo am gyflawni canlyniadau sy'n gyson â'r nod hwn.

Bydd cynllun y dyfodol yn seiliedig hefyd ar yr egwyddor y dylai ffermwyr gael cymorth a hyfforddiant lle bo angen i gyflawni'r camau gweithredu yn y cynllun ac i gefnogi'r fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

Wrth i'n cynigion ddatblygu, byddwn yn ystyried y ffordd orau o gynorthwyo busnesau fferm drwy gyngor, DPP a hyfforddiant i gynyddu lefelau amrywiaeth ar ffermydd a chydnerthedd ecosystemau.

Mae'r cynigion yn y Papur Gwyn yn bwriadu cefnogi mynediad cyhoeddus i dir fferm at ddibenion hamdden neu addysgol hefyd. Dylai mynediad parhaus i dir Cymru annog cymdeithas yn ehangach i ymgysylltu â bioamrywiaeth, a'r angen i'w diogelu a'i gwella.

**<u>Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro</u>**

4. **A ydych chi wedi defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael o fioamrywiaeth i lywio eich cynnig a'r asesiad hwn?**

Mae ein pecyn tystiolaeth *Amaethyddiaeth yng Nghymru*[127] yn crynhoi'r dystiolaeth o Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol CNC, ac mae'r adroddiad wedi llywio ein blaenoriaethau. Casgliad cyffredinol yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yw bod *"pob ecosystem yn profi problemau ag un neu fwy o'r elfennau sy'n cyfrannu at ei chydnerthedd. Gallai hynny beryglu ei gallu i ddarparu gwasanaethau a buddiannau ecosystem. Ni ellir dweud bod gan yr un ecosystem, ar sail ein hasesiad, yr holl elfennau sydd eu hangen arni i fod yn gydnerth".* Bydd cynllun y dyfodol a'r diwygio rheoleiddio arfaethedig yn cyfrannu at atal a gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth tir fferm a meithrin ecosystemau cydnerth.

Dengys dadansoddiad o ddata[128] o'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, mewn perthynas â bioamrywiaeth:

- Bod cyflwr y tir (fel y'i mesurir gan ddangosyddion planhigion sy'n arwydd o gyflwr da) wedi gwella yn y cyfnod diweddaraf ar gyfer mynydd, rhostir a gweundir a choetir ar ôl aros yn sefydlog dros y tymor hir;
- Bod cyflwr glaswelltir lled-naturiol wedi gwella'n ddiweddar ac yn y tymor hwy;
- Ni fu unrhyw newid yng nghyflwr cynefinoedd âr na glaswelltir wedi'i wella;
- Bod cyfoeth rhywogaethau planhigion wedi cynyddu mewn glaswelltir wedi'i wella, glaswelltir lled-naturiol a mynydd, rhostir a gweundir yn y cyfnod diweddar ac wedi aros yn sefydlog mewn coetiroedd;
- Ar gyfer glaswelltir lled-naturiol, bod y cynnydd diweddar mewn cyfoeth rhywogaethau planhigion yn seiliedig ar duedd mwy hirdymor;
- Ni fu unrhyw newid o ran cyfoeth rhywogaethau cynefinoedd âr.

[127] Llywodraeth Cymru (2019). Amaethyddiaeth yng Nghymru.

[128] Smart, S.M, et al. (2019) Adroddiad y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd 22: Canolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol. Adroddiad i Lywodraeth Cymru (Contract C210/2016/2017)(CEH NEC06297).

Mae ein hadolygiad o dystiolaeth y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd wedi cynnwys Adolygiad o Gyfraniad Cofnodion Rhywogaethau a gedwir gan Ganolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol yng Nghymru[129].

Mae'r Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd hefyd wedi cynhyrchu adolygiadau tystiolaeth manwl[130] i lywio cynllun y dyfodol, gan gynnwys ar y materion canlynol sy'n berthnasol i fioamrywiaeth:

- Rheoli maethynnau pridd;
- Rheoli porfa;
- Cydnerthedd ecosystemau;
- Rheoli perygl llifogydd;
- Dull systemau o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr;
- Gwella ansawdd aer.

5. **A ydych wedi defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf am yr effeithiau allweddol ar fioamrywiaeth i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth?**

Rydym wedi comisiynu adolygiadau tystiolaeth[131] o effeithiau allweddol amaethyddiaeth ar fioamrywiaeth, ac wedi ystyried y dystiolaeth o ran ymyriadau ar lefel fferm i gefnogi bioamrywiaeth. Bydd hyn, a thystiolaeth arall, yn llywio cynigion polisi wrth iddynt ddatblygu.

6. **A all eich cynnig gyfrannu at ein corff o wybodaeth am fioamrywiaeth?**

Bydd cynlluniau'r dyfodol yn cael eu monitro a'u gwerthuso drylwyr a bydd y canfyddiadau ar gael i'r cyhoedd.

**<u>Llywodraethiant a chymorth i weithredu ar fioamrywiaeth</u>**

7. **A all eich cynnig gefnogi gweithredu ar fioamrywiaeth mewn unrhyw ffordd?**

Bydd ein cynigion ar gyfer y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn gosod llinell sylfaen reoleiddiol gadarn y gellir ei gorfodi sydd â manteision niferus i fioamrywiaeth.

Bydd cynllun y dyfodol yn adeiladu ar yr amddiffyniadau a ddarperir gan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol i ariannu'r gwaith o sicrhau manteision bioamrywiaeth ychwanegol. Mae ein cynigion ar gyfer cynllun y dyfodol yn cynnwys gwobrwyo busnesau fferm yn benodol er

[129] Smart, S.M, et al. (2019) Adroddiad y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd 22: Canolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol. Adroddiad i Lywodraeth Cymru (Contract C210/2016/2017)(CEH NEC06297).

[130] Gellir gweld Adolygiadau Tystiolaeth y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd yn https://erammp.wales/cy/cynllun-ffermio-cynaliadwy-sfs-adolygiad-pecyn-tystiolaeth-2019

[131] Keenleyside, C.B., et al. (2019). Atodiad 4: Adeiladu cadernid yr ecosystem. Adroddiad y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd i Lywodraeth Cymru (Contract C210/2016/2017) (CEH NEC06297).

mwyn sicrhau canlyniadau bioamrywiaeth, ochr yn ochr â chanlyniadau amgylcheddol eraill, i gefnogi Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

Mae ein cynigion ar gyfer cynllun y dyfodol yn cynnwys y cyfle i ffermwyr gydweithio a chydweithredu ar raddfa tirwedd ehangach hefyd (er enghraifft graddfa dalgylch) i sicrhau canlyniadau amgylcheddol, gan gynnwys bioamrywiaeth, ar raddfa ehangach.

8. **A all eich cynnig helpu i ddatblygu capasiti ar gyfer gweithredu ar fioamrywiaeth?**

Rydym am sicrhau bod gan ein diwydiant amaethyddol y wybodaeth gywir am arloesedd er mwyn gallu gwella cynhyrchiant a chydnerthedd busnesau dros y tymor hir. I'r perwyl hwn, rydym yn cynnig gweithio'n agos gyda sefydliadau academaidd a cholegau i nodi'r gwaith ymchwil mwyaf priodol, megis systemau a thechnegau hwsmonaeth, cnydio a da byw arloesol. Gellid datblygu'r sgiliau hyn mewn sawl ffordd wahanol, gan gynnwys cyngor arbenigol, ymarfer trosglwyddo gwybodaeth a digwyddiadau arddangos ar ffermydd. Yr hyn sy'n bwysig yw ein bod ni am sicrhau hefyd bod hyfforddiant sgiliau, arloesedd a chymorth cyfalaf yn gwbl gydgysylltiedig i alluogi ffermwyr a choedwigwyr i fabwysiadu'r dechnoleg a'r technegau cywir i wella cydnerthedd eu busnes.

9. **A ydych chi wedi cofnodi penderfyniadau a chamau gweithredu i gynnal a gwella bioamrywiaeth?**

Mae ein cynigion yn gyson â'n dyletswydd Adran 6 a gallent gyfrannu at unrhyw adroddiadau ar ein dyletswydd Adran 6 a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru.

**<u>Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd pwysig iawn</u>**

10. **A gydymffurfir â'r holl ddeddfwriaeth i sicrhau bod rhywogaethau a chynefinoedd morol a daearol yn cael eu diogelu?**

Mae egwyddorion ar gyfer dyluniad cynllun y dyfodol yn canolbwyntio'n rhannol ar ddiogelu bioamrywiaeth a chynefinoedd. Bydd angen i unrhyw fusnes fferm sy'n dymuno cymryd rhan yng nghynllun y dyfodol gydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol. Bydd unrhyw ofyniad am drwyddedau, monitro/gorfodi yn cael ei ystyried a'i weithredu i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â deddfwriaeth.

Bydd ein cynigion i ddiwygio’r drefn reoleiddio ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru yn helpu i sicrhau bod rhywogaethau mewn cynefinoedd yn cael eu diogelu hefyd. Rydym yn bwriadu datblygu ac ymgynghori ymhellach ar y cynigion hyn. Rydym yn cynnig y dylent gynnwys Safonau Gofynnol Cenedlaethol clir, yn seiliedig ar gyfuno'r gofynion cyfreithiol presennol yn ogystal â chynigion i gadw’r amddiffyniadau ar gyfer pridd a nodweddion tirwedd sydd wedi'u cynnwys o dan ofynion Trawsgydymffurfio ar hyn o bryd. Mae ein cynigion yn cynnwys gwelliannau i'r ffordd y caiff cydymffurfiaeth â’r rheoliadau ei monitro a'i gorfodi hefyd. Er mwyn bod yn deg, rydym yn cynnig y dylai'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol fod yn berthnasol i bob ffermwr, p'un a ydynt yn cael cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru ai peidio.

Bydd ein cynigion coedwigaeth yn sicrhau ein bod yn cadw'r pŵer i reoli trothwyon ar gyfer cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, ond nid yw'n cynnig unrhyw newid i'r trothwy Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol presennol o bum hectar. Mae defnyddio'r cyfle hwn i gadw pŵer sydd gennym ar hyn o bryd yn cadw'r *status quo*, ac mae'n osgoi'r angen am newid deddfwriaethol costus sy'n cymryd llawer o amser yn y dyfodol.

Rydym wedi ymrwymo i gynnal ymgynghoriad cyn cyflwyno unrhyw newidiadau i'r trothwyon ar gyfer Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Bydd hyn yn caniatáu i'r risgiau gael eu hystyried yn ofalus, ac yn y pen draw gallai arwain at fwy o ffocws ar ddiogelu cynefinoedd â blaenoriaeth.

Nid yw'n ofynnol cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, Asesiad Amgylcheddol Strategol nac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gynigion y Papur Gwyn ar hyn o bryd ond bydd hyn yn cael ei ailystyried pan fydd cynlluniau wedi'u datblygu.

### 11. A yw'r cynnig yn ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth yn y lle cyntaf?

Mae'r cynigion ar gyfer cymorth i amaethyddiaeth a rheoleiddio amaethyddiaeth yn y dyfodol yn bwriadu mynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth, a chynyddu cydnerthedd ecosystemau. Er mwyn gwneud hyn, mae angen cynnal a gwella bioamrywiaeth.

Bydd cynigion y Papur Gwyn yn cynorthwyo i gynyddu'r ddarpariaeth o gynefinoedd gweithredol drwy welliannau ar raddfa eang yng nghyflwr, amrywiaeth a gwydnwch ecolegol cynefinoedd lled-naturiol, coetiroedd fferm a choed a gwrychoedd eraill ar dir fferm.

Rydym wedi cynnal amrywiaeth o adolygiadau o dystiolaeth (Keenleyside et al[132]) sydd wedi dangos, ar gyfer glaswelltir wedi'i led-wella (a allai fod o werth sylweddol, er enghraifft, fel cynefin ar gyfer amrywiaeth o rywogaethau cyffredin ond sy'n dirywio, megis y ddrudwen, y siglen felen a'r gornchwiglen), fod lle i wneud gwelliannau cadwraeth cymharol syml a phwysig (gan gynnwys cysylltedd) o ganlyniad i gymhwyso ymyriadau sy'n briodol ar gyfer tir lled-naturiol, heb fod angen gwaith adfer cynefinoedd dwys. O ystyried bod tua 20% o Gymru yn laswelltir lled-naturiol[133], a bod dros 88% o'r tir yn amaethyddol[134], mae cynllun y dyfodol yn cynnig y potensial i wella bioamrywiaeth ar hyd a lled Cymru.

Byddai ein cynigion coedwigaeth yn caniatáu i Cyfoeth Naturiol Cymru ychwanegu amodau neu ddiwygio trwyddedau cwympo coed er mwyn sicrhau bod cwympo coed yn digwydd yn gynaliadwy. Ar hyn o bryd ni all Cyfoeth Naturiol Cymru osod amodau ar drwyddedau cwympo coed er mwyn sicrhau integredd safleoedd gwarchodedig, rhywogaethau a warchodir neu 'dderbynyddion amgylcheddol' sensitif eraill. Byddai'r cynigion yn cyflwyno sancsiynau sifil ar gyfer cwympo Coetir Hynafol a Lled-Naturiol (ASNW) yn anghyfreithlon

[132] Keenleyside, C.B., et al. (2019). Atodiad 4: Adeiladu cadernid yr ecosystem. Adroddiad y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd i Lywodraeth Cymru (Contract C210/2016/2017) (CEH NEC06297).

[133] Arolwg Cefn Gwlad (2007) https://countrysidesurvey.org.uk/sites/default/files/CS-Wales-Results2007-Chapter03.pdf

[134] tir fferm a thir comin. Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2019). Amaethyddiaeth yng Nghymru.

hefyd. Mae'r coetiroedd hyn yn cael eu cydnabod yn eang fel adnodd naturiol anadferadwy na ellir byth ei ail-greu.

Bydd y cynigion yn caniatáu hefyd i dirfeddianwyr gwympo eu coed sydd â chlefyd coed ynn os oes perygl gwirioneddol ac uniongyrchol o dan esemptiad penodol i'w ychwanegu at *Ddeddf Coedwigaeth 1967*. Mae rhai coetiroedd ynn yn rhan o gynefin sy'n llawn rhywogaethau gyda'r coed yn aml yn cynnwys cymunedau epiffyt pwysig o fwsoglau, llys yr afu a chen yn aml. Nid bwriad y cynnig hwn yw caniatáu i goed ynn gael eu dileu'n llwyr o'r ecosystemau llawn bioamrywiaeth hyn, a dyna pam y mae'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar y coed ynn sy'n achosi pherygl gwirioneddol ac uniongyrchol. Mae mwy o gwympo y tu hwnt i'r categori hwn yn cyfrif fel gwaith rheoli coetiroedd ac mae hynny'n dod o dan system trwyddedau cwympo coed Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n ystyried Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd a thrwyddedau rhywogaethau a warchodir gan y DU neu Ewrop.

**<u>Cynyddu cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol</u>**

**12. A yw eich cynnig yn cyfrannu at ddatblygu cydnerthedd ein hecosystemau?**

Mae cynyddu cydnerthedd ecosystemau yn un o'r prif nodau ar gyfer cynllun y dyfodol. Bydd cyfleoedd i ffermydd gydweithio a chydweithredu i wireddu canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy ar raddfa tirwedd neu ddalgylch. Bydd cydnerthedd ecosystemau yn cael ei wella drwy adeiladu rhwydweithiau cryfach o gynefinoedd a hyrwyddo cysylltedd. Mae tystiolaeth yn dangos y byddai'r camau gweithredu canlynol[135] sy'n gyson â Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn helpu i hyrwyddo cysylltedd cynefinoedd ar raddfa tirwedd:

- Gwella cyflwr safleoedd drwy reoli da i wella cysylltedd a ffitrwydd poblogaethau o fewn llain;
- Cynyddu maint lleiniau cynefin;
- Datblygu lleiniau clustogi o amgylch lleiniau;
- Ehangu cynefin i uno lleiniau â'i gilydd;
- Datblygu cerrig sarn rhwng lleiniau;
- Datblygu coridorau;
- Gwella cyflwr tir rhwng lleiniau cynefin er mwyn cynyddu hydreiddedd;
- Gwella maint a chyflwr nodweddion tirwedd megis gwrychoedd, ymylon caeau a chyrsiau dŵr;
- Datblygu rhwydweithiau o gynefinoedd; ac
- Annog ardaloedd di-dor mawr o gynefin ar raddfa tirwedd.

[135] Latham J., Sherry J. a Rothwell J. (2013) *Ecological Connectivity and Biodiversity Prioritisation in the Terrestrial Environment of Wales*. Adroddiad Gwyddoniaeth Staff CCGC Rhif. 13/3/3.

### 13. A yw eich cynnig yn cyfrannu at greu cynefin newydd?

Mae ein cynigion i gynnal nodweddion tirwedd sy'n darparu cynefinoedd pwysig i fywyd gwyllt ar bob tir amaethyddol ledled Cymru yn ychwanegu amddiffyniadau ar gyfer y cynefinoedd hyn a allai gael eu colli fel arall. Byddai hyn yn darparu llinell sylfaen y gallai'r cynllun ddatblygu cynefinoedd ychwanegol arni. Mae'r sail dystiolaeth ar gyfer camau gweithredu gwahanol a allai fod yn rhan o gynlluniau'r dyfodol (Keenleyside et al)[136] yn awgrymu bod angen creu neu adfer cynefin ar dir wedi'i led-wella a thir wedi'i wella er mwyn cynyddu cydnerthedd rhwydweithiau cynefinoedd yng Nghymru. Mae adfer a chreu yn elfennau hanfodol o reoli cynefinoedd lled-naturiol ar raddfa tirwedd.

**<u>Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd</u>**

### 14. A fydd y cynnig yn achosi unrhyw effeithiau negyddol i gynefinoedd neu rywogaethau?

Ni ddisgwylir y byddai'r cynigion rheoleiddiol na'r egwyddorion ar gyfer cynllun y dyfodol yn arwain at effeithiau negyddol ar gynefinoedd na rhywogaethau. Lle gallai defnydd tir newid o ganlyniad i fod yn rhan o unrhyw gynllun yn y dyfodol, byddai angen ystyried risgiau/costau/manteision cymharol i fioamrywiaeth o ganlyniad i'r newid hwnnw.

### 15. A gydymffurfiwyd â'r holl ddeddfwriaeth sy’n ymwneud â'r pwysau ar rywogaethau a chynefinoedd?

Mae cynigion ar gyfer datblygu set o Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn bwriadu cynnal safonau amgylcheddol presennol sy'n sail i Drawsgydymffurfio sy'n cynnwys deddfwriaeth sy'n cyfyngu ar lygredd amaethyddol yn ogystal â mesurau sy'n cyfrannu at liniaru ac addasu i’r newid yn yr hinsawdd, fel y disgrifir yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Newid yn yr Hinsawdd. Bydd yr elfennau uchod yn cael eu hystyried wrth ddatblygu'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ogystal â rheoliadau ar gyfer coedwigaeth ac iechyd a lles anifeiliaid. Caiff y safonau hyn eu hadolygu yn unol â thueddiadau rhywogaethau a chynefinoedd drwy gydol y broses monitro a gwerthuso er mwyn sicrhau bod y polisi'n cydymffurfio â'r gofynion hyn.

### 16. Sut y bydd unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu lliniaru?

Mae ein cynigion yn cynnwys y bwriad i gyflwyno un system gymorth ar gyfer amaethyddiaeth a gefnogir gan set gadarn o Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Telir taliadau am ganlyniadau sy’n mynd y tu hwnt i’r llinell sylfaen reoleiddiol a ddiffinnir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol, a rhaid sicrhau cydymffurfiaeth â’r rheoliadau er mwyn cael taliadau. Bydd hyn yn annog dull system gyfan o gynyddu cynaliadwyedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd busnesau fferm yng Nghymru. Drwy ddefnyddio dull o'r fath,

[136] Keenleyside, C.B., et al. (2019). Atodiad 4: Adeiladu cadernid yr ecosystem. Adroddiad y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a’r Amgylchedd i Lywodraeth Cymru (Contract C210/2016/2017) (CEH NEC06297).

bydd effaith penderfyniadau busnes yn cael ei hystyried yn gyfannol ar draws y fferm, a'r tir sy'n cael ei reoli. Dylai hyn helpu i leihau effeithiau negyddol anfwriadol.

Ystyrir effaith ein cynigion ar lygredd a'r newid yn yr hinsawdd yn yr Asesiadau o'r Effaith ar y Newid yn yr Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol.

Mae tystiolaeth[137] yn dangos bod pryder cynyddol wedi bod ynghylch statws poblogaeth pryfed peillio, ac yn ei dro y gwasanaeth peillio y maent yn ei ddarparu. Mae'r prif fygythiadau i bryfed peillio yn cynnwys colli cynefinoedd, llygredd amgylcheddol, y newid yn yr hinsawdd a lledaeniad rhywogaethau estron. Mae adolygiad yn 2015 yng nghyd-destun statws gloÿnnod byw'r DU yn awgrymu y gallai'r newid yn yr hinsawdd fod yn fwy o fygythiad i rywogaethau'r DU nag a sylweddolwyd yn flaenorol [138].

Bydd ein cynigion ar gyfer set o Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn seiliedig ar reoliadau presennol ynghyd â deddfwriaeth ychwanegol ar briddoedd a nodweddion tirwedd yn cynnig manteision i bryfed peillio drwy (nid yw'r rhestr hon yn cynnwys pob un dim):

- Cadw amddiffyniadau ar gyfer nodweddion tirwedd fel gwrychoedd sy'n caniatáu cynefin y mae pryfed peillio yn dibynnu arno;

- Cynnal deddfwriaeth ar God Ymarfer statudol cynhyrchion diogelu planhigion a wnaed o dan adran 17 o Ddeddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985 a Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion (Defnydd Cynaliadwy) 2012 sy'n rheoli'r defnydd o gynhyrchion diogelu planhigion gan sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n gywir i ddiogelu'r amgylchedd;

- Cynnal Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) Cymru, gan ddiogelu'r cynefinoedd lled-naturiol sy'n cynnal pryfed peillio.

Bydd llunio cynllun yn seiliedig ar Reoli Tir yn Gynaliadwy yn mynd i'r afael â rhai o'r heriau sy'n wynebu pryfed peillio gan gynnwys colli cynefinoedd, llygredd amgylcheddol a'r newid yn yr hinsawdd. Byddai llawer o gamau gweithredu sy'n gyson â Rheoli Tir yn Gynaliadwy o fudd i bryfed peillio hefyd. Er enghraifft:

- Lleihau gwrteithiau artiffisial;
- Lleihau'r defnydd o blaladdwyr drwy reoli plâu'n integredig;
- Amaeth-goedwigaeth;
- Plannu glaswelltir a dolydd llawn rhywogaethau gwahanol (fel tir pori parhaol ac fel rhan o system gylchdro); a

[137] Potts, S. G., Biesmeijer, J. C., Kremen, C., Neumann, P., Schweiger, O., a Kunin, W. E. (2010). Global pollinator declines: trends, impacts and drivers. Trends in ecology & evolution, 25(6), 345-353.

[138] Fox, R., Brereton, T., Asher, J., August, T., Botham, M., Bourn, N., Cruickshanks, K., Bulman, C., Ellis, S., Harrower, C. a Middlebrook, I., (2015). The State of the UK's Butterflies 2015.

- Chreu coridorau bywyd gwyllt, stribedi pryfed peillio a banciau chwilod mewn caeau.

Mae cynnal a chreu cynefinoedd yn ddibenion allweddol ar gyfer cynllun y dyfodol, a byddai o fudd pellach i bryfed peillio. Gallai hyn gynnwys plannu coed/rheoli coetiroedd, creu a chynnal a chadw gwrychoedd ac adfer/cynnal cynefinoedd pwysig fel afonydd, nentydd a phyllau, gorgorsydd a rhos yr ucheldir a rhos llawr gwlad.